

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Bleddyn Ddu

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT

Cymrodyr Ymchwil

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Nerys Ann Jones, BA, PHD

W. Dyfed Rowlands, BA

Erwain Haf Rheinallt, BA

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Golygyddion Ymgynghorol

Yr Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams,

MA, BD, DLITT, DLITT CELT, FSA, MRIA, FBA

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, FBA

Bwrdd Golygyddol

Dafydd H. Evans, BA, DPHIL

Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA

Peredur Lynch, BA, PHD

GWAITH BLEDDYN DDU

golygwyd gan

R. IESTYN DANIEL



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
1994

© Prifysgol Cymru ©, 1994.

Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 20 4

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Rhagair

Maes ymchwil trydydd prosiect y Ganolfan yw golygu a chyhoeddi barddoniaeth anolygedig y cyfnod 1283–1525. Y cam cyntaf yw gweithio ar farddoniaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac erbyn diwedd 1996 gobeithir cyhoeddi'r gwaith hwn mewn tua phymtheg o gyfrolau. Dyma'r gyfrol gyntaf i ymddangos yn y gyfres.

Y bedwaredd ganrif ar ddeg yw un o'r canrifoedd pwysicaf a mwyaf cyffrous yn hanes ein llenyddiaeth. Dyma gyfnod Dafydd ap Gwilym ac Iolo Goch. Mae'n ganrif amrywiol iawn ei chynnyrch gyda'r hen yn cydblethu â'r newydd. Ar y naill law ceir y Gogynfeirdd diweddar yn canu yn null Beirdd y Tywysogion: er mor draddodiadol yw eu themâu, gwelir nifer o'r beirdd hyn yn ymroi'n egnïol i ganu dychan, canu na chafwyd prin ddim tystiolaeth iddo yn y llawysgrifau cyn y cyfnod hwn. Ar y llaw arall, ceir yng ngwaith Dafydd ap Gwilym a'i ddilynwyr weddnewidiad ar y traddodiad barddol gyda chanu tra gwahanol ar fesur y cywydd yn dod i'r amlwg. Ond er mor ffres a newydd yr ymddengys gwaith y beirdd hyn, ceir nifer ohonynt hwythau'n cyfansoddi awdlau yr un mor astrus ag awdlau'r Gogynfeirdd.

Diolchiadau

Diolchir yn arbennig i'r bobl ganlynol: i staff Adran y Llawysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, ac yn arbennig i Mr Graham Thomas, am eu cymorth parod; i staff cymwynasgar Geiriadur Prifysgol Cymru ac i Mr Gareth Bevan yn arbennig am ei sylwadau gwerthfawr ar y gwaith; i Mr Tomos Roberts a Dr A.D. Carr o Brifysgol Cymru Bangor am rannu eu gwybodaeth â mi; ac i'r Chwaer Bosco am wirio fy adysgrifiadau o'r testunau.

R.I.D.

Cynnwys

	<i>Tud.</i>
DULL Y GOLYGU	v
DIOLCHIADAU	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol	ix
Termau a Geiriau	xv
GWAITH BLEDDYN DDU	
RHAGYMDRODD.....	1
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
1. Awdl i Dduw	13
2. Awdl i Iesu	17
3. Awdl i Iesu	21
4. Awdl i Iesu	25
5. Awdl i Dduw a Mair.....	30
6. Marwnad Goronwy ap Tudur Hen o Dreicastell	34
7. Englyn dychan.....	36
8. Englyn serch.....	37
9. Englyn i'r gwenyn.....	38
10. Englyn i anifail.....	39
11. Englyn i Adda.....	40
12. Englyn i Adda.....	41
13. Englyn i Gwion	42
14. Ymryson Bleddyn Ddu a Chonyn Coch.....	43
ATODIAD	
i. Coffáu coroni Wiliam Rufus	46
ii. Englyn Conyn Coch i Fadog	47
NODIADAU	49
LLAWYSGRIFAU	71
MYNEGAI I'R NODIADAU	75
Mynegai i enwau personau	80
Mynegai i enwau lleoedd	80
MYNEGAI I LINELLAU CYNTAF POB CERDD.....	81

Byrfoddau

Llyfryddol

- AAST *Anglesey Antiquarian Society and Field Club Transactions*, 1913–
- ABLIGC *Adroddiad Blynyddol Llyfrgell Genedlaethol Cymru*
- Arch Camb *Archaeologia Cambrensis*, 1846–
- Arm P *Armes Prydein o Lyfr Taliesin, gyda rhagymadrodd a nodiadau gan Ifor Williams* (Caerdydd, 1955)
- AWH *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the late Glyn Roberts*, ed. A.H. Dodd & J.G. Williams (Cardiff, 1969)
- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–
- Bangor Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Cymru Bangor
- P.C. Bartrum: WG1 *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- BL Add Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig
- Bren Saes *Brenhinedd y Saesson*, ed. Thomas Jones (Cardiff, 1971)
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- CA *Canu Aneirin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938)
- Card Llawysgrif yn Llyfrgell Sir De Morgannwg
- CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum in the years 1841–1845* (London, 1850)

- CBMC E. Gwynne Jones and A. Giles Jones, 'A Catalogue of the (Bangor) Mostyn Collections', cyfrol i (cyfrol anghyhoeddedig, Bangor, 1967)
- CCM B.G. Owens and R.W. McDonald, 'A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980)
- CLIH *Canu Llywarch Hen*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1935)
- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–
- CMRWBM Edward Owen, *A Catalogue of Manuscripts relating to Wales in the British Museum* (London, 1900–22; 4 cyfrol) (Cymmrodorion Record Series No. 4)
- Cor Llythyrau S. Pawl at y 'Corinthiaid' yn y Testament Newydd
- CT *Canu Taliesin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1960)
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- D *Dictionarium Duplex*, ed. John Davies (Londinium, 1632)
- DE *Gwaith Dafydd ab Edmwnd*, gol. Thomas Roberts (Bangor, 1914)
- DGG² *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a T. Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935)
- DrOC *Drych yr Oesoedd Canol*, gol. N. Lloyd a M.E. Owen (Caerdydd, 1986)
- EANC R.J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938)
- EL Henry Lewis, *Yr Efen Ladin yn yr Iaith Gymraeg* (Caerdydd, 1943)
- Études *Études celtiques*, 1936–

- EWGT *Early Welsh Genealogical Tracts*, ed. P.C. Bartrum (Cardiff, 1966)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GBF *Gwaith Bleddyn Fardd ac Eraill o Feirdd Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian Andrews *et al.* (yn y Wasg)
- GCBM i *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991)
- GCBM ii *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, ii, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (yn y Wasg)
- GDB *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Y Chwaer Bosco *et al.* (yn y Wasg)
- GDG *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (arg. cyntaf; Caerdydd, 1952)
- GDG³ *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg.; Caerdydd, 1979)
- Gen Llyfr ‘Genesis’ yn yr Hen Destament
- GGI² *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (Caerdydd, 1961)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn ‘Prydydd y Moch’*, gol. Elin Jones (Caerdydd, 1989)
- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion ynghyd â Dwy Awdl Fawl Ddienw o Ddeheubarth*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (yn y Wasg)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–)

- GSCMB 'Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University of North Wales, Bangor' (cyfrol anghyhoeddedig, Bangor, 1962)
- GTA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)
- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies yn Llyfrgell Prifysgol Cymru Bangor
- H *Llawysgrif Hendregadredd*, gol. J. Morris-Jones a T.H. Parry-Williams (Caerdydd, 1933)
- HAW William Rees, *An Historical Atlas of Wales from Early to Modern Times* (Cardiff, 1951)
- HG Cref *Hen Gerddi Crefyddol*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1931)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- IGE² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. H. Lewis, T. Roberts ac I. Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- LIA *Llyvyr Agkyr Llandewivrevi*, 1346, ed. J. Morris Jones & John Rhys (Oxford, 1894)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth
- J.E. Lloyd: HW³ J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed. London, 1939)
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MA² *The Myvyrian Archaiology of Wales* (second ed., Denbigh, 1870)
- MAng A.D. Carr, *Medieval Anglesey* (Llangefni, 1982)
- MFE A.D. Carr, 'The Mostyn Family and Estate, 1200–1642' (Cymru [Bangor], Ph.D., 1975)

- J. Morris-Jones: CD J. Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)
- J. Morris-Jones: WS John Morris-Jones, *Welsh Syntax* (Cardiff, 1931)
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MWRL Catherine A. McKenna, *The Medieval Welsh Religious Lyric* (Massachusetts, 1991)
- MWS *Medieval Welsh Society: selected essays by T. Jones Pierce*, ed. J.B. Smith (Cardiff, 1972)
- ODCC *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross (London, 1958)
- OED *The Oxford English Dictionary*, 13 vols. (Oxford, 1933)
- OIG *Orgraff yr Iaith Gymraeg* (ail arg., Caerdydd, 1942)
- Pant Llawysgrif yng nghasgliad Panton yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- PBA *Proceedings of the British Academy*, 1903–
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- PKM *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
- P Tal *The Poems of Taliesin*, ed. I. Williams, English version by J.E. Caerwyn Williams (Dublin, 1968)
- R *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
- Rec C *Registrum vulgariter nuncupatum 'The Record of Caernarvon'*, ed. H. Ellis (London, 1838)
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910)
- SC *Studia Celtica*, 1966–
- T *The Book of Taliesin*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1910)
- THSC *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–

- TLIM G.J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948)
- TR *Antiquæ Linguae Britannicæ Thesaurus ... Welsh-English Dictionary*, ed. Thomas Richards (Bristol, 1753)
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- TRS *The Radnorshire Society Transactions*, 1931–
- TW *Thesaurus Linguae Latinæ et Cambrobritannicæ yn Pen 228*
- TYP² *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969)
- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)
- I. Williams: ELI I. Williams, *Enwau Lleoedd* (Lerpwl, 1945)
- WM *The White Book Mabinogion*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Pwllheli, 1907; adarg. Caerdydd, 1973)
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965–).
- YCM² *Ystoria de Carolo Magno*, gol. Stephen J. Williams (ail arg., Caerdydd, 1968).

Termau a geiriau

a.	ansoddair, -eiriol	gol.	golygwyd gan
adf.	adferf	grb.	gorberffaith
amhff.	amherffaith	grch.	gorchmynnol
amhrs.	amhersonol	grff.	gorffennol
anh.	anhysbys	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
ardd.	arddodiad, -iaid	gw.	gweler
arg.	argraffiad	H.	Hen
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	h.y.	hynny yw
b.	benywaidd (ac weith- iau berf)	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
ba.	berf anghyflawn	<i>id.</i>	<i>idem</i>
be.	berfenw	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
bf.	(f.) berf, -au	ll.	lluosog; llinell
bg.	berf gyflawn	Llad.	Lladin
bl.	blaen	llaf.	llafariad, -iaid, llaf- arog
c.	<i>circa</i>	llau.	llinellau
c.	(g.) canrif	llsgr.	llawysgrif
C.	Canol	llsgrau.	llawysgrifau
cf.	cymharer	m.	mewnol
cts.	cytsain, -seiniaid	myn.	mynegol
Cym.	Cymraeg	neg.	negydd, -ol
cys.	cysylltair, cysylltiad	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
d.g.	dan y gair	p.	priod
e.	enw, -au	pres.	presennol
e.c.	enw cyffredin	prff.	perffaith
ed.	<i>edited by, edition</i>	prs.	person, -ol
e.e.	er enghraifft	r	<i>recto</i>
e.p.	enw priod	rh.	rhagenw, -ol
eb.	enw benywaidd	S.	Saesneg
ebd.	ebychiad	td.	tudalen
eg.	enw gwrywaidd	un.	unigol
eith.	eithaf	v	<i>verso</i>
f.	ffolio	vol.	<i>volume</i>
g.	(c.) canrif	vols.	<i>volumes</i>
g.	gwrywaidd		

Rhagymadrodd

Un bardd ynteu dau?

Ceir gwahanol gerddi wedi eu priodoli i Fleddyn Ddu a Bleddyn Ddu Was y Cwd,¹ a naturiol gofyn, fel y gwnaeth John Davies gynt,² ai un bardd ynteu dau a gynrychiolir gan yr enwau hyn.³ Cesglir yn betrus yma mai'r un bardd yw Bleddyn Ddu a Bleddyn Ddu Was y Cwd am y rhesymau canlynol.

1. Mewn llawysgrifau o'r bedwaredd ganrif ar ddeg y digwydd cerddi Bleddyn Ddu. Er mai mewn llawysgrifau o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg ymlaen y diogelwyd cerddi Bleddyn Ddu Was y Cwd, maent, at ei gilydd, o ran geirfa, cystrawen ac arddull yn ymddangos fel pe baent yn perthyn i'r bedwaredd ganrif ar ddeg;⁴ ac nid yw eu cynnwys yn gwahardd tybio felly ychwaith. Gellir dweud yr un peth am eu cynganeddiad,⁵ er na ddylid pwysu gormod ar y pwynt hwn gan mor sathredig a llwgr ar brydiau yw trwch y cerddi hyn.⁶ Er nad yw'r tebygolrwydd fod Bleddyn Ddu Was y Cwd yn perthyn i'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn profi, wrth gwrs, mai'r un bardd ydoedd â Bleddyn Ddu, eto mae'n llai tebygol, ar sail y nodweddion uchod, mai bardd diweddarach, ac felly bardd arall, ydoedd.

2. Yn 'Awdl i Iesu' (cerdd 3), yr unig bechod o'r eiddo y sonia Bleddyn

¹ Ceir y ffurf *Bleddyn Was y Cwd* hefyd, gw. amrywiadau cerddi 10 a 12, ond amlwg mai talfyriad ydyw o *Bleddyn Ddu Was y Cwd*. Ceir hefyd ychydig o fân amrywiadau dibwys megis *Bleddyn fab y Cwd*, *Bleddyn Was y Cŵn*, *Bleddyn Was ei Gwd*. Priodolir cerddi 1–6 isod i Fleddyn Ddu a cherddi 7–14 i Fleddyn Ddu Was y Cwd.

² Yn yr adran ar awduron Brytaneg a'u dyddiadau tua diwedd D.

³ Yn y testunau o awdlau Bleddyn Ddu yn llawysgrifau Llst 133E a Llst 145D (gw. isod td. 73), defnyddir y ddau enw yn ddiwahaniaeth, ond gan mai testunau sy'n tarddu o Lyfr Coch Hergest, lle gelwir y bardd yn Fleddyn Ddu, yw'r rhain, ni ddylid pwysu ar yr uniaethu a'r tebyg yw mai ffrwyth dyfalu dysgedig ydyw.

⁴ Cf., e.e., 'Englyn i anifail gwyllt' (cerdd 10) â'r englyn i'r aradr a briodolir i Iolo Goch, GIG 174, a sylwer yn arbennig ar y cyfansoddeiriau.

⁵ E.e. ceir yn 11.1, 2 a 14.1 gynganeddion braidd gyffwrdd a ddeolwyd yn Eisteddfod Caerfyrddin c. 1450, onid ynghynt (gw. GP xlv), a rhai llinellau digynghanedd, e.e. 13.4, peth digon cyffredin yng ngwaith beirdd y 14g. ond nad yw'n un o nodweddion y ganrif ddilynol. Efallai nad diarwyddocâd ychwaith yw canran uchel y gynghanedd sain yn yr englynion hyn, oherwydd gall fod, megis yn achos cywyddau'r 14g. (gw. GDG xcvi–xcviii), yn nodweddiadol o'r ganrif honno rhagor y canrifoedd dilynol. Dangosodd T.D. Crawford, 'The Englynion of Dafydd ap Gwilym', *Études*, xxii (1985), 242, 246, 251, mai'r gynghanedd sain sydd flaenaf yn englynion Dafydd ap Gwilym.

⁶ H.y., gallai awdur cerddi o'r fath ddewis dilyn arferion cynganeddu na fyddent o anghenraid yn cydymffurfio â safonau'r canu swyddogol.

Ddu amdano yw canu dychan (3.18–20); dychanu yw bron holl *répertoire* Bleddyn Ddu Was y Cwd.

3. Mae gan Fleddyn Ddu awdl farwnad i Oronwy ap Tudur Hen o Dre-castell ym Môn (cerdd 6)—er nad yw ei phriodoliad y tu hwnt i amheuaeth—a chysylltir Bleddyn Ddu Was y Cwd, yntau, â Môn. Yn ei ymryson â Bleddyn Ddu Was y Cwd (cerdd 14) gofyn Conyn Coch iddo *ai sych mawn Môn* (14.8) a gellir ychwanegu bod yr ymadrodd (*fel*) *gast ... yn cachu asgwrn* a ddefnyddir gan Fleddyn Ddu Was y Cwd yn ei ail ‘Englyn i Adda’ (12.3–4) yn dra thebyg i’r ymadrodd *fel ci yn cachu asgwrn* a glywir yng ngorllewin Môn heddiw.

4. Gellir dadlau bod cyfeiriadau beirdd cyfoes at fardd o’r enw Bleddyn, sef Bleddyn Ddu (Was y Cwd), yn ôl pob tebyg, yn ymwneud â’r un person (gw. isod, tt. 4–8), hynny yw, nad oes dim yn eu cyfeiriadau sy’n awgrymu bod mwy nag un bardd o’r enw Bleddyn yn eu cyfnod hwy.

Rhaid cydnabod na chafwyd unrhyw dystiolaeth ddigamsyniol mai’r un bardd yw Bleddyn Ddu a Bleddyn Ddu Was y Cwd. Ar y llaw arall, teg dweud na welwyd unrhyw dystiolaeth o blaid credu mai beirdd gwahanol ydynt. O hyn ymlaen, felly, cymerir eu hunoliaeth yn ganiataol, er cydnabod y gall tystiolaeth newydd yn hawdd ddod i’r golwg a fydd yn chwalu’r ddamcaniaeth.

Bywyd y bardd

Ei achau

Yn y flwyddyn 1352 trefnwyd stent o Fôn a sir Gaernarfon gan John de Delves, dirprwy ustus Gogledd Cymru ar y pryd, ar gyfer y Tywysog Du.⁷ Yn y stent enwir rhyw Ieuan ap Bleddyn Ddu yn un o’r deuddeg rheithiwr a gymerodd ran yn y gwaith o arolygu cwmwd Menai,⁸ ac fe’i enwir hefyd yn un o gyd-ddeiliaid Gwely Bleddyn ab Arthen yn nhrefgordd rydd Trefarthen yn yr un cwmwd.⁹ Heblaw Gwely Bleddyn ab Arthen, yr oedd hefyd yn yr un drefgordd welyau ym meddiant disgynyddion Cynddelw ab Arthen a Madog ab Arthen.¹⁰ Dengys yr achau fod Arthen yn fab i Gadrod Hardd,¹¹ gŵr o Fôn a oedd yn ei flodau yn y ddeuddegfed ganrif, ond gan na roddant, ysywaeth, ddisgynyddion Arthen, ni ellir olrhain ymhellach ddisgynyddiaeth Ieuan ap Bleddyn Ddu.

Ni ellir, wrth gwrs, fod yn sicr mai’r un yw tad yr Ieuan ap Bleddyn Ddu hwn â Bleddyn Ddu (Was y Cwd) y bardd. Serch hynny, mae’n drawiadol

⁷ A.D. Carr, ‘The Extent of Anglesey, 1352’, AAST, 1971–2, 150–272. Argraffwyd yr arolwg cyfan yn Rec C.

⁸ *Ib.* 247.

⁹ *Ib.* 256.

¹⁰ *L.c.*

¹¹ Gw. P.C. Bartrum: WG1 ‘Cadrod Hardd’. Ar Gadrod a’i ddisgynyddion, gw. hefyd MWS 256–9.

fod yr unig awdl fawl secwlar gan Fleddyn Ddu a gadwyd wedi ei chanu i'r uchelwr Tudur ap Goronwy Hen o Dre Castell yn nhrefgordd Tregaeon, cwmwd Dindaethwy ym Môn. Awdl farwnad ydyw y gellir ei dyddio i 1331, dyddiad marw Tudur. Naturiol hollol fyddai i fardd o uchelwr o gwmwd Menai deithio ychydig filltiroedd tua'r gogledd-ddwyrain i gwmwd Dindaethwy i ganu ei farwnad i'r uchelwr pwerus hwn.

Defnyddir y gair 'uchelwr', oherwydd os mab y bardd Bleddyn Ddu oedd yr Ieuan ap Bleddyn Ddu a enwir yn stent 1352, byddai'r tad, fel y mab, yn ŵr rhydd ac yn gyd-berchen eiddo pur sylweddol a hynny ar dir amaethyddol da.

Ei fro

P'un ai Bleddyn Ddu (Was y Cwd) a olygir yn y stent uchod ai peidio, gwelwyd eisoes wrth ddwy o'i gerddi fod gan y bardd gysylltiadau cryf â Môn. Yn ei gerdd ddychan iddo cysylltir Bleddyn gan Hywel Ystorm â Môn a gellir ychwanegu bod geiriau Dafydd ap Gwilym, *Haws yng Ngwynedd oedd weddu / Tad i Fleddyn o'r dyn du*, yn awgrymu iddo hanfod o Wynedd. Ymddengys yn debygol iawn, felly, mai un o Fôn ydoedd Bleddyn Ddu (Was y Cwd).¹²

Ei yrfa

Gellir casglu ychydig am yrfa Bleddyn Ddu (Was y Cwd) oddi wrth ei eiriau ef ei hun. Dengys ei awdlau mai bardd yn y traddodiad penceirddiaidd ydoedd, a dywed amdano'i hun, *Prifardd wyf i Dduw ar folawd / Profadwy arddelw i'r Eurddelw urddawd* (4.20–1), sy'n awgrymu, fel y nodir wrth drafod y llinellau hyn, ei fod wedi ennill yr hawl i fod yn fardd proffesiynol. Canodd hefyd farwnad i Oronwy ap Tudur Hen o Dre Castell (cerdd 6), aelod o linach ddylanwadol a chyfoethog Ednyfed Fychan, distain Llywelyn ab Iorwerth, a thebyg ei fod wedi mwynhau nawdd Goronwy am ryw gyfnod cyn i hwnnw farw yn 1331. Fodd bynnag, mae'r ffaith, drawiadol ar un olwg, fod englynion dychan bras, isel, diurddas ac anghelfydd ddigon ar dro, bron mor amlwg ag awdlau yn hynny o'i waith a gadwyd, yn awgrymu iddo hefyd *ymyrru ar glerwryaeth*¹³ yn helaeth, megis yn yr ymryson byr â'r bardd Conyn Coch (cerdd 14), rywbyrd yn ei fywyd. Am y gweddill, nid oes ond cyfeiriadau at bechodau a gyflawnodd: cyfeiria yn ei awdl gyntaf i Dduw (1.5) at bryderon a heintiau blin a anfonodd Duw ato ac at ryw drais mawr ac anghyfiawn a gyflawnodd (1.7); yn y gyntaf o'i dair 'Awdl i Iesu' (cerdd 2) sonia'n benodol am bechod medd-dod (2.20–1), ac yn yr ail 'Awdl i Iesu' (cerdd 3), fel y dywedwyd uchod, sonia sut y pechodd drwy ddychanu (3.18–20); ac yn yr 'Awdl i Dduw a Mair' dywed iddo fod yn euog o garu anghyfiawnder ac o bechu (5.30). Nid yw'r datganiadau hyn, at ei

¹² Am y dyfyniadau hyn, gw. isod tt. 4–8.

¹³ GP 56 (ll. 39).

gilydd, yn ychwanegu llawer at ein gwybodaeth amdano gan mor gyffredin y pechodau a grybwyllir.

Ymddengys wrth ffynonellau eraill ei fod yn dra symudol. Fel y gwelir isod, cyfeiria Hywel Ystorm ato yn ei ddychangerdd fel *glut grôytrat*, geilw Gruffudd Gryg ef yn *fforddrych*, ac i'r bardd Conyn Coch *blaidd ysgrublaidd heb wreiddion* ydoedd. Os cyfeiriadau at ei deithiau clera yw'r rhain, yna ymddengys fod Bleddyn yn crwydro mwy nag a oedd yn arferol hyd yn oed i feirdd ei oes ef. Dichon mai anhawster i gael noddwyr a fyddai'n fodlon ei gynnal oedd y rheswm am hynny, ac yn y cyswllt hwn dylid sylwi bod Hywel Ystorm yn dweud amdano, *Gôir gasglaâd med mon. gberth march ac eidyon*,¹⁴ ac yna, *Gôlat uaelabr adreid*,¹⁵ fel pe bai wedi camarfer y nawdd a gawsai ym Môn (gan Oronwy ap Tudur, efallai) cyn hel ei draed i Faelor bell.

*Ei ddyddiadau*¹⁶

Fel y gwelwyd, ymddengys i Fleddyn Ddu (Was y Cwd) ganu awdl farwnad i Oronwy ap Tudur Hen yn 1331. Mae hyn yn cyd-daro'n rhagorol â dyddiad y llawysgrif gyntaf y ceir ynddi gerdd o'i waith—'Englyn serch' (cerdd 8)—sef Peniarth 20, y dangoswyd bellach iddi gael ei hysgrifennu c. 1330 (gw. 'Llawysgrifau', isod tt. 71–3). Ym mhen arall ei fywyd, os ef a enwir gan Ruffudd Llwyd yn aelod o'r cwest o brydyddion ar Forgan ap Dafydd o Rydodyn y gofynnodd Gruffudd amdano (gw. isod tt. 6–7)—a rhaid cydnabod nad oes brawf o hyn—yna, gan mai rywbyrd rhwng 1383 a 1387 y cyfansoddwyd y cywydd,¹⁷ rhaid fod Bleddyn yn dal i ganu yng nghanol wythdegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Awgryma hyn *floruit* o c. 1330 hyd c. 1385, ac oes efallai o c. 1310 hyd c. 1390 neu (os cyfansoddwyd 'Cywydd y Cwest' yn agosach i 1383 nag i 1387) c. 1385. Ymddengys hyn, ar yr olwg gyntaf, yn oes braidd yn faith, ond atgoffeir dyn o fardd arall o'r un cyfnod, Iolo Goch, a gafodd oes hir gan farw ac yntau, ond odid, dros ei ddeg a thrigain oed.

Cyfeiriadau ato

Heblaw'r cyfeiriad posibl at Fleddyn Ddu yn stent 1352 a grybwyllwyd uchod, a chofnod John Davies amdano yn ei eiriadur, ceir gweddill y cyfeiriadau hysbys, gwir neu bosibl, at Fleddyn Ddu (Was y Cwd) gan feirdd

¹⁴ R 1340.26–7.

¹⁵ *Ib.* 1340.28; gw. hefyd y nodyn cefndir i gerdd 14 isod.

¹⁶ Dywed John Davies yn D fod Bleddyn Ddu Was y Cwd yn ei flodau yn 1090, ond fel y dywed G.J. Williams, GP xxviii, 'Y mae'n eglur na wnâi'r Dr Davies namyn bwrw amcan, megis wrth roddi 'Edeyrn Dafod aur' yn ei flodau yn 1280'. Yn ôl G 57, roedd Bleddyn Ddu yn ei flodau tua chanol y 14g. ond ni rydd unrhyw resymau (ai arddull gyffredinol y bardd a oedd ganddo mewn golwg?). Mae'r dyddiad c. 1200 i Fleddyn Ddu yn ByCy 36 a GMW xxvii ymhell iawn o'i le.

¹⁷ IGE² xiii.

eraill o'r bedwaredd ganrif ar ddeg.

1. Hywel Ystorm (hanner cyntaf y 14g.).¹⁸ Ceir cerdd ddychan sylweddol ganddo i ryw Fleddyn sy'n dechrau:

Gwae agly6 bledyn. g6aedu6r lostrudyn.¹⁹

Cyfyd y cwestiwn ai Bleddyn Ddu (Was y Cwd) yw'r Bleddyn hwn.²⁰ Mae rhai pwyntiau yn y gerdd yn awgrymu hynny. Cyfeirir at Fleddyn fel *glut gr6ytrat*,²¹ sy'n dwyn ar gof ddisgrifiad Conyn Coch o Fleddyn Ddu (Was y Cwd) yn ei ymryson ag ef fel *blaidd ysgrublaidd heb wreiddion* (14.7); priodolir *gogan ymadra6d*²² iddo, sy'n briodol iawn i awdur â chyfran helaeth o gerddi dychan i'w enw; ond yn bennaf, fe'i cysylltir â Môn,²³ bro Bleddyn Ddu (Was y Cwd), yn ôl pob tebyg. Yn y gerdd hon portreedir Bleddyn fel crachfardd dychanllyd crwydrol a chanddo gorff afluniaidd, arferion bawaid a chymeriad anhyfryd.

2. Gruffudd Gryg (*fl.* 1357–70).²⁴ Yn y farwnad ffug a ganodd Gruffudd i Ddafydd ap Gwilym dywed:

Cywraint y gwnaeth Mab maeth Mair,
Dan gôr gwydr, dwyn gŵr gwawdair,
A gado Bleddyn gidwm,
Fforddrych truan, cryman crwm.²⁵

¹⁸ A bwrw mai ef piau'r cerddi dychan yn R 1340–5 i Gasnodyn, *fl.* 1320–40 yn ôl ByCy 62, a Thrahaearn Brydydd Mawr, *fl.* hanner cyntaf y 14g., *ib.* 916. Yr unig gerdd yn y Llyfr Coch y ceir enw Hywel wrthi yw honno yn R 1337–8, ond y tebyg yw mai ef hefyd piau'r cerddi dilynol i gyd hyd at y bardd nesaf (R 1338–48), gan mai'r un yw'r llaw, gw. G. Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', *Cylchg LIGC xxi* (1979–80), 255, a thebyg yw eu cynnwys. Gw. hefyd TLIM 6 (n16).

¹⁹ R 1339.36.

²⁰ Ac eithrio'r Bleddyn Fardd hwnnw y canodd Cynddelw farwnad ac, efallai, englyn iddo yn y 12g. (gw. GCBM i, cerdd 29), a'r Bleddyn Fardd enwocach a oedd yn byw yn y 13g. (gw. GBF), sylwyd ar y beirdd canlynol o'r enw Bleddyn na wyddys eu hunion gyfnod: Bleddyn Llwyd y ceir y cerddi cynharaf o'r eiddo yn y Gramadeg yn Pen 20, c. 1330, gw. GP xxviii; Bleddyn ab Ieuan Hen y priodolir englyn iddo yn BL Add 14990, 90^a a BL Add 15003, 130^f—perthyn y gerdd hon i'r un gadwyn o englynion coffâu coroni brenhinoedd â'r englyn coffâu coroni Wiliam Rufus a gambriodolwyd i Fleddyn Ddu (gw. isod Atodiad i), a chan na all y gadwyn fod yn gynharach na'r 16g. a bod ynddi gambriodoli dybryd i amryfal feirdd enwog o'r gorffennol, mae'n debygol fod Bleddyn ab Ieuan Hen yn perthyn i oes gynharach; Bleddyn Drwyn Pladur y priodolir englyn iddo yn Card 1.84, 211—mae'r gerdd hon yn ddiweddarach na'r bedwaredd ganrif ar ddeg.

²¹ R 1340.28.

²² *Ib.* 1340.22.

²³ *Ib.* 1340.26, 36–7. Yn ôl G 264, afon ym Maesyfed yw Cyrchell yn yr ail ddyfyniad, ond yn ôl EANC 98, afon yng nghyffiniau Llanbedr-goch a Phentraeth ym Môn ydyw. Gw. hefyd Gwilym T. Jones, *Afonydd Môn* (Bangor, 1989), 60–1.

²⁴ ByCy 295.

²⁵ GDG³ 428 (llau. 21–4).

Drachefn, cyfyd y cwestiwn ai Bleddyn Ddu (Was y Cwd) a olygir. Dwg *fforddrych* ar gof eiriau Hywel Ystorm *glut grôytrat*, a geiriau Conyn Coch, *Blaidd ysgrublaidd heb wreiddion*; ond mwy arwyddocaol yw'r geiriau *cryman crwm* oherwydd yng ngherdd Hywel Ystorm, un o'r pethau a bwysleisir fwyaf am Fleddyn yw ei gefn crwm.²⁶ Mae'n bosibl, felly, mai Bleddyn Ddu (Was y Cwd) a olygir yma hefyd. Difaru a wna Gruffudd fod bardd mor wych â Dafydd wedi marw tra bo un mor wael â Bleddyn eto'n fyw.

3. Dafydd ap Gwilym (hanner cyntaf y 14g.). Yn ei awdl i Hywel ap Goronwy, Deon Bangor, dywed Dafydd:

Nid fel Bleddyn, dyn diburoraidd—ras,
Y cân eddylwas ferw Cynddelwaidd.²⁷

Ac yn y pedwerydd cywydd o'i ymryson â Gruffudd Gryg dywed:

Haws yng Ngwynedd oedd weddu
Tad i Fleddyn o'r dyn du
Nog efô, hwylio heli,
O dud Môn yn dad i mi.²⁸

Yn y dyfyniad cyntaf, gwrthgyferbynna Dafydd ganu aruchel Cynddelw (ac felly ei ganu ei hun) â chanu gwael Bleddyn; ac yn yr ail dywed ei bod yn debycach mai tad (h.y. tad barddol) i Fleddyn yw Gruffudd Gryg (y 'dyn du') na thad iddo ef, Dafydd, gan gysylltu Bleddyn â Gwynedd. Gellir casglu wrth y cyfeiriadau hyn fod Bleddyn yn batrwm o fardd swyddogol gwael ym marn Dafydd ap Gwilym.

4. Gruffudd Llwyd ap Dafydd ab Einion Llygliw (c. 1380–c. 1420).²⁹ Yn ei gerdd 'Cywydd y Cwest' dywed Gruffudd:

Beth am Fleddyn glerddyn glwys?
Gwn, iawn ydoedd ei gynnwys.
Gair honnaid y gŵr hwnnw
Gyda'i wlad a geidw ei lw.³⁰

Ni ellir bod mor sicr mai Bleddyn Ddu (Was y Cwd) a olygir yma. Fodd bynnag, yn wyneb cylchrediad eang ac amlwg enw Bleddyn Ddu (Was y Cwd) ymysg ei gyd-feirdd, mae'n bosibl mai ef a olygir yma hefyd; a chan fod cynifer o feirdd y cyfnod hwn yn glerwyr i'r graddau eu bod yn gorfod

²⁶ R 1340.6, 12 *gbarac*, 30 *Gochrymed garan*, 35 *cryman*.

²⁴ GDG³ 43 (15.39–40).

²⁸ *Ib.* 412 (154.35–8).

²⁹ ByCy 294.

³⁰ IGE² 117 (XXXIX.19–22); ceir yr amrywiad Belyn neu Y Melyn mewn un llawysgrif, gw. *ib.* 356.

crwydro i ennill eu bywoliaeth, dichon mai ergyd galw Bleddyn yn glerddyn yma yw ei fod yn crwydro mwy na'r cyffredin. Os felly, cymharer disgrifiadau Conyn Coch a Hywel Ystorm ohono i'r perwyl hwnnw a hefyd *fforddrych* Gruffudd Gryg (gw. uchod). Sylwer, fodd bynnag, mai hoffter, nid dirmyg, a fynegir at Fleddyn yma, yn wahanol i'r holl gyfeiriadau eraill.

5. Iolo Goch (c. ?1325–nid cyn 1397).³¹ Er nad yw Iolo Goch yn cyfeirio yn unman at fardd o'r enw Bleddyn, eto mae'n bosibl mai Bleddyn Ddu (Was y Cwd) sydd ganddo mewn golwg yn ei gerdd ddychan i rywun o'r enw Gwyddelyn. Os cymherir cerdd Hywel Ystorm i Fleddyn Ddu (Was y Cwd) â'r gerdd hon, gwelir bod Hywel Ystorm yn galw Bleddyn yn 'Wyddel'.³² Gellid trin y gyfatebiaeth rhwng hyn a'r enw Gwyddelyn fel cyd-ddigwyddiad oni bai am y ffaith mai un o nodweddion Bleddyn yng ngherdd Hywel yw fod ganddo fam y priodolir iddi rai pethau sy'n dwyn ar gof yn gryf gerdd ddychan arall gan Iolo Goch i fam Gwyddelyn, Herstin Hogle (fel y'i gelwir yno).³³ Hen wrach wrthun yw'r fam yn y gerdd honno ac yng ngherdd Hywel, ond y gyfatebiaeth fwyaf trawiadol yw'r pen-ôl mawr afrosgo a briodolir iddi gan y ddau fardd. Gair Hywel am hyn yw *gôilers*,³⁴ sef 'tin caseg', a mynega Iolo'r syniad trwy'r enw a rydd i'r wrach, Herstin Hogle, 'pen-ôl afrosgo', a *gwilers*,³⁵ yr union air, sylwer, a ddefnyddir gan Hywel. Sylwer hefyd ar *dingrach*³⁶ gan Hywel a *rhefr grach*³⁷ gan Iolo. Fodd bynnag, gan fod mamau Bleddyn a Gwyddelyn, i bob golwg, mor debyg, mae'n bosibl mai'r un person yw'r ddau,³⁸ ac efallai nad yw'r ffurf 'Gwyddelyn' ond achos o chwarae ar y gair 'Gwyddel' a therfyniad yr enw 'Bleddyn'.³⁹ Gellid nodi cyfatebiaethau eraill ond rhaid bodloni ar ddweud, os Bleddyn Ddu (Was y Cwd) yw gwrthrych cerdd Iolo,⁴⁰ mai'r un yn ei hanfod yw'r portread ohono a geir ynddi ag eiddo

³¹ Dafydd Johnston, *Iolo Goch* (Caernarfon, 1989), 10.

³² R 1339.39. Y tebyg yw mai ystyr ffigurol sydd i'r gair yma, cf. yr ansoddair *Gwyddelig* a gw. GPC 1754, 1755.

³³ GIG 161–3 (XXXVI).

³⁴ R 1339.38.

³⁵ GIG 162 (XXXVI.71).

³⁶ R 1338.39.

³⁷ GIG 161 (XXXVI.25).

³⁸ Dichon hefyd mai Gwyddelyn yw gwrthrych cerdd Iolo i safn rhywun, GIG 171, ac mai Bleddyn Ddu yw hwnnw. Cf. yr holl gyfeiriadau at wmi'r safn â disgrifiad Iolo o geg Gwyddelyn yn ei ddychan i Herstin Hogle, *Gwae'r mab gwedy gwyro'r min* (*ib.* 162 (XXXVI.59)), h.y., y mab â min gwyrngam (gw. *ib.* 367n), a'r gair *bacwyr*, 'cefngrwm' (*ib.* 171 (XXXIX.9)), â chyfeiriadau Hywel Ystorm a Gruffudd Gryg at gefngrymedd Bleddyn.

³⁹ Yr unig enghreifftiau Cymraeg Canol o'r ffurf *Gwyddelyn* a roddir yn GPC 1754 yw'r rheini o waith Iolo Goch. Yn ôl W. Basil Jones, 'Vestiges of the Gael in Gwynedd', *Arch Camb*, Second Series, v (1854), 259, yr oedd lle o'r enw Gwyddelyn ger Llanfechell (Môn).

⁴⁰ Yn ôl Thomas Parry, GDG³ 554–5, cymeriad stoc cellweirus oedd Gwyddelyn, fel ei fam Herstin Hogle a chymeriadau eraill cysylltiedig, a dilynwyd ef gan Dafydd Johnston, GIG 364. Phnaed y fam hon yn bosibl am i Thomas Parry lwyddo i ddangos nad mam Gruffudd Gryg, na pherson cig a gwaed, felly, o reidrwydd, oedd Mald y Cwd. Awgryma cerdd Hywel Ystorm, fodd bynnag, mai chymeriadau hanesyddol gwirioneddol oedd Gwyddelyn a Herstin Hogle, ac os mynnir

Hywel Ystorm, er y dichon mai arddull led unfurf y canu dychan sy'n cyfrif am yr argraff honno.

Mae'r cyfeiriadau hyn (boed a fo am gerdd Iolo) yn ddigon i gyfiawnhau dweud mai fel bardd salw a chymeriad gwyllt ac anwar yr ystyridd Bleddyn Ddu (Was y Cwd) gan amlaf gan ei gyfoeswyr mwy medrus a pharchus o'r un broffes. Diolch, er hynny, am eiriau Gruffudd Llwyd: os gwalch oedd Bleddyn, diau y perthynai iddo, fel llawer un o'i fath, ei gyfaredd. Os ef a enwir yn stent 1352, rhaid cydnabod nad yw'r darlun hwn ohono yn gyd-naws â'r hyn y disgwyliid i uchelwr tiriog fod, ond efallai mai ymddangosiadol yn unig yw'r anghysondeb ac ni wyddys digon am amgylchiadau'r bardd i'n galluogi i ddod i gasgliad terfynol ar y mater.

Ei lysenw

Os cywir y dehongliad a gynigir isod o 'Ymryson Bleddyn Ddu a Chonyn Coch' (cerdd 14), gellid awgrymu i Fleddyn Ddu gael ei lysenw 'Was y Cwd' trwy fynd yn fynych, ac yntau'n fardd ifanc, ar deithiau clera a chwd yn ei law i hel yd a'r cyffelyb gan noddwyr. Mae'n bosibl hefyd fod arwyddocâd rhywiol i'r gair *cwd*. O ran ei ffurf, dwg ar gof enw'r *Mald y Cwd* honno yn ymryson Dafydd ap Gwilym â Gruffudd Gryg pan sonia am Ruffudd fel *Mold y ci, fab Mald y Cwd*,⁴¹ pwy bynnag yn union oedd Mald y Cwd.⁴²

Ei waith

Yr awdlau

Canu yn null Beirdd y Tywysogion yw awdlau Bleddyn yn eu hanfod. Dilyn yr awdlau crefyddol batrwm sylfaenol yr awdl i Dduw, sef moli Duw, cyffesu pechodau, a gofyn am faddeuant, ond gwelir rhai datblygiadau diddorol yng ngherddi 4 a 5 (gw. isod). Tynnir hefyd ar yr un storfa o themâu traddodiadol: priodoledau Duw a'r Drindod megis Ei ddaioni a'i drugaredd, gwaith Crist yn marw ar y groes er mwyn dyn, rhan fawr Mair yng nghynllun gwaredigol Duw a'i chymorth, grasusau Gweddi'r Arglwydd, pwysigrwydd osgoi uffern a'i herchyllterau, ac yn y blaen. Mae 'Marwnad Goronwy ap Tudur Hen o Dre Castell' (cerdd 6), hithau, yn dilyn prif linellau'r farwnad draddodiadol, sef moli Duw, moli'r ymadawedig gan glodfori ei orchestion milwrol yn bennaf, yna ymddiried ei enaid i Dduw.

O ran arddull, y peth amlycaf ynglŷn â'r cerddi hyn yn gyffredinol yw eu brawddegau amlgymalog, sy'n gallu ymestyn dros linellau lawer, a chyw-

mai cymeriadau stoc cellweirus oeddynt, gellir awgrymu y byddai'n bosibl i fardd uniaethu cymeriadau o'r fath yn ddaufiniog a thra effeithiol ag unigolion go iawn er mwyn dychanu'r rheini.

⁴¹ GDG³ 412 (154.44).

⁴² Fel y nodir uchod, troednodyn 40, dangosodd Thomas Parry nad mam Gruffudd Gryg mohoni a dadleuodd, yn hytrach, mai cymeriad stoc cellweirus ydoedd, *ib.* 554-5.

reinrwydd y cynganeddu. Mae'r nodwedd gyntaf yn dwyn ar gof yn gryf ac yn ddigamsyniol arddull cywyddau cyfoeswyr i Fleddyn Ddu fel Iolo Goch a Dafydd ap Gwilym, ond diau mai'r awdl a ddylanwadodd ar y cywydd yn hyn o beth, ac nid fel arall, oherwydd fel y mae Saunders Lewis wedi dangos,⁴³ gwelir y nodwedd ymysg awdlau ac englynion rhai o feirdd y drydedd ganrif ar ddeg (megis Dafydd Benfras a Bleddyn Fardd) a chyffredin iawn ydyw erbyn y ganrif ddilynol yn awdlau ac englynion beirdd megis Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Dafydd y Coed a Gruffudd ap Maredudd. O ran cywreinrwydd y cynganeddu, mae hyn, drachefn, yn nodweddiadol o lawer o awdlau ac englynion y bedwaredd ganrif ar ddeg. Dylid nodi, er hynny, fod brawddegau'r rhan fwyaf o'r drydedd 'Awdl i Iesu' (cerdd 4) yn gwta a'r gynghanedd weithiau'n afreolaidd neu'n absennol, a dichon fod y gerdd yn perthyn i gyfnod gwahanol ym mywyd y bardd.

O ran mydr, pur amrywiol yw'r mesurau, gyda gwawdodyn yn y gerdd gyntaf, cyfres o doddeidiau yn yr ail, cyhydedd hir yn y drydedd, cyhydedd naw ban yn amrywio â chyhydedd fer yn y bedwaredd, peth prin iawn yng ngweithiau'r beirdd,⁴⁴ a rhupunt yn y bumed a'r chweched. Megis yng nghanu Beirdd y Tywysogion a barddoniaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg yn gyffredinol, cynghanedd sain a ddefnyddir ynddynt fynychaf, gyda chyfran sylweddol ohonynt yn gynganeddion sain pengoll. Yng ngherddi 5 a 6, sydd ill dwy ar fesur rhupunt, ceir yn yr ail a'r trydydd cymal gynghanedd lawn, megis cynghanedd groes neu draws, yn ddiethriad. Ceir hefyd gryn amrywiaeth cymeriad yn y cerddi, gan gynnwys cymeriad synhwyrol.

Megis Casnodyn a beirdd eraill o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, cymhlethu yn hytrach na symleiddio dull yr awdl draddodiadol a wna Bleddyn, ac ychwanegir at afrwyddineb ei awdlau gan ormod llacrywydd rhwng geiriau a'i gilydd, cydlynid gwan yn adeiladwaith y cerddi, a thuedd i wasgaru syniadau, fel mai anodd iawn yn fynych yw deall union feddwl y bardd. Atgoffeir dyn o'r duedd gyffredinol i ffurf ar gelfyddyd, wedi cyfnod ei gwir fawredd, fynd yn orgywrain gyda gormod o bwyslais ar allanolion.

Fel llenyddiaeth, gellir dweud na pherthyn i'r awdlau hyn unrhyw hynod-rwydd mawr. Ychydig, os dim, o naws gwir ddefosiwn a glywir ynddynt, er cael ambell gyffyrddiad barddonol. Efallai mai'r mwyaf cofiadwy o'u plith yw'r drydedd 'Awdl i Iesu' (cerdd 4) ac 'Awdl i Dduw a Mair' (cerdd 5), a hynny oherwydd yr elfen storïol a gorfforwyd ynddynt.

⁴³ 'Sangiad, *Tropus* a chywydd', *Trivium*, i (1966), 1-4.

⁴⁴ Noder mai yng ngwaith Dafydd Benfras yn unig o blith Beirdd y Tywysogion y ceir enghreifftiau eraill (gw. GDB cerddi 31 a 34). Mae'n dra phosibl fod hyn, ynghyd â rhai nodweddion mydryddol a chynganeddol eraill, yn arwydd o gynharwch y gerdd arbennig hon.

Yr englynion

Gwahanol iawn i awdlau ffurfiol Bleddyn Ddu yw'r englynion a briodolir iddo. Perthyn 'Englyn serch' (cerdd 8) a cherddi 7, 10–14, sydd i gyd yn englynion dychan i rywun neu rywbeth, i fyd y glêr, ac 'Englyn i'r gwenyn' (cerdd 9) i ryw ffrwd o ganu natur. Englynion unodl union yw'r rhan fwyaf o'r rhain, gyda dau englyn proest dalgron (cerddi 10 a 12) ac un englyn lleddfbroest (cerdd 11). Megis yn achos yr awdlau, y gynghanedd sain a ddefnyddir yn bennaf. Prydferth yw 'Englyn serch' (cerdd 8), gyda'i enwau chwedlonol hudolus a cheir ambell ddarlun byw, megis yn y cyntaf o'r ddau 'Englyn i Adda' (cerdd 11). Ond, at ei gilydd, ni pherthyn i'r englynion hyn, megis yr awdlau hwythau, unrhyw werth llenyddol mawr.

Y bardd fel ffigur llenyddol

Pe ceisid cloriannu Bleddyn Ddu (Was y Cwd) fel bardd yn gryno ar bwys y cerddi a gadwyd, gellid dweud ei fod yn fardd digon cymwys ond yn un eilradd nad oedd, hyd y gellir barnu, yn ffigur o bwys yn nhraddodiad cerdd dafod ei oes. Tebyg nad oedd ei gyd-feirdd ymhell o'u lle yn eu syniad amdano.

Y llawysgrifau

Y llawysgrif gynharaf sy'n cynnwys gwaith gan Fleddyn Ddu (Was y Cwd), sef 'Englyn serch' (cerdd 8), yw Peniarth 20, c. 1330. Yna daw Llyfr Coch Hergest, c. 1400, sy'n cynnwys ei awdlau. Testunau'r Llyfr Coch hefyd yw ffynhonnell uniongyrchol neu anuniongyrchol yr holl destunau diweddarach o awdlau'r bardd. Yn y ddwy lawysgrif hyn gelwir y bardd yn 'Bleddyn Ddu'.⁴⁵ Perthyn y llawysgrifau o weddill gwaith y bardd i'r cyfnod o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg ymlaen ac fe'u nodir yn y golygiadau o'r cerddi isod. Yn y rhain gelwir y bardd yn 'Bleddyn Ddu Was y Cwd' neu 'Bleddyn Was y Cwd'.

*Dilysrwydd y cerddi**Llyfr Coch Hergest*

Yma mae pum awdl gyntaf Bleddyn Ddu⁴⁶ yn dilyn ei gilydd yng ngholofnau 1249–53 (yn y drefn 1–2, 5, 3, 6 yn y golygiad isod) a cheir yr olaf⁴⁷ (cerdd 4) yn nes ymlaen yng ngholofnau 1284–5. Yr awdl gyntaf a'r olaf yn unig a ragflaenir gan enw'r bardd, a chyfyd y cwestiwn ai ef hefyd piau'r pedair awdl sy'n dilyn yr awdl gyntaf hyd at gerddi'r bardd nesaf, Gruffudd ap Dafydd ap Tudur. Mae hyn yn dra thebygol oherwydd dilyn y cerddi hyn

⁴⁵ Neu efallai 'Bleddyn Du' fel yr awgrymir gan y ffurf *Bledyn tu* yn R 1249.1 a 1284.6 (ond gw. WG 186).

⁴⁶ R 1249–53.

⁴⁷ *Ib.* 1284–5.

ei gilydd yn ddi-fwlch, yr un yw'r llaw,⁴⁸ ac mae eu harddull yn gryf o blaid credu mai'r un awdur piau hwy oll.⁴⁹

Testun Peniarth 118D o gerdd 5

Yn nhestun Peniarth 118D o 'Awdl i Dduw a Mair', mewn nodyn mewn llaw wahanol gan rywun â'r enw talfyredig 'Jo : Ha' (? John Harri),⁵⁰ priodolir y gerdd i Risieryd, ond gan na wyddys beth yw sail y tadogiad a'i fod yn groes i dystiolaeth y Llyfr Coch, ni ellir ei dderbyn.

Cerdd 9

O'r chwe thestun o'r englyn hwn, 'Englyn i'r gwenyn', yn llawysgrif Peniarth 77B yn unig y priodolir ef i Fleddyn Ddu Was y Cwd.⁵¹ Yn llawysgrif Jesus 88 fe'i priodolir, yn Saesneg, i 'Llowdwen', camgymeriad o bosibl am *Llawdden*. Dienw ydyw yn y testunau eraill. Fodd bynnag, gan fod llawysgrif Peniarth 77B yn un o'r rhai cynharaf, penderfynwyd cynnwys yr englyn ymhlith gweithiau dilys Bleddyn, er cyfaddef y gallai ei gynganeddiad yn hawdd berthyn i'r bymthegfed ganrif, sef cyfnod Llawdden.

Cerdd annilys

Ceir un gerdd a briodolir i Fleddyn Ddu nad yw, yn ddiau, yn waith dilys o'r eiddo, sef englyn a olygwyd yn yr Atodiad (cerdd i) isod sy'n ail mewn cyfres hir o englynion unodl union gan wahanol feirdd yn coffâu coroni pob brenin a brenhines yn Lloegr rhwng y blynyddoedd 1067 a 1558. Heblaw mai amhosibl disgwyl y byddai cynifer o feirdd gwahanol o wahanol gyfnodau bob un yn cyfansoddi englyn ar yr un pwnc yn yr un arddull a chan ddefnyddio'r un eirfa gyffredinol a'r un mesur, priodolir ambell englyn i fwy nag un bardd a rhai i feirdd a oedd wedi marw cyn adeg y coroni a goffeir. Mae'n amlwg, yn hytrach, mai cyfansoddiad yw'r gadwyn a wnaed yn 1558 neu wedyn gan berson anhysbys ac mai rhywun arall fu wrthi'n tadogi'r englynion ar wahanol feirdd ar ôl hynny. Gellid dadlau, fodd bynnag, fod i'r gerdd arwyddocâd yn ogymaint â bod ei phriodoli i Fleddyn Ddu yn dangos ei fod yn fardd o bwys ym meddwl y sawl a oedd yn gyfrifol am wneud hynny.⁵²

⁴⁸ Gw. G. Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', *Cylchg LIGC* xxi (1979–80), 255.

⁴⁹ Gellir tybio mai'r rheswm na phriodolodd Lloyd-Jones, G 57, awdlau 2–5 yn y Llyfr Coch i Fleddyn Ddu oedd na wyddai a oeddynt yn yr un llaw â'r awdl gyntaf ai peidio, oherwydd R, lle na ddangosir y gwahaniaeth rhwng un llaw a'r llall, ac nid y Llyfr Coch ei hun neu lun ohono, oedd ei sail, ac ni ddadansoddir y gwahanol lawiau yn ddigon manwl yn RWM. Nid yw'n debygol fod Lloyd-Jones yn synio am awdlau 2–5 fel un awdl amlganiad, oherwydd heblaw mai secwlar, ac nid crefyddol, fel y cerddi blaenorol, yw awdl 5, nid yw yn priodoli'r gerdd honno i neb yn G 571 d.g. *Goronwy* 11.

⁵⁰ Pen 118, 140.

⁵¹ Fe'i rhagflaenir hefyd gan y geiriau *Dafydd dda i gwenin*, ond gellir anwybyddu hyn.

⁵² Priodolir rhai o'r englynion eraill i Gynnddelw, Llygad Gŵr a Gruffudd ab yr Ynad Coch ymysg eraill.

Dull y golygu

Ceir testun awdlau Bleddyn Ddu (cerddi 1–6) yn Llyfr Coch Hergest a chan mai dyma yw ffynhonnell yr holl gopïau diweddarach o'r cerddi hyn, ni ddangoswyd darlleniadau amrywiol ohonynt. Os diwygir darlleniad yn nhestun y Llyfr Coch, dangosir y darlleniad gwreiddiol ar waelod y testun. Triniwyd cerddi 7 ac 11 yn yr un modd gan nad oes ond un testun ar gael ohonynt. Fodd bynnag, mwy cymhleth yw hanes llawysgrifol gweddill y cerddi a seiliwyd y golygiadau ar destun un llawysgrif (gan amlaf yr hynaf neu'r fwyaf dibynadwy), gan ddangos y darlleniadau amrywiol (ond nid rhai orgraffyddol pur) o'r llawysgrifau eraill yn yr 'Amrywiadau' ar waelod y testun.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar wedi ei atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Cymraeg Canol (gw. GDG³ xlvii); er enghraifft, diwedderir *-aw*, *-aw-* yn *o* (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*, &c. Ond ni ddiwedderir geiriau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *gwedy*, *uddun* (sef 'iddynt'), *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *carud*, *cery*, &c.

Yn y Mynegai ar ddiwedd y gyfrol, rhestrir pob gair y ceir nodyn arno, boed y nodyn yn un ieithyddol neu gystrawennol (nodir hynny gydag 'n'); rhestrir yma hefyd rai geiriau dieithr a geiriau sy'n digwydd mewn ystyr wahanol i'r ystyr a roddir ar eu cyfer yn y *Geiriadur Mawr*.

1
Awdl i Dduw

- Glandad gwir gelwir, ar Grist galwaf,
Gleindid hawdd ddilid y'i haddolaf.
4 Gloywdrefn, gwblfodd rodd, radd uchaf—gynnydd,
Glodrydd ddigerydd Dduw a garaf.
Rhwym gofeiliaint haint, hynt ddihiraf,
Rhoes Nêr, ffurfafen Eurnen, arnaf.
8 Rhên trugar, Ei fâr, o fawr gamaf—drais,
Rhoddai, os haeddais, hyd nas haeddaf.
Rheidiach mau bellach (mi a bwyllaf),
Rheg fflaglawr, budd mawr (bodd Mair a wnafl),
12 Rhydid o'm gofid a gaf—gan Drindawd,
Rhydd ffawd, rhwy bechawd ni rybuchaf.
Rhodd hawdd nawdd a wnaeth, rhif hyfaethaf:
Rhiniau Sul olau, os hawl alaf.
16 Rhybûm bwyllbrudd, budd (byddaf—wrth gyfraith)
Rhag caith (wych obaith!) a achubaf.
Rhai a warchadw bradw brwd ac oeraf
(Rhyfwyf iawn, llun dawn!) y lle nid af.
20 Rhi disalw Ei alw a iolaf—rhagddo,
Rhwyddbwylllo iddo addysg bennaf;
Rhinweddau'r Pader a gymeraf,
Rhew ddeincryd oglyd, Eglwys credaf
24 Rhag brad nos gaead naws gaeaf—uffern,
Rhyfel dywyllwern gethern gaethaf.
Rhyddoeth Crist yng nghnawd, gwarawd gwiraf,
Rhannau o'i ddoniau a eiddunaf:
28 Rhiain Fair ddiwair, wry lanaf—ddedwydd,
Rhad ddefnydd bedydd, byd arwaesaf.
Gwedy gwydn ddodi Rhi rhywocaf
(Gwaetffrau gras wyrthau) ar groes warthaf,
32 Addoed artaith waith o waethaf—ladron
(Iddeon trychion oeddynt trechaf),
A chludo holion ar Wirionnaf,
A chlwyf gweliâu angau yngaf,
36 A chladdu'r Iesu ar isaf—waelawd
Achluddbwll tywawd, arawd araf,
Gŵr a gyfodes yn gyfnasaf

- Gorau, Bibl oddau, i bobl Addaf,
 Gorfoledd o fedd ufyddaf—gyfenw;
 40 Geirfolir ei henw a'i enw iawnaf.
 A'n rhoes peth llunieth (llonydd fyddaf)
 A'm rhydd dydd digaeth yn ddiwaethaf;
 A'm rho nawdd digawdd, deg loywaf—dremynt,
 44 Rhag anorfynt hynt haint, a ganaf.
 Baich o irllonedd nis arweddaf,
 Buchedd trwy'r Gwirdad, Ceidwad, cadwaf;
 Budd heb ludd orchudd archaf—yn hollol,
 48 Bodd tragywyddol fy nefol Naf.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 183^v B—J 111, 1249 C—LIGC 4973B, 264^v D—Llst 133, 269^v E—Llst 145, 41^r F—Pen 118, 137

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ar y llawysgrifau, gw. ymhellach isod tt. 71–3.)

Darlleniadau'r llawysgrif

2 gleindynt. 13 hyuaeth|haf. 16 wywch gyda bwlch rhwng yr y a'r ch a'r w wedi ei gosod uwchlaw iddynt. 31 wieith.

Teitl

Bledyn tu ae cant y duó.

Awdl i Dduw

- Gelwir ar Dad sanctaidd [a] ffyddlon, galwaf ar Grist,
 [Yn] Sancteidrwydd hawdd [Ei] ddilyn y'i haddolaf [Ef].
 [Un] disglair Ei drefn, [a'i] rodd [o] gyflawn ewylllys [da], [a'i]
 deyrnasiad [o'r] radd uchaf,
- 4 Duw helaeth Ei glod [a] di-fai a garaf.
 Rhwym gofidiau afiechyd, [y] dynged flinaf,
 A ddododd Duw, Arglwydd rhagorol nef, arnaf.
 Byddai'r Arglwydd trugarog, oherwydd trais mawr [a] mwyaf
 anghyfiawn [o'm heiddo],
- 8 Yn bwrw [arnaf], os haeddais hynny, Ei lid fel nas haeddaf
 [mwyach].
 [Fel] fy rheitiach peth bellach (ymbwyllaf [o hyn ymlaen]),
 [Ac fel] rhodd [ar] awr [y] tân, [rhodd sy'n] fawr [ei] bendith
 (rhyngaf fodd Mair),
- 12 Caf ryddhad o'm gofid gan [y] Drindod,
 Tynged hael, ni ddymunaf ormod [o] bechod.
 Parodd [Ef] rodd ffafril [ei] nawdd [ac iddi'r] nifer
 [bendithion] mwyaf maethlon,
 [Sef] rhinweddau goleuni[r] Sul, os hawlia [hwynnw] werth-
 fawredd.
- Yr wyf wedi bod yn ddoeth a synhwyrol, ar les (ufuddhaf i[r]
 gyfraith)
- 16 [I'm cadw] rhag caethion [uffern] y manteisiaf (gobaith
 gwyth!).
 Mae rhai sy'n cadw golwg ar [eneidiau] nychlyd berw ac
 iasoer
- (Boed imi fod yn union, [â] ffurf gras!) [yn] y lle nad af [iddo].
 Erfyniaf ar [y] Brenin rhagorol Ei alw [i'm gwarded] rhagddo,
 20 [A] phriodoli'n rhwydd iddo[r] ddysg lawnaf;
 Derbyniaf rinweddau Gweddi'r Arglwydd,
 [Er mwyn] osgoi rhincian dannedd [gan] rew, credaf yn [yr]
 Eglwys
- Rhag dinistr nos gaedig uffern [a'i] naws aeaf[ol],
 24 [Rhag] ciwed gaethaf corstir tywyll [llawn] terfysg.
 Mae Crist wedi dod yn [y] cnawd, [yn] waredigaeth fwyaf sicr,
 Dymunaf rannau o'i rasmusau,
 [Sef yr] arglwyddes Fair ddiwair, forwyn fwyaf sanctaidd [a]
 dedwydd,
- 28 Sylwedd gras [y] byd Cristnogol, amddiffynnydd [y] ddynol-
 iaeth.
 Wedi dod[i'r] Brenin tyneraf yn erwin

- ([Achos] llifeiriant gwaed [a barodd] wyrthiau gras) ar ben
croes,
[Achlysur] trueni gweithred [o] artaith [gan yr] ysbeilwyr
mwyaf drygionus
32 (Iddewon ysgeler oedd drechaf),
A dwyn hawliau yn erbyn Arglwydd mwyn,
A [pheri] dolur [ag] archollion [yr] angau mwyaf ingol,
A chladdu'r Iesu yng ngwaelod isaf
36 Bedd tywod, traethiad trist,
Cyfododd [y] gŵr [hwn] yn berthynas
Orau, [yn ôl] arfaeth [y] Beibl, i hil Adda,
[Yn achos] gorfoledd o fedd [un â'r] cyfenw mwyaf
gostyngedig;
40 Molir ei henw [hi] a'i enw mwyaf cyfiawn [Ef] ar air.
[Y sawl] a roddodd inni ddeunydd ymborth (bodlon fyddaf)
A fydd yn rhoi imi ddydd rhydd yn ddiwethaf [oll];
[Y sawl] a roddo amddiffyn di-lid imi, [ar] hynt hardd a mwyaf
disglair,
44 Rhag pla cwrs cenfigen—[Hwnnw] a folaf.
Ni [ddymunaf] ddwyn baich o ddigofaint,
Byddaf yn cynnal [fy] muchedd [lân] trwy'r Tad ffyddlon, [fy]
Ngheidwad;
Deisyfaf yn llwyr fendith heb len [sy'n] rhwystr,
48 Ffafr dragwyddol fy Arglwydd nefol.

- Iesu a ddyfu o ddefawd—gwarder
 I osod lleufer ffydd, iawnder ffawd,
 Oeswedd dangnefedd yng nghnawd—Mair berffaith,
 4 Eisyddyn gobaith gwirdaith gwyrdawd.
 Ys Ef biau nef, Naf a warawd—pla,
 Ys eiddo derra Dwydra didrawd;
 Ys mau digwym rwym rym gwawd—i’i gymwyll,
 8 Ys myn fy hanbwyll yn nidwyll nawd;
 Ys Tad im (nid brad), neud Brawd—ac Arglwydd.
 Ys tud didramgwydd arwydd arawd.
 Didranc o’i dirdanc awdurdawd—Creawdr,
 12 Dygiawdr, Amherawdr mawr gymhendawd.
 Daear gwnaeth a faeth faith wastawd—pobloedd
 Ym mawr eithafoedd môr a thywawd,
 A pharadwys lwys, les parawd—ddiwedd,
 16 I ddyn, da buchedd iawn dibechawd.
 Gwae ddyn, cyn dyfyn dwfn waelawd—cuddygl,
 O syrth ym mherygl swrth amharawd
 A rhed diwared wirawd—anamser
 20 (Arfer gormodd-der a gâr medd-dawd),
 Na feddylia bla blas diawd—Iesu,
 Pan fu yn ei brynu ar bren trallawd,
 A roed cyn addoed (cain addawd—iddaw!)
 24 Er gorddinaw llaw Llyw bedysyawd.
 Gweini berw bustl chwerw, chweiris rhawd—ddifwyn,
 Gwinegr a gwenwyn, frawgwyn fragawd,
 A Mab difradw gadw, geudawd—rhinweddol,
 28 Meidrol, ys buddol Ei ysbyddawd.
 Mair chweg firendeg, forwyndawd—ffrwythlawn,
 Mor iawn iaith randawn, un â Thrindawd.
 Duw a ddaw arnaw, ddiwarnawd—cyhoedd,
 32 Diwedd yr oesoedd, torfoedd tyrfawd,
 Dyfod yn hynod (anhunawd—myfyr).
 Dyddetgyr pybyr, pawb o’i feddrawd,
 I ddangos, aros arwydd traethawd—fan,
 36 Dawngof ran cyman (cam Ei ddifrawd),

40 Gwir obaith fodd-daith ufudd-dawd—orsedd,
 Gwaredd heb omedd Ei bum hyrddawd.
 Archwn, addefwn a ddywawd—Pader,
 I Nêr, cyfander y cyfundawd,
 Ein Heurben, Perchen parch briawd—rhag llaw,
 Ein herbyn ataw ddydd braw a Brawd. Amen.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 184^r B—J 111, 1250 C—LIGC 4973B, 265^v D—Llst 133, 269^v E—Llst 145, 41^r F—Pen 118, 139

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ar y llawysgrifau, gw. ymhellach isod tt. 71–3.)

Darlleniadau'r llawysgrif

1 adyun. 28 yspudaol. 38 gŵaret. 42. yn erbyn.

Awdl i Iesu

- Iesu a ddaeth trwy arferiad tiriondeb
 I osod goleuni ffydd, iawnder llwyddiant,
 Tangnefedd bythol [ydoedd] yng nghnawd Mair berffaith,
 4 Cartref gobraith yw taith gyfiawn diweirdeb.
 Efô piau[’r] nef, [yr] Arglwydd a gafodd wared ar [yr] ormes,
 Yr eiddo [Ef] y ddaear [y] Duwdod tragwydd;
 Yr eiddof [i] yw nerth cwlwm cadarn barddoniaeth i’w foli,
 8 Myn fy ystyried yn [Ei] natur ddiffuant;
 Tad imi ydyw—nid twyll [mo hynny]—Brawd ac Arglwydd
 ydyw.
 Gwlad ddi-syflyd yw[’r] rhyfeddod [sy’n wrthrych fy] nghân.
 Diddiwedd yn ei dangnefedd sicr yw awdurdod [y] Creawdwr,
 12 Cynhaliwr [ac] Ymherodr mawr [Ei] wybodaeth.
 [Yr Hwn] sydd wedi cynnal cwrs maith pobloedd
 Yn eithafoedd mawr [y] môr a[’r] tywod a wnaeth [y] ddaear,
 A pharadwys deg, gwobr diwedd paratoëdig,
 16 Da yw bywyd union, dibechod i ddyn.
 Gwae [i] ddyn, cyn [ei] wysiad i waelod dwfn [y] bedd,
 Os syrth i berygl disymwth [a] dibaratoad
 A chwrs gwirod anesgor [yn] anamserol
 20 (Arfer gormodedd y sawl a gâr fedd-dod),
 Nad ystyria loes blas diod Iesu,
 Pan fu’n ei brynu [ef] ar bren dioddefaint,
 A roddwyd [iddo] cyn [Ei] farw—[trigfan hardd sydd iddo
 [Ef]—
 24 Er mwyn gorchfygu awdurdod Arglwydd [y] bydysawd.
 Cyfrannu trwyth bustl chwerw, digwyddodd cwrs di-fudd,
 Finegr a gwenwyn, bragod [a achosodd] ochenaid ofnadwy,
 A[’r] Mab diysgog [Ei] amddiffyn, [Un o] galon rinweddol,
 28 [Yr Un] cadarn, buddiol [i ni] yw Ei letyaeth.
 Mair beraidd, ysblennydd a hardd, ffrwythlon [ei] morwyndod,
 Mor union yw [ei] hiaith gyfrannog o ras, un [ydyw] â[’r] Drin-
 dod.
 Bydd Duw yn dod ar ddiwrnod hynod
 32 [Ar] ddiwedd yr oesoedd—bydd torfeydd yn cynhyrfu—
 Yn dod yn drawiadol [Ei ddull] (di-gwsg yw’r meddwl).
 Cyfyd [y meirw] eiddgar, pob un o’i fedd,
 I ddangos [ac i] ddisgwyl [y] rhyfeddod aruchel [ei] draethiad,
 36 Rhan cof bendithiol cynulliad—camwri fu[’r] dibristod ohono
 [Ef]—
 Yw taith ewyllysgar o wir obaith [am] drigfan ufudd-dod,

[Ac am] dirionder diwrthod Ei bum clwyf.
40 Deisyfwn, cyffeswn yr hyn a ddywedodd Gweddi'r Arglwydd,
Gan yr Arglwydd, cyfanrwydd yr undod,
Ein Pennaeth rhagorol, Perchen [Ei] briod barch o hyn ymlaen,
Ein derbyn ato [ar] ddydd [y] dychryn a[r] Farn. Amen.

- Deddfawl mawl molaf, didrist Grist, grair Naf,
 Doethaf, diddanaf Dy ddaioni;
 Dinam fam fu 'r Ddau, ddiwair, gair gorau,
 4 Diau ei doniau, wyd Un a Thri.
 Digrif brif Broffwyd, dyndid odid wyd.
 Doddwyd (bro urddwyd) i'w bru erddi,
 Dwywes les leindid, deiliad rhad rhydid,
 8 Dilid a lewnid o oleuni.
 Disalw galw gwylfa, defnydd dydd dibla,
 Deudda, doeth yna Duw o'th eni.
 De lle llewenydd o Fair, crair crefydd,
 12 Difrad fad fedydd dedwydd rydd Ri.
 Dodaf, Naf nefol, delw arddelw urddol,
 Deg reg ragorol frenhinol fri,
 Deddf gannerth, nerth nawn, daith obaith iaith iawn,
 16 Digaeth, ffraeth, ffrwythlawn, wiwddawn weddi.
 Dremrodd modd maddau, drugar Gâr gorau,
 Droau meddyliau (mau addoli!),
 Drwy eiriau gau gân a drwg gwg gogan
 20 A bechodd anian, buchedd inni.
 Llwyddfrait maint mantoedd, llwyr af Naf nefoedd,
 Llwyth gŵyth gweithredoedd baroedd beri,
 Lluman rhan rhinwedd, Llywiawdr, Haeddawdr hedd,
 24 Llariedd difuledd yw Dy foli.
 Lludd Dy was bas bwyll llawn oestawn Ystwyll,
 Llef ddidwyll gymwyll gem proffwydi,
 Lluydd dydd diffael, Llyw rasryw yr Israel,
 28 Llawr uffern wern wael, trafael trefi,
 Lle ni'm gad mad Mair, lle dig drig drygair,
 Lle ceir llwyth globair glybod poeni,
 Llawr ofn dofn daear, llys »am gam gymar,
 32 Llachar o farwar yn ei ferwi.
 Eurglawr awr arwydd, erglyw, Rhoddlyw rhwydd,
 Eirglod bod bydlwydd, Gulwydd, Geli,
 Argleidrad, n'ad noeth i'r tân pân poenboeth,
 36 Arglwydd coeth gloywddoeth yr arglwyddi.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 185^r B—J 111, 1252 C—LIGC 4973B, 267^r D—Llst 133, 270^r E—Llst 145, 41^r F—Pen 118, 141

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ar y llawysgrifau, gw. ymhellach isod tt. 71–3.)

Awdl i Iesu

- Yn ddefodol y canaf fawl, Grist dedwydd, anwylyd Duw,
 Doethaf [a] hyfrytaf Dy ddaioni;
 Mam ddi-fai fu [hi] i'r Ddau, [un] ddiwair [ac iddi'r] enw gorau,
 4 [A] dilys ei doniau, yr wyt Un a Thri.
 [Yn] brif Broffwyd tirion, rhyfeddod [y] ddynoliaeth ydwyt.
 Daethost—anrhydeddwyd gwlad [trwy hynny]—i'w chroth er ei
 mwyn,
 Duwies [o] sancteiddrwydd lles[ol], perchen gras rhyddid,
 8 [Un] ddi-lid a lenwid â goleuni.
 Gwerthfawr yw cyhoeddi dygŵyl, achos dydd di-loes,
 [Yn] fendith ddwbl, daeth Duw wedyn o'th eni.
 Brwd yw cyfle[r] llawenydd [sy'n deillio] o Fair, gwrthrych
 annwyl defosiwn,
 12 [Cyfle] gwledydd Cred ffodus, didwylledig [y] Brenin haelionus
 dedwydd.
 Rhoddaf [iti], Arglwydd nefol, ffigur [sy'n] amddiffynnydd an-
 rhydeddus,
 [Yr hyn sy'n] anrheg deg ardderchog, frenhinol [ei] bri,
 [Yn] gymorth [y] drefn, [yn] nerth hwyr[ol], [yn] iaith deg
 [lawn] gobaith [ei] hynt,
 16 [Sef] gweddi wiw ei gras, effeithiol, barod, rydd.
 Dawn sy'n goleuo yw ffordd maddau, Gyfaill trugarog, gorau,
 Troadau meddyliau (perthyn imi addoli!),
 [Y rhai], drwy eiriau canu ffals a drygioni dicter gogan
 20 A gyflawnodd [fy] anian mewn pechod, [boed] bywyd inni.
 [Yr hyn sy'n] fraint llwyddiant cynifer geneuau [clodforus],
 Arglwydd perffeithiaf [y] nef,
 Baich [o] ddigofaint yw gweithredoedd [sy'n] peri dicterau,
 Baner [buddugoliaeth] yw gwobr rhinwedd, [o] Arglwydd, Un
 sy'n haeddu hedd,
 24 Haelfrydedd [calon] ddidwyll yw Dy foli.
 Dal yn ôl Dy was pŵl [ei] feddwl [drwy gyfnod] llawn [yr]
 Ystwyll sy'n rhodd oes,
 [Dydi], llef cyhoeddi diffuant trysor [y] proffwydi,
 Cynullydd [y] diwrnod sicr, Arglwydd graslon Israel,
 28 Arwr gwaelod cors ddreng uffern, [man] poen [i breswylwyr]
 cartrefi,
 [Man] lle na fydd daioni Mair yn caniatáu i mi fynd, lle erys
 drygair yn ddigofus,
 [Man] lle ceir ciwed [sy'n] teimlo pair glo [y] poeni [sydd
 yno],

[Sef] gwaelod ofn[adwy y] ddaear ddofn, llys cwmni mall [y]
»am,

32 Tanbaid gan farwor yn ei ferwi.

[O] ardderchog Arglwydd awr [yr] arwydd, clyw, hael
Arglwydd Roddwr,

[Yr Un] canmoladwy ar air [yn] nhrigfan llwyddiant byd, Ar-
glwydd Dduw,

Gynhaliwr, paid â gadael i [un] noeth fynd i'r tân planhigion
cors iasboeth,

36 Arglwydd gwych, disgleirddoeth yr arglwyddi.

Awdl i Iesu

- Preswylodd gyntaf Addaf addawd,
 Preswyl glwys baradwys barawd.
 Preswylwr daear deon blannawd,
 4 Pysur gŵr tra llafur trallawd.
 Present digofent, cadwent ciwdawd,
 Preseb glythineb (glytha' ei chnawd!),
 Preswyl Glyn obryn Ebron waelawd.
 8 Pryd y'i somes byd, bwyd a diawd,
 Prudd borthes Addaf Naf annefawd.
 Prid ei bâl, wisg ofal wasgawd,
 Prid fu echrys flys o flas tafawd
 12 Yn Efa un ofal geudawd.
 Pryderwn, syniwn synnwyr wastawd,
 Synio rhag pwylllo pall eflyllawd.
 Pryderodd Arglwydd rhwydd, Rhwyf cymhendawd,
 16 Pryder Difarner y diwarnawd.
 Profes Efa pla plant fedysyawd,
 Profant o'r lledwydd, heb ffydd, heb ffawd,
 Profedig aeron wyddion wedd-dawd.
 20 Prifardd wyf i Dduw ar folawd,
 Profadwy arddelw i'r Eurddelw urddawd,
 Prif adwyth bymffrwyth, bymffrwd ffosawd.
 Pryderus fu Grist cyn prid arawd,
 24 Cyn prynu o'r pren am bechawd.
 Gwâl ein Herchwyn arch ystyllawd,
 Gweli Duw, a gwely tywawd.
 Gwael yw syberwyd dyn byd budrdlawd,
 28 Gwala Lwsiffer lys uffern dlawd.
 Rhywnaeth Lwsiffer, heb lwys hoffawd,
 Rhyfyg tranghedig, dig, disberawd.
 Rhewiniodd, cwympodd, campau amnawd
 32 Rhyw angel tecaf, gwblaf gablawd.
 Rhyfeddodd gartref nef wynebawd,
 Rhyaddef nef oddef rhyfeddawd.
 Gwae geni o'i lin neb lân gosbawd,
 36 Gwaed irad ei frad o'i frawd.
 Gwaglaw naf wrth Naf nef a duhundawd.

- Gwawr a ffullodd Gwarnaf gwirnewd,
 Gwynfydus Fab Mair traethair traethawd,
 40 Gwynfydig Gwledig gwlad barawd.
 Gwynfydwyf, caffwyf cyffes lwybrawd
 Gwynfyd Naf nef yng nghardawd.
 Gwyn ei fyd Cristiawn dawn damunawd
 44 A gâi fendith Duw a'i gyfundawd
 Cyn diwyll esgyll esgyrn yn flawd,
 Cyn dubwll gafnaid dibwyll gyfnawd,
 Cyn dofn ddaearen ddaerawd,
 48 Cyn diwedd aelfedd aelawd,
 Cyn difudd llwyrsgudd llawrgwydd meddrawd,
 Cyn difalch fedd calch i'm cylchnawd,
 Cyn diau angau yng ngolygawd,
 52 Cyn dwyn ag olew golwg dan fawd,
 Cyn difant gwarant (gwrys in ys gnawd),
 Cyn dyfod i'm dyfydd logawd,
 Archaf i Geli Fab Trindawd.
 56 Archollau gwerthfawr Gwawr a'm gwarawd.
 Archaf fodd fy Rhwyf, rhwym celfyddawd
 Erchyll gwaedryal, o'm gwiwdal gwawd,
 Arch gyfiawn ei dawn y dydd ys gnawd,
 60 Erfyn ffydd bedydd, byd awdurdawd,
 Eirchiad wyf i rad Gwirdad gwyrdawd,
 Cyn erchwyniog bedd saith droedfedd drawd.
 Er Ei greulyd wymp bymp dyrnewd,
 64 Er Ei grau angau, angen wastawd,
 Er Ei Gred wared, wir ufudd-dawd,
 Er Ei Greawdr Dad rhag brad Dydd Brawd,
 Er Ei Grair Fab Mair, Frenin priawd,
 68 Er Ei groes uchaf, Naf ni'm difrawd,
 Er Ei grog a'i grau, maddau fy mdechawd. Amen.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 186^r B—J 111, 1284 C—LIGC 4973B, 268^r D—Llst 133, 270^r E—Llst 145, 41^v F—Pen 118, 143

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 71–3.)

Darlleniadau'r llawysgrif

6 glwth a. 11 velys. 14 pell. 16 diwarner. 21 urdel6. 31 am na6t. 34 ary adef.
35 aelin heb. 39 tretha6t. 41 caffwyd. 47 daeren daeara6t. 53 gwryf ynys
gna6t. 54 dyuyt. 63 niwarna6t.

Teitl

Bledyn tu a gant yr awdyl honn.

Awdl i Iesu

- Preswylodd Adda gyntaf [mewn] trigfan
 [Oedd yn] breswylfa [mewn] paradwys hardd wedi ei pharatoi
 [ar ei gyfer].
- 4 Preswylwiwr daear wedi ei phlannu â gwyrda [ydoedd],
 [Ond] prysur [oedd y] gŵr [y perthynai iddo] lafur eithaf
 trallod.
- Byd [o] ddigofaint [oedd y ddaear], maes brwydr pobl,
 Nythle glythineb (mwyaf glwth ei chnawd!),
 Preswylfod haeddiant llawr Glyn Ebron.
- 8 Yr adeg y twyllodd [y] byd, bwyd a diod, ef,
 Dioddefodd Adda yn dost [yr] anhrefn [a ganiataodd yr]
 Arglwydd.
- Costus [fu] ei elorlen, gorchudd wisg [ei] bryder,
 Costus fu[’r] blys dychrynlyd oherwydd awch tafod
 12 Yn Efa [a’r] un pryder [yn ei] mynwes.
 Gofalwn, ystyriwn [yn ôl] ffordd doethineb,
 Ystyried rhag bwriadu diffyg gostyngeidrwydd.
 Gofidiodd Duw hael, Brenin doethineb,
- 16 [Á] gofid Arglwydd tirion y diwrnod [hwynnw].
 Blasodd Efa bla byd [ei] hiliogaeth,
 Blasant [fwyd] o goed gwael, heb ffydd, heb lwc dda,
 Ffrwythau wedi eu blasu [oddi ar] dlodi[’r] prennau.
- 20 Prifardd ydwyf i Dduw ar gerdd o fawl,
 Profedig yw [fy] hawl ar yr Eiliw ardderchog, dyrchafedig,
 Pum ffrwyth [yr] adwyth pennaf, pum ffrwd [yr] archoll.
 Pryderus fu Crist cyn [Ei] weddi ddrudfawr,
- 24 Cyn [ein had]brynu o bren [y groes] oherwydd [ein] pechod.
 Arch wedi ei gwneud o estyll [oedd] gorwedde [ein] Noddwr,
 Clwyf Duw, a gwely tywod.
- 28 Gwael yw balchder dyn [y] byd budr [a] thlodaidd,
 Cyflawnder llys Lwsiffer yw uffern dlawd.
 Mae Lwsiffer wedi cyflawni, heb wrthrych gwiw [i’w] ymffrost,
 [Gweithred o] haerllugrwydd marwol, dig [a] chyfeiliornus.
- 32 Aeth yn ddinistr, cwmpodd, campau amrywiol
 [Un o] natur [yr] angel tecaf, anfri mwyaf cyflawn.
 Synnodd drigfan gwlad nef,
 [Mae’r] nef [wedi] cydnabod amcan [a oedd yn] rhyfeddod.
- 36 Gwae ddeillio o’i linach unrhyw gosbedigaeth deg,
 [Tywallt] gwaed dychrynlyd ei frad o’i farnedigaeth.
 Gwaglaw yw [pob] arglwydd [bydol] o’i gymharu ag Arglwydd
 y nefoedd a chytundeb.

- Prysuroidd yr arglwyddes [ddyfodiad yr] Arglwydd tirion o natur
berffaith,
- 40 Mab bendigedig Mair [y perthyn iddo y] gair a fynegir [ar] gân,
Bendigedig yw Arglwydd [y] wlad a baratowyd [ar Ei gyfer].
Boed imi lawenhau, boed imi gael ffordd cyffes
Llawenydd Arglwydd [y] nef mewn trugaredd.
Gwyn ei fyd [y] Cristion o rinwedd ddymunol
- 44 A gân fendith Duw a'i gymod
Cyn malu asennau[’r] esgyrn yn bowdr,
Cyn cynnwys disynnwyr [ei] natur [y] pwll du,
Cyn [fy] nodiad [mewn] tywarchen ddofn,
- 48 Cyn terfyn trallod ymyl [y] bedd,
Cyn difuddiant cuddiad llwyr [y] disgyniad [i] lawr [y] bedd,
Cyn [bod] bedd gwael o galch o’ m cwmpas,
Cyn [bod] angau sicr mewn golwg,
- 52 Cyn dwyn golwg dan fawd ag olew,
Cyn dilead diogelwch ([peth] arferol inni yw anghydfod [yr
adeg honno]),
Cyn dyfod i’ m bedd trist,
Deisyfaf ar Arglwydd Fab [y] Drindod.
- 56 Gwardododd clwyfau gwerthfawr [yr] Arglwydd fi.
Deisyfaf ewyllys [da] fy Arglwydd, rhwymedigaeth [a ddaw o
waith] celfyddyd
[I’w] glwyfau gwaedlyd, drwy dâl teilwng fy nghân,
Deisyfiad cyfiawn ei fendith [ar] y dydd y mae [hwnnw’n] arf-
erol,
- 60 Ymbil am ffydd bedydd [yr Un sydd â’i] awdurdod dros y byd,
Deisyfwr gras [y] Tad perffaith [a] sanctaidd ydwyf,
Cyn [dod i] ymyl [y] bedd [a’i] siwrnai saith troedfedd [o ddyfn-
der].
- 64 Ar gyfrif Ei bum archoll gwaedlyd, gwych,
Ar gyfrif Ei angau gwaedlyd, cwrs angen[rheidiol],
Ar gyfrif Ei waredigaeth [i] wledydd Cred, [ffrwyth] gwir
ufudd-dod,
Ar gyfrif Ei Dad [y] Creawdwr rhag distryw Dydd y Farn,
Ar gyfrif Ei Anwylyd Fab Mair, [y] Brenin priodol,
- 68 Ar gyfrif Ei groes fwyaf dyrchafedig, ni fydd yr Arglwydd yn fy
nifetha,
Ar gyfrif Ei groes a’i waed, maddau fy mhechod. Amen.

Awdl i Dduw a Mair

	I Dduw uchaf	y cyfarchaf,	wyf cyferchydd,
	Eiddun Berchen,	a da gymen	y dygymydd,
	Brenin gwlad nef,	yma y bu Ef,	mi bieufydd.
4	Breiniol Bennaeth,	Udd hynafiaeth,	oedd Hynefydd,
	Brawdle cyfraith,	gwir Eurdalaith,	Gwawr, Ardelydd.
	Buddran o'i rad	can Ei gennad,	cain Ei gynnydd.
	Bu disarrug,	bydau gorug,	bwyf digerydd!
8	Coeth Fair fawrfraint,	ar ei chreifiaint,	wir ei chrefydd,
	Cafas o'i Naf	(bôm llawenaf!)	bum llewenydd.
	Cyntaf rhyfu	(rhaid a'n canfu,	rhaid a'n cenfydd,
	Cynnelw a'n gwnêl)	cennad Abriel,	cannaid wybrydd:
12	Dawn arwyre,	dywawd <i>ave</i> ,	dafawd ufydd
	Didwyll wrthi;	Duw ei Cheli	fu ei chilydd.
	Ail, urddedig	dduw Nadolig	ni ddidolydd,
	Gan enrhydedd	gain edifedd,	geni Dofydd.
16	Lleufer cyfiawn	llawn o'r tridawn,	llyna'r trydydd,
	Lle ydd anrhegwyd	Duw ein Proffwyd,	Dewin priffydd.
	Llewychfab Mair	(rhaid bid wirair)	rhaid bedwerydd,
	Llyw Suddea	ac ^a yr Anna	o gerennydd.
20	Gwedy darfod,	oddau hynod,	Ei ddihenydd
	Gwenergwaith dypm,	er gras arwypm,	ar groes irwydd,
	O frad Iuddas	byd alanas	(bu dilonydd),
	A brawd Bilad,	ynad afrad,	enaid efrydd,
24	Cof gogoned	Un trwy dydwed	a'n Tri dedwydd,
	Cyfodi Naf	o'r lle isaf	i'r lluosydd.
	Pumed diffael,	cyfarchafael,	cyfeirch ufydd,
	Pan esgynnodd	(arawd adrodd)	euraid edrydd;
28	Nerth a bara	i sant wylfa	a saint elfydd,
	Nêr brenhinol,	Naf a chedol	nef Uchedydd.
	O'r byd pan aeth,	mawr ddewiniaeth,	Mair ddiwenydd,
	Daeth nifer cain	i gael arwain	ei gelorwydd,
32	Duw a'i deulu	i gyflëu	yn gyfluydd
	Corff bendigaid	a hy enaid	Mair huenydd.
	Cariad gleindid	nef y'i gelwid	yn ddigelwydd.
	Pob dim cywrain	(gorau coelfain)	gorug Celfydd:
36	Pedwar amser,	Hynaf Bader,	a henw bedydd,
	Gaeaf, gwanwyn	(rhaid oedd orllwyn,	rhaid a dderllydd),

	Haf, cynhaeaf,	y môr dyfnaf	(a mawr defnydd),
	A hwyl alaf	lles Fodrydaf,	llys Fedridydd,
40	A hael aelaw,	a mawr wiriaw	â merwerydd,
	A haul olau,	a lleuferau,	a lleferydd,
	A llawr eigiawn,	ein Llyw harddawn,	a lliw hirddydd,
	A lloer nosawl,	a rhwy o sawl	y rhai ysydd.
44	Naf ac Arglwydd	yw'r gwâr Gulwydd	a'r gwir Goelydd
	Nef a daear,	a gwyllt a gwâr,	a gwellt a gwÿdd.
	Archwn i'r Tad	o'r ddeheuwlad	urddau hywlydd,
	Er y dychryn	(geinwiw ofyn)	gan wayw efydd:
48	Erbynied ni,	trugar ynni,	trwy gerennydd,
	Erbyn dlyed	o'r pwll fyned	i'r pell fynydd.
	Gwÿd a'm darfu	o gamgaru	ac ymgerydd.
	Gwedy penydd,	Naf, trwy gywyd,	nef tragwydd.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 184^v B—J 111, 1251 C—LIGC 4973B, 266^f D—Llst 133, 269^v E—Llst 145, 41^r F—Pen 118, 140

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 71–3.)

Darlleniadau'r llawysgrif

7 byt eu. 9 bump.

Awdl i Dduw a Mair

- I[’r] Duw uchaf yr archaf, ymbiliwr ydwyf,
 Arglwydd deisyfadwy [ydyw], bydd yn heddychu ag [un]
 gweddu [a] da,
 Brenin gwlad nef [ydyw], bu Ef yma, myfi fydd piau [Ef].
 4 [Yn] Bennaeth urddasol, [yn] Arglwydd [yr] oesoedd, Hynafgwr
 ydoedd,
 Barnle cyfraith, gwir ardderchog Goron, Arglwydd, Llywod-
 raethwr.
 [Boed imi] gyfran o fendith trwy Ei ras gyda’i ganiatâd, hardd
 yw Ei fuddugoliaeth.
 Bu’n hynaws, gwnaeth fydoedd, boed imi fod yn ddi-fai!
 8 [Darfu i] Fair bur, fawr ei braint [a] ffyddlon ei duwioldeb, ar
 [bwys ei] maddeuant,
 Dderbyn gan ei Harglwydd (boed inni fod yn fwyaf llawen!)
 bum llawenydd.
 Y cyntaf sydd wedi digwydd—anghenraid a’n gwelodd, dar-
 genfydd gras ni,
 Boed i [hynny] roi cymorth inni—yw neges Gabriel, teithiwr
 disgleirwyn yr wybren:
 12 [Yn] ddyrchafwr rhodd, dywedodd *ave* [â] lleferydd ufudd
 [A] diffuant wrthi; Duw ei Harglwydd fu ei chydymaith.
 Yr ail [llawenydd] ar ddydd ordeiniedig y Nadolig nad yw’n
 [?ein] gwahanu,
 Yw geni’r Arglwydd, [yr] etifedd hardd gydag anrhydedd.
 16 Goleuni cyfiawn, cyflawn o ras y Tri [Pherson]—dyna’r trydydd
 [llawenydd],
 Lle anrhegwyd Duw ein Proffwyd, Gwneuthurwr gwyrthiau [y]
 ffydd bennaf.
 Mab disglair Mair—bydded [Ei] ras yn wirionedd—[yw’r] ped-
 werydd [llawenydd y bu’n] rhaid [wrtho],
 Brenin Jwdea [ac] wŷr i Anna o ran perthynas.
 20 Wedi dwyn i ben, [yn ôl] arfaeth hynod, Ei farwolaeth
 [Ryw] adeg ddydd Gwener, er mwyn [ennill] gras gwych, ar
 groes [o] bren iraidd,
 Oherwydd brad Jwdas, trychineb [i’r] byd (bu’n aflonydd),
 Ac [oherwydd] dedfryd Pilat, ynad di-ras [ag] enaid crupl,
 24 [Yr hyn sy’n achos] coffa ledled y ddaear [am] ogoniant Un a’n
 Tri bendigaid—
 Cyfodi[’r] Arglwydd o’r fangre isaf i blith y lluosydd.
 [Y] pumed [llawenydd] sicr [fu’r] dyrchafael, [canlyniad]
 ymbiliadau ufudd,

- Pan esgynnodd [Crist]—[achos] adrodd moliant—i breswylfan
ysblennydd;
- 28 Pery[’r] cymorth [hwnnw] i wyl sanctaidd [y Dyrchafael] a saint
daear,
[Yr] Arglwydd brenhinol, Pennaeth a Goruchelwr haelionus [y]
nef.
- Pan ymadawodd Mair wynfydig, [trwy] wyrth fawr, â’r byd,
Daeth nifer prydferth i gael cludo pren ei helor,
- 32 Duw a’i osgordd yn llu i drosglwyddo [i’r nefoedd]
Gorff bendigaidd ac enaid glew Mair ysblennydd.
Gelwid hi heb anwiredd yn [wrthrych] cariad [preswylwyr]
sancteiddrwydd [y] nef.
- Pob peth celfydd—[yr hyn sy’n] rhodd fwyaf ardderchog—a
wnaeth [yr] Un medrus:
- 36 [Y] pedwar tymor, Gweddi’r Arglwydd, ac enwogrwydd
bedydd,
Gaeaf [a] gwanwyn (rhaid oedd [eu] canlyn, teilynga gras
[hynny]),
Haf, cynhaeaf, y môr mwyaf dwfn (a mawr yw defnydd
[hwnnw]),
- A hynt cyflawnder Pennaeth daioni [a] Rheolwr nef,
40 Ac amllder haelionus, a haeru mawr gyda rhialtwch,
A goleuni’r haul, a phelydrau disgleirder, a lleferydd,
A gwaelod eigion, ein Pennaeth hardd Ei ddawn, a goleuni dydd
hir,
- A lleuad liw nos, a digonedd o [nifer] y rhai sy’n bodoli.
- 44 Pennaeth ac Arglwydd yw’r Llywydd tirion a’r gwir Warantydd
[Ar] nef a daear, a gwyllt a dof, a gwair a choed.
Gofynnwn gan y Tad o’r wlad ffodus [gyda’i] graddau bon-
heddig,
- Er gwaethaf y dychryn ([dyma] ddeisyfiad harddwych) [a
achoswyd] trwy wayw efydd:
- 48 Boed iddo ein derbyn, [yr Un o] egni trugarog, trwy gymod,
[Ac] yn groes i[’n] haeddiant [gael] mynd o’r pwll [i.e. bedd] i’r
mynydd pell.
Daeth pechod i’r rhan oherwydd caru anghyfiawnder ac ym-
bechu.
Wedi [imi wneuthur] penyd, [boed imi], Arglwydd, drwy [Dy]
arfaeth, nef dragwyddol.

Marwnad Goronwy ap Tudur Hen o Drecastell

	Llyw Gorllewin,	llawrydd Frenin	llariaidd freiniau,
	Llwyddedig Dad	llawn o gariad,	llên Agoriau,
	Llewych Arglwydd,	llyfar Gulwydd,	Lleufer golau,
4	Llywia fuchedd,	lleia garedd	y llew gorau,
	Llys gynheiliad,	llednais lochiad,	llidnaws Lachau.
	Difefl y gwnaeth	dirwyn arfaeth	dewr yn arfau,
	Difai aerbair,	difa carddair,	dofi cerddau,
8	Dilys wleddoedd,	diludd cedoedd,	dyladd cadau,
	Dilesg onnen,	deulid Urien,	dylud aerau,
	Dinas gwinllad,	dinag roddiad,	doniog raddau,
	Doeth a digrif,	dyrawr gynnif,	dôr argannau.
12	Duw dawn allael	diwan rhyhael,	Dewin rhiau,
	Dofydd, i'th wledd	ddwys anrhydedd,	ddaswyn rhadau,
	Digardd facwy,	dwg Oronwy	deg ei riniau,
	Dâr Tre'r Castell,	dewredd Cadell,	diwraidd cadau.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 184^v B—J 111, 1253 C—LIGC 4973B, 268^r D—Llst 133, 270^r E—Llst 145, 41^v F—Pen 118, 143

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 71–3.)

Darlleniad y llawysgrif

14 d6 goron6y.

Marwnad Goronwy ap Tudur Hen o Dre Castell

- 4 Rheolwr [y] Gorllewin, Frenin haelfrydig [o] hawliau rhadlon,
 Tad sy'n peri ffyniant, llawn o gariad, [Un ag] allweddi dysg,
 Arglwydd goleuni, Pennaeth hir Ei barhad, goleuni gloyw,
 Llywia fuchedd, lleiha gamwedd y gwron gorau,
 [Y] cynhaliwr llys, [y] noddwr hynaws, [un fel] Llachau [o] natur
 lidiog.
- 8 Yn ddi-fai y gwnaeth [ef] gyflawni arfaeth [y] dewr mewn arfau,
 Arglwydd cad perffaith, [un sy'n] gwrthsefyll gwarth, [yn]
 darostwng cerddi,
 Diledryw [ei] wleddau, diatal yw [ei] roddion, [un sy'n] dinistrio
 byddinoedd,
 Pybyr yw [ei] waywffon, [un â] dau [cymaint o] lid [ag] Urien
 [ydyw, un sy'n] canlyn brwydrau,
 Noddwr sy'n rhoi gwin, rhoddwr diwrthod, [gŵr o] haeddiannau
 ffodus,
 [Un] doeth a hyfryd, [un o] frwydr[o] angerddol, amddiffynnwr
 lluoedd.
- 12 [O] Dduw [sy'n] gallu [rhoi] gras, [sy'n] nerthol [a] thra haelionus,
 [yn] Un gwyrthiol [Dy allu ar] frenhinoedd,
 Arglwydd, i'th wledd aml [ei] hanrhydedd [gyda'i] phentwr
 bendigaid [o] rasusau,
 [Yn] llanc di-warth, dwg Oronwy deg ei rinweddau,
 Arglwydd Tre Castell, [un o] ddewrder Cadell, dinistriwr byddin-
 oedd.

Englyn dychan

O llas (wi o'r gras oriog ryw!)—cyhuddwr
 Cyhoeddog tra fu fyw,
 Hoywddawn a gawsom heddyw,
 4 Heddwch, addolwch i Dduw.

Ffynonellau

Digwydd y gerdd yn llawysgrif LIGC 3039B [= Mos 131], 702, yn unig
 (arni, gw. 'Llawysgrifau', isod tt. 71–3.)

Darlleniadau'r llawysgrif

3 hoiddawn. 4 *yn dilyn y ll. ceir* Bleddyn ddv was y kwd. a : k.

Englyn dychan

Os lladdwyd (hei o'r gras amsero!) [un a oedd yn] gyhuddwr
 Cyhoeddus tra fu fyw,
 Cawsom fendith wych heddiw,
 4 Heddwch, addolwch Dduw.

Englyn serch

Un dwyll wyt o bwyll o ball dramwy—hoed
 Â hud mab Mathonwy;
 Unwedd y'th wneir â Chreirwy,
 4 Enwir fryd, rhyhir frad rhwy.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 26 B—BL Add 15,046, 66^v C—Card 2.145, 40 D—Card 2.634 [= Hafod 24], 38 E—CM 233, 41 F—CM 250, 51^r G—J 111, 1127 H—LIGC 1849B, 39 I¹—LIGC 3029B [= Mos 110], 4 I²—LIGC 3029B [= Mos 110], 45 J—LIGC 5474A [= Ynyslwyd 1], 825 K—LIGC 9048E [= Coleg Balliol 353], 112^v L—LIGC 13096B [= Llanofor C 9], 26 M—Llst 3, 43^v N—Llst 147, 6^r O—Pen 20, 324 P—Pen 56, 44–5 Q—Pen 271, 61

Ar gyberthynas gymhleth y testunau hyn, gw. GP xiii–vi. Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif O, yr hynaf. Ceir testun di-lwgr yno. (Ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 71–3.)

Teitl

Gyferbyn â'r englyn yng nghwr chwith y ddalen yn llsgr. O ceir bledyn du ay kant.

Englyn serch

[O'r] un twyll ydwyt drwy [dy] fwriad oherwydd gofid diffyg
 mynych ymweld
 Â [thwyll] hud mab Mathonwy;
 Fe'th wneir yn union debyg i Greirwy,
 4 [Sef o] feddwl ffals, [o] frad rhy hir, eithaf.

Englyn i'r gwenyn

Cwning can nwsing, cywion isel—cainc,
 Cyrff ifainc craff afel;
 Cnwd o wybed cnawd Abel,
 4 Cario maen' y cwyr a'r mêl.

Ffynonellau

A—BL Add 9817, 222^r B—Card 4.156, 433^v C—J 88, 69 D—LIGC 11990A, 52 E—LIGC 21700D, 263^r F—Pen 77, 301

Cymhleth yw perthynas y llawysgrifau hyn â'i gilydd, fel y dengys yr amrywiadau. Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif F, un o'r rhai hynaf. (Ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 71–3.)

Amrywiadau

1 *B* can dwsing, *CE* kannhwsing, *D* candwling; *BD* caniad isel; *A* isel di-drangc. 2 *C* Cyrch; *A* ifange, *C* ifang, *F* ieuainc; *CDE* craff; *E* affel. 3 *E* wvbed o gnawd. 4 *AE* y maen y; *C* [y]; *B* cwÿr; *C* a.

Teitl

AF Bleddyn ddu was cwd ir gwenin, *B* I'r Gwenyn y canwyd yr englyn sy yn kalyn, *C* To a swarme of Bees by Llowdwen, *F* Dafydd dda i gwenin.

Englyn i'r gwenyn

[Megis] cwingod [yn] gan dwsin, cywion—isel [y] gân,
 Cyrff ifainc cadarn [eu] gafael;
 Haid o bryfed o gnawd Abel,
 4 Cario y maent y cwyr a'r mêl.

Englyn i anifail

4 Gwae'r siaced wylltred walltrosgl,
Wylgoch weingofl, wâl chweingasgl,
Olygwefr, donrhefr, dinrhisl,
Grom gadwyndrom, gedendrwsgl.

Ffynonellau

A—BL Add 9817, 35^r B—Card 4.156, 942 C—LIGC 3039B [= Mos 131],
222 D—Pen 77, 302 E—Pen 96, 17

Cymhleth yw perthynas y llawysgrifau hyn â'i gilydd, fel y dengys yr amrywiadau. Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif D, un o'r rhai hynaf. (Ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 71–3.)

Amrywiadau

1 *A* sieced, *C* siac; *ABCDE* wldred, *ond gydag a wedi ei hychwanegu yn C uwchben a rhwng w ac ll ac y uwchben yr a, a thri dot dan -d ac f uwch ei phen; C wallt torosgol gyda'r tor wedi ei ychwanegu uwchben a dau ddot dan yr o olaf.* 2 *B* gwrthyn gofl, *E* gwyngoch gweingofl; *B* gwal; *A* glvdingoscl, *B* chwaingafll, *C* rhwemgasgl *ond a dau ddot dan yr e ac a uwchben.* 3 *BE* olwg wefr; *B* don heffr; 4 *A* gedendrwyscl; *yn dilyn y ll. hon ceir y coloffon yn A* Bleddyn vab y kwd, *B (ar y ochr dde i'r englyn)* Bleddyn ddû was y Cwd, *D* Bleddyn ddu was y cwd ir arth, *E* bleddyn was y Cwd.

Teitl

C Dau e.: i ddyfalu arth.

Englyn i anifail

4 Gwae'r siaced yn rhedeg yn wyllt, arw ei blew,
[Un] dof a choch [a] chofl [fel] gwain, yn hel chwain [mewn]
gwâl,
Felenllwyd [yr] olwg, [â] phen-ôl croen[iog], [â] chrawen tin,
Grom [â] chadwyn drom, arw ei blew.

11
Englyn i Adda

4 Hoffa' peth, pothan tinllaes,
Gan Adda wddw wdenbwys,
Mewn creiglwyn glywed creglais
Crygleidr yn godde crogloes.

Ffynonellau

Digwydd y gerdd yn llawysgrif Pen 99, 594, yn unig (arni, gw.
'Llawysgrifau', isod tt. 71-3.)

Darlleniadau'r llawysgrif

4 yn *dilyn y ll. ceir* Bleddyn Dû was y Cwd a'i cant A.D. 1090.

Englyn i Adda

4 [Y] peth mwyaf pleserus, [un megis] cenau blaidd isel [ei] din,
Gan Adda [y mae] gwasgfa rhaff [ar ei] wddf,
Yw clywed mewn llwyn creigiog ysgrech
Lleidr cryg yn dioddef ing crogfa.

Englyn i Adda

Tebyg yw (rhyw rhefr utgyrn)
 Llygad Addaf anafgern
 I din gast gam heb amgarn
 4 Duw Pasg yn cachu asgwrn.

Ffynonellau

A—Bangor (Mos) 3, 58^v B—Bangor (Mos) 6, 98^v C—BL Add 14934, 7^v
 D—Pen 99, 621

Tebyg iawn i'w gilydd yw llawysgrifau B a C, ac fe allai un fod yn gopi o'r llall. Mae llawysgrifau AD (ac eithrio orgraff) yn union debyg oni bai fod yr englyn yn cael ei phriodoli i Fleddyn Fardd, nid i Fleddyn Ddu, yn yr olaf. Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif A. (Ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 71–3.)

Amrywiadau

1 *BC* rhiw; *BC* rhewer, *ond yn C ceir ll. dano a rhefr wedi ei hysgrifennu uwchben*; *B* ytgryn. *Gyferbyn â'r ll. hon yng nghwr dde y ddalen ceir yn A Tebig yw.* 2 *C afa ond a ll. dan yr a gyntaf ac e wedi ei hysgrifennu uwchben*, *B afa*; *C anafgorn.* 4 *B diw, C dduw; yn dilyn y ll. ceir yn C Bleddyn was y Cwd i Efa, A bleddyn dv was y cwd ai cant, B Bleddyn was y kwn ai kant, D Bleddyn fardd 1246.*

Englyn i Adda

Tebyg yw (math o ben-ôl [fel] utgyrn)
 Lygad [sydd gan] Adda anafedig ei gern
 I din gast gam heb gylch
 4 Yn carthu asgwrn ar ddydd Pasg.

Englyn i Gwion

Gwion gwyddoch chwibanogl—du'r golofn
 Dor galed i'th hogl;
 Drych du drain chwnnu drwyn chwynnogl,
 4 Nid dyn piau'r tŷ yng ngwern firhogl.

Ffynonellau

A—BL Add 31055, 86^v B—CM 25, 78 C—LIGC 3029B [= Mos 110], 120

Perthyn llawysgrifau AC yn agos i'w gilydd a dichon mai copïau ydynt o'r un gynsail. Ymddengys mai cynsail wahanol sydd i lawysgrif B. Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C sy'n cynnig y testun gorau. (Ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 71–3.)

Amrywiadau

1 *B* Gwioai; *B* gwywodd. 2 *A* yth hwyl, *B* ythogl. 3 *B* chwnogl. 4 *B* tyn; *A* tŷ y ngwern, *B* tŷ yngwern, *C* tuy ngwern; *ABC* virogl; *yn dilyn y ll. hon ceir yn AC* Bleddyn dŷ was y Cwd, *B* Bleddyn wâs y cŵd.

Englyn i Gwion

Gwion [â'r] chwibanogl [fel] ochain gŵydd, du yw'r simnai
 Galed [ei] bol yn dy lanastr o dŷ;
 Golwg uffernol [sydd ar dy] drwyn [tebyg i] hof sy'n chwynnu
 drain,
 4 Nid dyn piau'r tŷ yn [y] gors [lle mae'r] llanestr o dafarn.

Ymryson Bleddyn Ddu a Chonyn Coch

[Conyn Coch]

Pa sôn sy yma, pa siffrwd—brwydr
 Gan brydydd llamysgwd,
 Bleiddiau bell, yn cymell cwmwd?
 4 Ai Bleddyn yn gofyn ei gwd?

Dowed hyn, Bleddyn syn sôn,—os gelli,
 Ysgellwrych tuswgron,
 Blaidd ysgrublaidd heb wreiddion,
 8 Sach had lawn, ai sych mawn Môn?

[Bleddyn Ddu]

A gefaist-di, Conyn, cenau dafad,—Goch,
 Yn gochel ddydd marchnad
 Gê'n ffon bugail mewn eiliad,
 12 Gan gŵn Iâl dâl am dy dad?

Ffynonellau

A—BL Add 14892, 58^r B—BL Add 14994, 182^v C¹—LIGC 1553A, 491
 C²—LIGC 1553A, 521 D—LIGC 3039B [= Mos 131], 334–5 E—Pen 313,
 68

Cymhleth yw perthynas y llawysgrifau hyn â'i gilydd, fel y dengys yr amrywiadau. Seiliwyd yr ail a'r trydydd englyn ar destun llawysgrif C², un o'r rhai hynaf, a thestun yr englyn cyntaf ar destun llawysgrif A. (Ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 71–3.)

Amrywiadau

1–4 *ni cheir yr englyn hwn yn C¹C²DE*. 1 *yn rhagflaenu'r llinell ceir y teitl yn A* Englynion rhwng Bledhin was y Cŵd a Chwnin o Degengl yr hwn a las i dad gan gwn Ial, *B* Bleddyn was y Cwd a Chwnin o Degeingl yr hwn alas i Dad gan gwn Iâl. 2 *B* llymrysgwd. 3 *B* cell; *A* cynull. 5–8 *ni cheir yr englyn hwn yn D*. 5 *yn rhagflaenu'r llinell hon ceir y teitl yn C¹* konvn coch o Ial yn gofyn i fleddyn was i gwd oedd sych mawn mon, C² Convn Coch o Ial yn gofyn i fleddyn was was [*sic*] i gwd oedd sych mawn mon, *E* konyn koč o

Ial yn gofyn i bledyn ŷas i gud a oed syç maun mon o dynŷared i bledyn ac yŷ ŷlad ef mon; *A* Dowaid Bleddin flin os gelli, *B* Dawaid Bleddyn vlin os gelli, *C*² syn o son. 6 *A* yhellfrych, *B* ysgelevrych. 7 *A* ysgryblawdd; *A* wiriddion, *B* wriddion. 8 *A* Sachâd bawn, *B* Sy'a thad cuwn; *A* mawn y môn; *yn dilyn yr englyn hwn ceir y coloffon yn A* Cwnin, *E* Conyn Coç a k. 9 *yn rhagflaenu'r llinell hon ceir y pennawd yn A* Atteb Bledhyn was y Cwð, *B* Atteb Bledyn, *y rhaglith yn D* Ef a ddamweiniodd i wr ddyfod trwy ryd syydd ar afon Alun ffordd yr elir or maes mawr i fwlch bedd byrwas lle ydd oedd llawer o gwn yn dilyn gast gynhaic ac y rhuthrodd y cwn ir gwr ac ai lladdasant cynydd oedd ef ai gwn ei hun ai lladdodd. ac o hynny allan yr henwyd y rhyd hwnnw Rhud y gyfarthua: a hynn a ddanodes gwr o fon i fab y gwr a las fal hynn, *y pennawd yn C*¹ ateb bleddyn iddo, *C*² bleddyn yn ateb, *E* Atteb Bledyn i Gonyn trŷy.r. kyffelib; *E* gefest; *A* Gwnin, *B* Cwnin, *D* gono ond a llinell dano a Conyn wedi ei ysgrifennu uwch ei ben; *A* Gwthwr dafad goch, *B* cwthwr ddavad, *C*¹ kenav dafud goch, *D* gwthwr dafad goch. 11 *A* gwair, *B* fw arfer; *A* dan, *B* ddan; *B* ciliad, *C*¹*D* eliad. 12 *yn dilyn yr englyn hwn ceir y coloffon yn A* Bledhyn, *C*¹ kynydd oedd dad konyn coch ag foi lladdodd kwn ef ag am hyny y gwnaeth ef felly i ateb, *C*² kynvdd oedd dad Konvn Koch agfoi lladdodd y kwn yfo ag o ran hyny y kanodd bleddyn svt hyny, *D* Bleddyn Was y cwd, *E* Bledyn ŷas i gud a k.

Ymryson Bleddyn Ddu a Chonyn Coch

[Conyn Coch]

Pa sôn sydd yma, pa siffrwd brwydr
 Gan brydydd llamsachus ei wth,
 [O] bell [ei] fleiddiau, yn hawlio [tâl gan] gwmwd?
 4 Ai Bleddyn yn gofyn am ei gwd?

Dywed hyn, Bleddyn syn [y] sôn [amdanat], os gelli,
 [Y] tasgiad [o] groniad bwndel,
 [Y] [blaidd bwystfilaidd heb wreiddiau,
 8 [Cludwr] sach had lawn, a yw mawn Môn yn sych?

[Bleddyn Ddu]

A gefaist di, Gonyn Coch, [y] cenau dafad
 Yn gochel [ar] ddydd marchnad
 Ên ffon bugail mewn ffald,
 12 Dâl am dy dad gan gŵn Iâl?

Atodiad

i

Coffáu Coroni Wiliam Rufus

4 Un mil oedd oed Iesu, molen'—is haul,
Saith a phedwar ugien,
Pan ddaeth Gwilym, loywlym len,
Barchus, Rufus, yn berchen.

Ffynonellau

A—BL Add 14979, 206^r B—BL Add 14990, 89^r C—BL Add 15003, 128^r
D—Gwyn 19, 122 E—LIGC 3049D [= Mos 146], 508 F—Pen 197, 176

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif F. (Ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 71–3.)

Amrywiadau

1 *ABCE* Mil oedd; *AE* hael. 2 *ACE* vgen, *D* ugain; *yn A*, *ar ochr chwith y ll.*, *ceir Wl* Rufus. 3 *AE* ddoeth; *ABCE* wiliam; *AE* loewlan, *BC* loewlam, *D* loyw-lym. 4 *E* rvffws; *yn dilyn y ll.* ceir *yn ADEF* Bledhyn dhu, *B* Bleddyn vardd, *C* Bleddyn Ddu ai cant; *yn BCDF* ceir wrth ymyl y gerdd y dyddiad 1087, a'i ragflaenu *yn DF* gan Wiliam Rufus.

Coffáu Coroni Wiliam Rufus

Mil oedd oed Iesu (bydded i [bawb] dan [y] nen Ei foli!)
[A] saith a phedwar ugain,
Pan ddaeth Gwilym Rufus barchus, amddiffynnydd disglair a
llym,
4 Yn berchen [y deyrnas].

ii

Englyn Conyn Coch i Fadog

4

Caliog Fadog both drosogl,
 Cel eirchwyrn, chwyrn gurn chwys'gl,
 Celwrn llawnllwyth bwyth gwthgasgl,
 Caul dirwydd draul deurudd drwsogl.

Ffynonellau

Digwydd y gerdd yn llawysgrif Peniarth 99B, 594 yn unig (arni, gw. 'Llawysgrifau', isod tt. 71–3.)

Darlleniadau'r llawysgrif

2 chwiscl. 4 drusgl; *yn dilyn y ll.* ceir Conyn Goch ai cant i Vadoc both droscl.

Englyn Conyn Coch i Fadog

4

Madog mawr ei gal, afrosgo [ei] fogail,
 Ceffyl egr [ei] geisiadau [sy'n] chwyrn [achosi] crug pothell[i],
 Celwrn [â] thrawiad llawn ei lwyth [o had sy'n] hel [i] ymwithio,
 Blochda traul afrwydd dwy gail afrosgo.

Nodiadau

1

Awdl i Dduw yw'r gerdd hon yn null awdlau'r Gogynfeirdd i Dduw sydd, fel rheol, yn dilyn y patrwm sylfaenol o fawl i Dduw a'r Drindod, cyffes o bechod ac eiriol am drugaredd. Dechreua'r bardd trwy gyfarch a moli Duw (llau. 1–4). Cyfeira wedyn at ofalon a heintiau a anfonodd Duw oherwydd y camweddau a gyflawnodd yn ystod ei fywyd (llau. 5–8). Try wedyn at Fair a'r Drindod am ryddhad o'i helbulon gan ddweud y bydd yn byw'n rhinweddol ac na fyn fynd i uffern (llau. 9–18). Mola Dduw eto, gan ddatgan ei gred yn Ngweddi'r Arglwydd ac athrawiaeth yr Eglwys ar uffern (llau. 19–24). Cyfeiria yn nesaf at ddyfodiad Crist yn y cnawd ac at Fair Ei fam, gan ddatgan ei ddymuniad i gyfranogi ym mendithion y digwyddiad (llau. 25–8). Dilynir hyn gan ddisgrifiad o groeshoelio, claddu ac atgyfodiad Iesu, a molir Ef a Mair am y fuddugoliaeth hon (llau. 29–40). Ar sail hynny, mynega'r bardd, yn olaf, obaith cael maddeuant am ei bechodau a bywyd o ddedwyddwch diddarfod gyda'i Greawdr (llau. 41–8).

Awdl reolaidd ar fesur gwawdodyn yw hon, sef cwpledi o gyhydedd naw ban am yn ail â thoddeidiau. Cynganeddwyd hi drwyddi gyda chanran uchel o linellau yn cynnwys cynghanedd sain neu gynghanedd sain bengoll.

- 1 **Glandad gwir gelwir** Trefn y gystrawen yw gwrthrych (*Glandad gwir*) + bf. (*gelwir*) heb dreigladd meddal a heb ragenw perthynol. Digwydd y gystrawen hon yn ddigon cyffredin yn y farddoniaeth gynnar, a chyfystyr ydyw â'r drefn bf. + gwrthrych, gw. Treigladau 174, 368, GMW 181. Hefyd isod, llau. 7–8 (*Ei fâr .../Rhoddai ...*).
- 2 **gleindid** Llsg. B *gleindyf*. Fe'i diwygiwyd yn unol â G 532 er mwyn cael odl â *ddilid*, er y sylwir yno fod y ffurf *dilyd* yn bod hefyd.
- 8 **hyd nas ...** Deallir hwn yn gymal pwrpas yn hytrach na chanlyniad (gw. GMW 238).
- 10 **ffaglawr** Deallir y ffurf yn gyfuniad o *ffagl* + *awr*, yn groes i G 503 sy'n ei deall yn betrus fel ll. *ffagl* a GPC 1274 sy'n ei ddeall = 'ffaglawr', &c., o *ffagl* a'r terfyniad gweithredydd *-awr*.
- 13 **hyfaethaf** Llsg. B *hyfaeth|haf* a ddiwygir er mwyn yr ystyr, yn groes i GPC 1959 sy'n dyfynnu'r enghraifft hon fel dau air o dan *hyfaeth*. (Gthg., felly, y cyfuniad *haf hyfaeth* yn GDG³ 41 (14.32).)
- 14 **golau** E. gyda *Sul* yn dibynnu arno. Dichon fod yma gyfeiriad at yr Offeren.

- hawl** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *holi*. Perthynai iddo hefyd yr ystyrion ‘... mynnu; deisyf, ceisio; gofyn iawn, cyflwyno hawl (yn erbyn), erlyn, cyhuddo, edliw neu ddannod peth (i), herio’, GPC 1889.
- 15 **budd** Deallir hwn yn wrthrych *achubaf*, ll. 16.
- byddaf—wrth gyfraith** Ar yr ymadrodd *bod wrth*, gw. T.H. Parry-Williams, ‘Miscellaneous Notes on Words and Constructions’, B i (1921–3), 106 ‘to submit to, to abide by, to yield to’; cf. GCBM i, 30.2 *Ni bytud wrth gyureith*.
- 16 **caith** Ll. *caeth*, a. ac e. Gall olygu rhai caeth i bechod yn y byd hwn neu rai caeth i uffern.
- gwyach** Llsg. B *wywach* gyda bwlch rhwng yr y a’r *ch* a’r w wedi ei osod uwchlaw iddynt. Fe’i nodir yn G 727 fel enghraifft betrus o *gwyach*.
- 17 **rhai** Cyfeiriad at gythreuliaid.
- bradw** Enghraifft o ddefnyddio a. fel e. Cyfeirir at yr eneidiau briw sy’n berwi a rhewi yn uffern. Credid yn gyffredinol yn y cyfnod hwnnw mai lle o wres ac oerni eithafol, ymysg pethau eraill, oedd uffern, gw. HG Cref xiii–xiv.
- 21 **rhinweddau’r Pader** Sef y bendithion ysbrydol a ddaw o ddweud Gweddi’r Arglwydd.
- 22 **Eglwys** Fe’i dilynir yn R 1249.20–1 gan *pennaf*, ond ceir llinell drwyddo yn y llsg. Amlwg i’r copiwr atgynhyrchu *pennaf*, ll. 19, ar gam cyn ei hepgor yma.
- 31 **gwaethaf—ladron** Ar y treigladd meddal yn dilyn a.eith. yma, gw. Treigladau 52 a cf. uchod 5.36 *hynaf bader* a hefyd R 1325.22 *Vchaf geli* (Gruffudd ap Maredudd). Gyda llau. 31–2 *ladron / Iddeon*, cf. GDG³ 3 (1.24) *Iddeon, lladron rhy dwyllodrus*.
- 33 **Gwirionnaf** Fe’i deallir yn e. cyfansawdd o *gwirion* + *naf*, yn groes i G 685 sydd yn deall *gwirionaf* llsg. B yn ffurf radd eithaf yr a. *gwirion*.
- 40 **ei henw** Cyfeirir at Fair, mam Iesu.
- 47 **heb ludd orchudd** Sef heb y llen a dynnodd Duw rhyngddo a dyn sy’n rhwystro i ddynion Ei weld â’r llygad. Cf. geiriau enwog St. Paul yn 1 Cor xiii. 12 *Yn awr, gweld mewn drych yr ydym, a hynny’n aneglur; ond yna cawn weld wyneb yn wyneb*; hefyd, 2 Cor iii. 18.

Megis y gerdd gyntaf, awdl grefyddol yw’r gerdd hon, ond yn fwy penodol, awdl i ail Berson y Drindod, Iesu. Dechreuau’r bardd trwy foli ymgawdoliad Iesu trwy Fair (llau. 1–4). Yna dywed, megis mai eiddo Iesu yw’r nef a’r ddaear, felly hefyd mai ei eiddo ef, Bleddyn, yw nerth cân i’w foli Ef a bod

Iesu yn mynnu gofalu amdano, fel petai'n cyfnewid ei gân am nawdd Duw (llau. 5–9). Eir ymlaen i foli Duw a'i greadigaeth a dweud mai da o beth yw buchedd rinweddol (llau. 10–16). Rhybuddir wedyn am berygl angau disyfyd i ddyn a fo'n goryfed ac yntau heb fyfyrion ar aberth poenus Crist drosto ar y groes (llau. 17–28). Crybwyllir, yn ddigyswllt braidd, Fair a'r Drindod (llau. 29–30) a dilynir hyn gan ddisgrifiad o ailddyfodiad Crist (llau. 31–8), un o themâu crefyddol grymusaf yr Oesoedd Canol ac un a gafodd fynegiant llawn mewn barddoniaeth grefyddol Gymraeg gan Elidir Sais a Gruffudd ab yr Ynad Coch.¹ Diweddir trwy erfyn ar Grist i'n derbyn ar Ddydd y Farn (llau. 39–42).

Cyfes o doddeidiau rheolaidd yw'r awdl hon. Cynganeddwyd hi drwyddi a cheir canran uchel o gynghanedd sain gyda chyfran helaeth ohonynt yn bengoll.

- 1 **a ddyfu** Llsg. B *adyun*; derbynir y diwygiad a gynigir yn G 414 oherwydd yr ystyr ac oherwydd fod y ll. sillaf yn fyr fel y saif yn y llsg.
- 3 **oeswedd** Nodi'r ffurf yn unig a wneir yn G 641 (d.g. *gweð*²) ac nis rhestrir yn GPC. Fe'i deallir yma'n a.: cf. *alarchwedd* (*ib.* 74), &c. O'i chymryd yn e.—cf. *bronwedd* (*ib.* 333)—gellid ei deall yn enidol o flaen *tangnefedd*.
- 6 **terra** Llad. *terra* = 'daear'.
- 11 **o'i dirdanc** Llsg. B *oe dyrdanc*. Ar *o'i* = 'yn ei' (sef amrywiad ar *i'w*), gw. CA 212. Mae'r rhagenw mewnol '*i* yn cyfeirio at *awdurdod* a ddeallir yn eb. yma, gw. GPC 239. Mae G 427 a GPC 1145 yn dosbarthu *dyrdanc* fel unig enghraifft = 'syndod, rhyfeddod' (< *dy-* + *yardanc*); ond deallir ef yma'n gyfuniad o *dir* + *tanc*.
- 13 **daear gwnaeth** Ar gyfosod gwrthrych + bf., gw. uchod 1.1n.
a faeth Posibilrwydd arall fyddai cydio'r cymal wrth *daear*. Ar *maeth*, ffurf 3 un.grff.myn. y f. *magu*, gw. GMW 124.
- 17 **cuddygl** Ni nodir yr ystyr 'bedd' yn G 185 a GPC 628 ond ymddengys mai dyna a olyga yma.
- 18 **swrth** Ar yr ystyr 'sydyn', gw. IGE² 423 a cf. D '*subito*'. Ystyr arall iddo oedd 'trwm', gw. CLIH 190, GIG 216.
- 19 **rhed** Ar *rhed* = 'rhawd, cwrs, hynt', gw. J. Lloyd-Jones, 'Lexicographical Notes', B ii (1923–5), 1.
- 22 **fu yn** Cywesgir yn 'fu'n' er mwyn hyd y ll.
- 25 **chweiris** Ffurf 3 un.grff.myn. y f. **chwaraf*: *chwaru*, gw. GPC 843.
- 28 **ys buddol Ei ysbyddawd** Llsg. B *yspudaðl y yspydaðt*. Manteisr ar awgrym petrus I. Williams, PKM 221, mai 'ysbuddiol ei ysbyddawd' a

¹ Gw. MWRL 93–4.

feddylir. O ysgrifennu *ys buda6l* yn un gair, hawdd fyddai ysgrifennu *sp* am y sain *sb* oherwydd yr arfer mynych o ysgrifennu cts. a seinid yn feddal yn galed (gw. J. Morris-Jones: CD 214), megis yn *yspyda6t*.

buddol Cynhwysir y ffurf yn GPC 346 yn amrywiad ar *buddiol*, ond ni roddir enghraifft ohoni, ac nid oes enghraifft o *buddiol* ei hun cyn 1551. Nodir, fodd bynnag, y ffurf *vuddola* (o'r f. *buddoli*) o Destament Newydd 1567. Nid oes, er hynny, unrhyw reswm pam na ddylai'r ffurf *buddol* fod wedi bodoli yng nghyfnod ysgrifennu'r testun.

ysbyddawd Gw. PKM 221 ar ystyron y gair hwn, sef 'llety, lletygarwch; gwledd' ac o bosibl 'cwmni'. Gall gyfeirio at arhosiad Iesu ar y ddaear neu Ei arhosiad ynom ni.

30 **rhandawn** Ar *rhan* = 'cyfrannog o' mewn gair cyfansawdd, cf. GDB 19.10 *G6neuthost geith yn ran obeith ryddyon* (anh.). Ar galediad *ndd > nd*, gw. Treigladau 26–7.

31 **arnaw** Sef y *diwarnawd cyhoedd*, enghraifft o un gair yn achub y blaen ar y llall (*prolepsis*).

32 **tyrfawd** Ffurf 3 un.dyf.myn. y f. *tyrfu* = 'cynhyrfu', gw. CLIH 71, 123 ac am y ffurf, gw. GMW 119. Ar y gystrawen goddrych + bf., gw. GMW 181 a Treigladau 174, 368.

35 **traethawd**—**fan** Deellir y rhain yn gyfansawdd o'r math e. + a. (megis *ffroen-denau*), gw. J. Morris-Jones: WS 31, Treigladau 21. Am gyfuniad cyffelyb, cf. LIDC 36 (18.17) *Bet seithennin sinhuir vann* (a gyfieithir yn 'high-minded' gan Thomas Jones, 'The Black Book of Carmarthen "Stanzas of the Graves"', PBA liii (1967), 119).

38 **gwaredd** Llsg. B *g6aret*, ond '-dd' a ofynnir gan y gynghanedd. Ni nodir yr enghraifft hon yn G 621 na GPC 1585.

pum hyrddawd Sef pum clwyf Crist.

40 **cyfundawd** Cf. LIA 96 (ll. 19) *Ygyfunda6t. teirpersona6t*, sef y Drindod Fendigaid.

41 **parch briod** Ar ddefnydd *parch* fel eb., cf. IGE² 110 (ll. 8) *Pur o ach fab mewn parch fawr*.

42 **ein herbyn** Llsg. B *yn erbyn*. Deellir hyn yn wrthrych y f. *archwn*, ll. 39, gyda'r sawl yr erchir iddo, *Nêr*, ll. 40, dan reolaeth yr ardd. *i* (ar y gystrawen hon, gw. G 483). Gellid hefyd ddehongli *yn erbyn* = 'i'n herbyn' = 'er mwyn [iddo] ein derbyn'. Os yr ail a ddewisir, yna cymerer *a ddywawd*, ll. 39, yn wrthrych *archwn*, a rhodder coma ar ôl *addefwn*.

3

Awdl grefyddol arall yn dilyn y cynllun traddodiadol yw hon. Dechreuau'r bardd trwy foli Crist, a Mair fel un a fu'n fam iddo Ef a Duw (llau. 1–12), cyn troi at Dduw i offrymu gweddi iddo (llau. 13–16). Gofyn wedyn i Dduw am faddeuant, gan gyffesu'r pechod o ddychanu ar gân, a chyferbynna'r llid sy'n aros gweithredoedd drwg â lles buchedd rinweddol a duwiol (llau. 17–24). Ymbil yw gweddill y gerdd ar i Dduw, yn bennaf, a Mair achub y bardd rhag poenau dychrynlyd uffern.

Deunaw cyhydedd hir a geir yn yr awdl hon, a sylwer bod cymeriad llythrennol neu gynganeddol yn cysylltu'r tri chymal cyntaf ym mhob enghraifft.

- 1 **mawl molaf** Ar gyfosod gwrthrych + bf., gw. uchod 1.1n ar *Glandad gwir gelwir*.
- 2 **doethaf, diddanaf Dy ddaioni** Fe ellid hefyd ddeall hon yn frawddeg enwol (h.y., 'doethaf, diddanaf yw Dy ddaioni').
- 3 **fu 'r Ddau** Llsg. B *urdeu*, y gellid ei ddehongli yn 'f'urddau', ond ni roddai gystal ystyr. Deellir *fu 'r* yn gywasgiad o *fu i'r*.
- 4 **wyd Un a Thri** Cyfeiriad at Grist fel aelod o'r Drindod.
- 8 **llewnid** Ffurf amhrs.amhff. neu orff.myn. y f. *llewni* = 'llenwi', gw. GPC 2113.
- 17 **maddau** Cydier wrth ll. 18 *troau*.
- 18–20 **Troau meddyliau ... / A bechawdd** Ar ddilyn *pechu* gan wrthrych uniongyrchol yn yr ystyr 'cyflawni [rhywbeth] mewn pechod', cf. YCM² 159 (llau. 25–6) *A pha beth bynnac a becheis i y'th erbyn di, madeu ym ...*
- 24 **difuledd** 'Â llais uchel, llafar, annistaw', GPC 987, ond amhriodol yw'r ystyr hon gyda *llariedd*. Esbonnir y ffurf yno fel y rhagddodiad negyddol *di-* + *muledd*, ond ceir gwell ystyr o ddeall yr elfen gyntaf yn rhagddodiad cryfhaol. Nodir dau air yn dwyn y ffurf *muledd* yn *ib.* 2501, sef ffurf ddiweddar *muledd* = '?cyndynrwydd, pengaledwch', o *mul* ('asyn') a *muledd* = 'gwyleidd-dra, swildod', ac er na nodir pa un sydd yn *difuledd*, amlwg ar sail ystyr ac oed mai'r ail sydd. Daw o'r a. *mul* yn yr ystyr 'syml, diniwed, diffuant, plaen, didwyll; gwylaidd, llariaidd, disyml, addfwyn, swil ...', *l.c.* d.g. *mul*².
- 25 **lludd** O ran ffurf gall fod yn 2 un.grch. neu 3 un.pres.myn. *lluddias*; gwell o ran ystyr yw deall y cyntaf.
llawn oestawn Un gair yn ôl GPC 2117 = '? ((un) sydd yn rhoddi rhodd o fywyd cyflawn', ond ceir cynghanedd lawn o'i ddeall yn ddau air. Ar y calediad *s + dd > sd* neu *st* yn *oestawn*, gw. Treigladau 24–5.
- 27 **Lluydd** GPC 2232 'llu, tyrfa, byddin; y weithred neu'r arfer o fyddino neu o ymfyddino, rhenciad byddin, gwasanaeth milwrol; ?gwersyll;

cyrch, rhuthrgyrc'h, brwydr, ymladd; ?treth', o *llu* + *-ydd* (terfyniad sy'n dynodi ansawdd, megis yn *llawenydd*). Mwy priodol yn y cyd-destun, fodd bynnag, fyddai deall yr ail elfen fel y terfyniad gweithredydd (fel yn *ehedydd*, gw. WG 233) a *llyydd* fel 'byddinwr, cynullydd', S. 'musterer'.

dydd diffael Cyfeiriad at ddydd marw'r unigolyn neu ddiwedd y byd.

grasryw Nodir y ffurf yn G 586 (d.g. *gras*), ond ni roddir ystyr, ac nis nodir yn GPC. Deallir ef yn gyfuniad o *gras* + *rhyw* = 'natur', cf. *clodryw*, *penceirddryw* &c. a gw. J. Morris-Jones: WS 30. Ar y treigladd meddal, cf. yr arfer mynych o dreiglo a. ar ôl *Duw*, gw. Treigladau 119.

yr Israel Cf. GDB 10.58 *Deus yr Israel* (Llywelyn Fardd I). Ar ddefnydd y fannod gydag enwau gwledydd, gw. GMW 26.

28 **Llawr uffern** Gelwir Crist yn Arwr uffern am iddo ddisgyn yno wedi Ei farw ar y groes a'i choncro, megis, gw. ODCC 391–2. Gwnaeth y thema argraff ddofn ar feddwl yr Oesoedd Canol.

31 **llawr** Sylwer ar y gwahaniaeth ystyr rhyngddo ac uchod ll. 28 er agosed y ddwy enghraifft yn y testun.

dofn daear Ar y diffyg treigladd i *d* ar ôl *-n*, gw. uchod 2.30n.

33 **awr arwydd** Cf. uchod ll. 27n ar *dydd diffael*.

35 **n'ad** Cywasgiad o *na ad* (cf. GDG³ 205 (75.36)); neu gellid darllen *nâd*, sef ffurf 2 un.grch. y f. *nadu*, yn golygu 'paid â gadael' (gw. GPC 2547 d.g. *nadaf*² ac OIG 36 lle rhestrir *nâd* gyda'r ystyr 'do not allow').

tân pân I osgoi trwm ac ysgafn rhaid gwrthod y darlleniad *tân pan* 'tân crochan' (ar *pan* = 'cwpan ...?crochan', gw. GPC (i ymddangos) d.g. *pan*³). Ymddengys fod dau air *pân*, sef *pân*¹ = 'ffwr', &c. a *pân*² = 'planhigyn o'r tylwyth *Eriophorum*, plu'r gweunydd, panog', ond dadleuodd Henry Lewis, 'Varia', *Études* i (1936), 320–1 (cf. Cyril B.H. Lewis, 'Y Banwen', B vi (1931–3), 152), mai o *pân*² y cafwyd *pân*¹ (ffwr yn debyg i'r plu gwyn). Gan mai fel gwern neu gors y meddyliai'r beirdd yn y cyfnod hwn am uffern, cymerir mai disgrifio planhigion cors uffern yn llosgi'n eirias a wneir yma. Ond mae posibilrwydd arall. Gwyddys bod mwy nag un math o lin, '*flax*', a chan fod enwau planhigion yn amrywio o le i le, mae'n bosibl mai llin yw ystyr *pân* yma—rhoddir '*cotton-grass*, *bog cotton*' fel ystyron Saesneg *pân*. Gwyddys hefyd fod rhai mathau o lin yn cael eu defnyddio i wneud pabwyr. Yn Esecia xlii. 3 sonnir am lin yn mygu, h.y. yn mudlosgi; ond gellir meddwl am blu'r gweunydd neu blu rhyw blanhigyn tebyg iddo yn llosgi'n sydyn ac yn ffyrnig, ac anodd penderfynu ai'r math cyntaf o losgi neu'r ail a gyfleir gan *tân pân*.

4

Perthyn yr awdl led-storiol hon i'r un *genre* yn y bôn â'r cerddi crefyddol blaenorol, ond gwelir rhai gwahaniaethau sylweddol. Yn lle'r mawl arferol i Dduw ar y dechrau, ceir hanes Adda ac Efa (llau. 1–19), lle gwelir dylanwad yr hanes apocryffaidd 'Vita Adae et Evae' a oedd yn dra phoblogaidd yn yr Oesoedd Canol ac y ceir y cyfieithiad cynharaf ohono i'r Gymraeg sydd ar glawr, yn dwyn y teitl 'Ystoria Addaf ac Efa ei Wraig', yn Llyfr Gwyn Rhydderch, llawysgrif o ganol y bedwaredd ganrif ar ddeg.¹ Cyfeiria'r bardd ato'i hun wedyn fel prifardd i Dduw a chanddo hawl wedi ei phrofi arno Ef (llau. 20–2). Sonnir am farw prunedigol Crist (llau. 23–6) ac yna condemnir balchder dyn a chyfeirio at Lwsiffer ac uffern (llau 27–8). Fe ddilyn disgrifiad o gwmp Lwsiffer a myfyrdod ar ganlyniadau trychinebus hyn (llau. 29–37). Ond yng nghanol hyn oll daeth gwaredigaeth i'r ddynoliaeth trwy eni Iesu o Fair (llau. 38–40), a datgana'r bardd ei orfoledd yn sagrafen cyffes a ddaeth yn sgil hynny, gan annog y Cristion i fyw'n rhinweddol (llau. 41–4). Deisyfiad hir yw gweddill y gerdd am faddeuant pechodau cyn angau.

Canwyd yr awdl hon ar fesur cyhydedd naw ban yn amrywio â chyhydedd fer. Ceir canran uchel o linellau yn cynnwys cynghanedd sain, a cheir yma hefyd gynganeddion pengoll, braidd gyffwrdd a gwreiddgoll. Ond gwan ac afreolaidd yw'r addurn mewn rhai achosion (e.e. llau. 55 a 63). Yn wahanol i'r awdlau eraill, ceir amryw o afreoleddau yn hyd y llinellau: mae llinellau 15, 21, 37 a 69 yn rhy hir o sill, a llinellau 36, 42, 47 a 48 yn rhy fyr o sill.

3 **deon blannawd** Deellir hwn yn gyfuniad ansoddeiriol yn goleddfu *daear*. Ar ddefnyddio e. + a. gyda grym rhangymeriad grff. goddefol fel hyn, gw. J. Morris-Jones: WS 31–2. Ar y terfyniad *-awd*, gw. GMW 166, a cf. isod ll. 21 *urddawd*. Ar y diffyg treigladd i *deon* ar ôl yr eb. *daear*, cf. arfer y Cywyddwyr o beidio â threiglo a. yn goleddfu eb. weithiau pan ddelai'n union ar ôl yr orffwysfa er mwyn y gynghanedd, gw. Treigladau 55n *et passim*. Cymerir mai cyfeiriad yw *deon* at drigolion y ddaear wedi cwmp Adda ac Efa.

6 **glytha'** Llsgr. B *glwth a*, ond anodd gweld beth fyddai ystyr 'â glwth i'w [= y yn y llsgr.] chnawd', a haws cysylltu'r a. â'r ddaear ei hun (gw. y nodyn nesaf) trwy'r diwygiad hwn nag â'i thrigolion.

ei chnawd Deellir hwn yn gyfeiriad at *daear*, ll. 3. Meddylir am y ddaear fel peth sy'n traflynycu dynion wedi iddynt farw. Mynegir y syniad hwn yn yn gofiadwy yn CLIH 43 (XI.77) *Tywarchen Ercal ar erdywal wyr / O etiued Moryal, / A gwedy rys mac rys mal*, a gw. *ib.* 227.

¹ Gw. J.E. Caerwyn Williams, 'Ystoria Adaf ac Eua y Wreic', Cylchg LIGC vi (1949–50), 170–5.

- 7 **Glyn obryn Ebron waelawd** Genidol yw *Glyn* yn dibynnu ar *gobryn*, genidol yw *Ebron* yn dibynnu ar *gwaelawd*, a genidol yw *Ebron waelawd* yn dibynnu ar *Glyn obryn*. Ar y trychiad posibl a welir yn *Glyn ... Ebron*, gw. J. Morris-Jones: CD 83.
- Glyn ... Ebron** Dyma lle claddwyd Adda, yn ôl traddodiad Iddewig a arddelwyd gan St. Sierôm ac a gredwyd am hir yn y Gorllewin. Ildiodd y dyb yn raddol i draddodiad arall, a geir gyntaf yn Origen, fod Adda wedi ei gladdu ar Fryn Calfaria lle tywalltwyd gwaed Iesu, yr ail Adda, ar ben yr un cyntaf, gw. ODCC 15. Am gyfeiriadau eraill at Lyn Ebron, cf. GTA 286 (LXXI.3), 296 (LXXIII.68), a GLM 195 (LV.21), 358 (CIV.1).
- 9 **prudd** ‘Doeth’ oedd yr ystyr arferol, ond cf. GIG 188 am enghreifftiau o’r gair yn yr ystyr fodern = ‘difrifol, tost’.
- annefawd** A. yn ôl G 27 = ‘nad yw wrth reol neu ddefod; unbenaethol’, ond e. yn ôl GPC 135 = ‘anhrefn, anllywodraeth’. Cymerir yma mai’r anhrefn a achoswyd trwy gwmp dyn ac a oddefodd Duw yw’r meddwl.
- 11 **blys** Llsg. B *velys*. Dilynir yma awgrym G 436 (d.g. *echrys*). Digwydd *blys* a *blas* yn fynych gyda’i gilydd, megis yma, gw. GPC 284, 291.
- 13 **gwastawd** Llsg. B *vastaôd*. Fe’i cynhwysir yn G 634 a GPC 1601 d.g. *gwastawt* = ‘rhawd, cwrs, hynt, chwyl’, er nad yw *v* yn arferol yn y llsg. am y sain ‘w’. Gellid hefyd ddehongli *vastawd* yn ffurf dreigledig *bastawd* (< *bas*), gw. G 634, ond ni roddai hynny ystyr briodol. Cf. hefyd isod ll. 64 *angen wastawd*.
- 14 **pall** Llsg. B *pell*. Gellid defnyddio *pell* ynglŷn ag amser hefyd = ‘hir’ ond ni fyddai’r ystyr ‘gostyngeddrrwydd hir’ yn gweddu i’r cyd-destun, a rhydd y diwyg. *pall* (< *pallu*) ystyr briodol.
- efylltawd** Amrywiad ar *ufylltawd*.
- 16 **Difarner** Llsg. B *diwarner*. Er gwaethaf awgrymiadau G 337, sef trin y ffurf fel amhrs.pres.dib. y f. *difarnu* neu ddiwygio’n *di war ner* ‘i’r arglwydd tirion’, cymerir yma mai e. cyfansawdd o *di-* (rhagddodiad cadarnhaol) + *gwâr* + *nêr* ydyw.
- 17 **pla** Yn y gystrawen bf. + goddrych + gwrthrych, gall y gwrthrych aros yn ddiriediglad, gw. Treigladau 196 ymlaen.
- 19 **gwyddion** Cynigia Lloyd-Jones yn betrus, G 731 (d.g. *gwýð¹*), mai ll. *gwýdd* = ‘pren, coeden’ &c. ydyw â’r ystyr ‘cangau, brigau’. Yn ôl GPC 1753 d.g. *gwýdd¹* (2), ll. *gwýdd* ydyw yn un o ystyron eraill y gair, sef ‘aradr’, ond ni roddir unrhyw enghraifft o’r ffurf. Amlwg mai’r ystyr gyntaf sy’n gweddu orau yma.
- 20–1 **Prifardd wyf ... / Profadwy arddelw** Cf. GIG 94 (XXII.43–4) *Prifeistr cywydd Ofydd oedd, / Profedig, prifai ydoedd, ib.* 167 (XXXVII.53–4) *Nid beirdd y blawd, brawd heb rym, / Profedig feirdd prif ydym; GDG³ 409 (153.35–6) Aml ymroddiad [drll. ym roddiad]*

profadwy, / *Am un i Ddafydd, a mwy*. Gofyn D. Johnston, GIG 310, ynglŷn â'r enghraifft o waith Iolo Goch ai at ryw brawf yr oedd yn rhaid i fardd ei sefyll er mwyn ennill gradd pencerdd y cyfeirir.

- 21 **profadwy** Yr ystyr erbyn hyn yw 'y gellir ei brofi', ond tenau sut bynnag yw'r ffin rhwng peth y gellir a pheth sydd wedi ei brofi. Dichon hefyd nad oedd y bardd am ailadrodd *profedig*, ll. 19.

Eurddelw Llsgr. B *urdel6*. Gellid deall *urddelw* fel cyfuniad o *urdd* + *elw*, ond nid yw'n eglur at beth y cyfeiriai yn y cyd-destun (*urdd* y beirdd?), ac yn betrus y nodir y ffurf yn G 312 d.g. *delw*. Gwell o ran synnwyr yw diwygio'n *eurddelw*; am enghreifftiau eraill o'r gair hwnnw, gw. *ib.* 497 (d.g. *eur*).

urddawd Deallir y ffurf yn a. berfol gyda'r terfyniad *-awd*, cf. y ffurf *plannawd*, uchod ll. 3n.

- 25 **ein** Derbynnir dehongliad Lloyd-Jones, G 483 (d.g. *erchwyn*), o *yn* y llsg.

ystyllawd Nodir y ffurf yn betrus a heb fanylu yn G 45 fel ll. yr e. *astell* = 'eisen, ysglodyn, tafell'. Yn GPC 1250 fe'i hesbonnir fel ffurf l. *ystyll* + un ai'r terfyniad *-awg* (a'r hen *-c* wedi ei chamddarllen yn *-t*), neu'r terfyniad *-awd* (cf. uchod ar *plannawd*, ll. 3n) gyda'r ystyr 'a wnaed o estyll'.

- 31 **rhewiniodd** Fe'i deallir yn ffurf 3 un.grff.myn. y f. **rhewin(i)o* mewn ystyr gyflawn = 'mynd yn ddinistr'. Digwydd y ffurf *rewinyawt* yn Arm P 5 (ll. 150) a dywedir, *ib.* 57, y gall fod yn f.—ffurf 3 un.dyf.myn. = 'distrywia' neu'r amhrs. 'distrywir'—neu'n e. = 'distryw', yn fenthyciad o'r Llad. *ruina* (cf. PKM 235).

amawd Llsgr. B *am na6t*. Derbynnir diwygiad petrus Lloyd-Jones, G 538 d.g. *gnawt*² (*nawt*) = 'anian, natur', ond ni ddywed ar ba sail y rhydd yr ystyr 'greddfoll, cynhenid' iddo. Perthyn sawl ystyr i'r rhag-ddodiad *am-*, gw. GPC 79 d.g. *am*²⁻, ac efallai mai'r defnydd cadarnhaol ohono gydag e. neu a. a oedd gan Lloyd-Jones mewn golwg. Mwy tebygol, fodd bynnag, yw mai'r ystyr 'gwahanol, amrywiol' sydd yma, cf. *amryw* sy'n cyfateb yn union i *amawd* yn hyn o beth. Efallai mai er mwyn osgoi *amryw*, gan mai *rhyw* sydd ar ddechrau'r ll. nesaf, y defnyddiodd (neu, efallai, y bathodd) y bardd y gair *amawd*. Nis ceir yn GPC.

- 34 **rhyaddef** Llsgr. B *ary adef* sy'n peri bod y ll. yn rhy hir o sillaf, ac yn wyneb y cymeriad llythrennol *rh-* a gynhelir o lau. 29–33, haws derbyn mai *rh-* a ddylai fod ar ddechrau'r ll. hon ac nid *a*.

- 35 **o'i lin neb** Llsgr. B *aelin heb*. Gellid dehongli hwn yn 'a'i lin heb', ond os cyfeiriad sydd yma at hil Lwsiffer, nid yw'r geiriau *heb lân gosbawd* yn briodol gan mai'r gwrthwyneb, sef cael ei chosbi gan Dduw, fu ei

- thynged. Ni cheir anhawster, fodd bynnag, os newidir *heb* i *neb* a chymryd mai ergyd y ll. yw i Dduw, er mai Ef yn Ei ddaioni a'i gariad a greodd Lwsiffer a'i angylion, orfod eu cosbi.
- 36 Cyfeiria'r ll. hon at ganlyniadau cwmp Lwsiffer i'r ddynoliaeth, a ffurfia bont rhwng llau. 35 a 37.
- o'i** Sef Lwsiffer.
- 37 **a** Gellid ei hepgor gan wneud hyd y ll. yn rheolaidd. Byddai'n rhaid darllen naill ai *nef dduhundawd* 'undod y nef' neu *nef duhundawd* 'y nef [lle mae] undod'. Ond mae llau. 15, 21 a 69 hwythau yn rhy hir o sill.
- 38 **gwawr** Gallai *gwawr* olygu 'arglwyddes, brenhines' a'i ddefnyddio am y Forwyn Fair, yn ogystal ag 'arglwydd, brenin' am Dduw, gw. G 636–7 a cf. isod ll. 56. Ni nodir yr enghraifft hon dan y naill ystyr na'r llall yno, ond fe'i deallir yma'n gyfeiriad at Fair, er y dichon hefyd mai Duw sydd gan y bardd mewn golwg.
- 39 **traethair traethawd** Deallir y rhain yn enwau yn sefyll mewn perthynas enidol â *Mab*.
- 41 **caffwyf** Llsg. B *caffwyd*. Dilynir G 94 a diwygio er mwyn y gynganedd.
- 46 **Cyn ... gyfnawd** G 211 (d.g. *kyfnawt*) 'nid rhaid efallai gywiro'r ll. i ddarl. *kyn dubwll gasneit dibwyll gasnawt*'.
- 47 **daearen ddaerawd** Llsg. B *daeren daearaōt*. Dilynir Lloyd-Jones, G 287 (d.g. *daearen* a *daerawt*¹) sy'n diwygio'r darlleniad i *daearen daerawd*. Noder fod y llinell, fel y llinell ddilynol, yn saith sillaf.
- 48 **aelawd** Gair gwahanol i *aelod* = S. 'limb', gw. GPC 36.
- 49 **llwyrgudd** Nodir y ffurf yn unig yn G 184 d.g. *cuō*; ni nodir y ffurf yn GPC 2247. Fe'i deallir yma'n e.
- 52 **dwyn ... fawd** Cyfeiriad at Sagrafen yr Olew Olaf (*unctio extrema*) ar gyfer cleifion neu rai ar eu gwely angau lle eneinir y pum synnwyr ag olew, gw. ODCC 1388. Rhoddir yr olew yn llythrennol dan y fawd cyn ei roi ar gorff y claf.
- 53 **gwrys in ys nawd** Llsg. B *gwryf ynys gnaōt*; derbynnir yma awgrym petrus Lloyd-Jones, G 722, a darllen *gwrys*.
- 54 **dyfydd** Llsg. B *dyuyt*. Dilynir awgrym petrus G 415 a GPC 1128 (d.g. *dyfydd*¹) ynglŷn â'r diwygiad.
- 62 **trawd** Ar ei ystyr, gw. D '*incessus, cursus pedestris*' (TR '*a going, a walking, a running on foot*'). Yr ystyr arferol yng nghanu'r Gogynfeirdd yw 'taith, cyrch, cyrch rhyfel': cf. R 1233.36–7 *traōt angeu aereu uedeu vydan* (Casnodyn).
- 63–9 Mae'r llau. hyn, sydd i gyd yn dechrau ag *er* a'i ddilyn gan un o briodolddau Iesu, yn dwyn ar gof gerdd un o gyfoeswyr Bleddyn Ddu,

Iolo Goch, sef ei weddi i Iesu, gw. GIG 137 (XXX.34–49).

- 63 **dyrnawd** Llsgr. B *niwarnabŷt*, darlleniad tywyll gan na wyddys at beth y cyfeirir, a diwygir, felly, ar sail ystyr. Golyga wneud y ll. yn fyrrach o sillaf, ond nodwyd eisoes nad yw llinellau'r gerdd hon yn hollol reolaidd o ran hyd.
- 66 **brad** Estynnir peth ar ei ystyr arferol.

5

Awdl arall i Dduw yw hon ond un sydd hefyd yn corffori thema Pum Llawenydd Mair.¹ Dechreua'r bardd trwy gyfarch a moli Duw a datgan gobaith am gael cyfran o'i ras (llau. 1–7). Yna try i sôn am Fair a'i Phum Llawenydd, sef, fel y gwelir wrth i'r gerdd fynd rhagddi, ymweliad yr angel Gabriel â Mair (llau. 10–13), geni Iesu (llau. 14–15), yr Ystwyll (llau. 16–17), atgyfodiad Iesu (llau. 18–25) ac esgyniad Iesu (llau. 26–9). Sonnir wedyn am ymadawiad Mair â'r byd a chladdu ei chorff (llau. 30–4). Yna dychwela'r bardd i foli Duw a'i greadigaeth (llau. 35–45) a diwedda trwy ofyn am fadd-euant am ei bechodau ac am fywyd tragwyddol (llau. 46–51).

Yr oedd Pum Llawenydd a Phum Pryder Mair yn un o themâu mwyaf cyffredin yr Oesoedd Canol, a pherthyn i'r gerdd hon bwysigrwydd fel y cyfeiriad cynharaf mewn llenyddiaeth Gymraeg at ei Phum Llawenydd.² Fel y mae Dr Andrew Breeze wedi sylwi, perthyn arwyddocâd amseryddol i'r ffaith mai'r Ystwyll a restrir yn y gerdd fel y trydydd llawenydd oherwydd nid tan chwarter olaf y drydedd ganrif ar ddeg y dewiswyd hwn fel un o'r pump (y rhai gwreiddiol, a bennwyd rywbyrd yn y ddeuddegfed ganrif, fe ymddengys, oedd cyfarchiad Gabriel i Fair, genedigaeth Crist, Ei atgyfodiad, Ei esgyniad, a dyrchafiad Mair),³ ac yn y bedwaredd ganrif ar ddeg yr oedd y defosiwn hwn fwyaf poblogaidd.⁴ (Y mae hynny, wrth gwrs, yn cydfynd â blynyddoedd Bleddyn Ddu.) Yr unig gerdd Gymraeg arall yn y cyfnod sy'n rhestru Pum Llawenydd Mair yw cerdd gan Ddafydd ab Edmwnd⁵ o'r bymthegfed ganrif lle sonia hefyd am ei Phum Pryder; ond, yn wahanol i Fleddyn ac yn unol â'r dewis gwreiddiol, mae'n enwi atgyfodiad Iesu, Ei esgyniad a dyrchafiad Mair fel y trydydd, y pedwerydd a'r pumed llawenydd.

Canwyd yr awdl hon ar fesur rhupunt. Sylwer bod llinellau 3 a 17 yn rhy hir o sillaf oni chywesgir y yn y cyntaf ac *ydd* yn yr ail. Cynganeddwyd yr awdl drwyddi a cheir cynghanedd sain gyflawn ym mhob llinell.

¹ Gw. A. Breeze, 'The Blessed Virgin's Joys and Sorrows', CMCS xix (Summer 1990), 41–5.

² *Ib.* 45.

³ *Ib.* 42.

⁴ *Ib.* 44–5.

⁵ Gw. DGG² 184, DE 123 (LX.37–48).

- 3 **pieufydd** Ffurf 3 un.dyf.myn. *pieu*, gw. GMW 81.
- 4 **hynafiaeth ... Hynefydd** Cysylltir Duw yma â'r holl oesoedd, cf. LIA 99 (ll. 1) (am yr Yspryd Glan) *Dyret yspryt. sant kreaðdyr byt. bydoed* [= 'oesoedd'] *earnaf*.
- 7 **bu disarrug** Ar y diffyg treigladd, gw. Treigladau 309.
bydau Llsg. B *byt eu*. Cynigia Lloyd-Jones yn betrus, G 85, y gellir ei ddiwygio'n *bydeu* neu *byd ef*, a derbynir yr awgrym cyntaf yma, er y rhydd yr ail synnwyr da hefyd.
- 8 **creifiaint** Sef y maddeuant a enillodd Mair i eraill.
- 9 **pum** Llsg. B *bump*, ond gofynnir hepgor *-p* gan y gynghanedd. Gellid defnyddio'r ffurfiau *pum* neu *pump* o flaen cytsain, gw. GMW 45, ac amlwg i ryw gopiwr ysgrifennu'r ffurf gyda *-p* yn lle'r llall.
pum llewenydd Ymhellach ar y rhain, gw. ar y cefndir uchod.
- 11 **wybrydd** TW d.g. *astrologus* (= 'seryddwr' neu 'sêr-ddewin'), ond amlwg mai un sy'n ymsymud yn yr wybren a olygir yma. Cf. Pen 94, 123 (ll. 29) *megys nad ebrwydh deallt wybrydh*.
- 12 **ave** Gair ac iddo arwyddocâd arbennig yn yr Oesoedd Canol ynglŷn â chyfarchiad Gabriel i Fair, gan y credid mai'r ffurf Ladin *Eva* oedd, wysg ei chefn, yn arwyddocâu daduniad drygioni Efa trwy Fair, gw. ODCC 479.
- 16 **tridawn** Neu 'tri gras', sef priod rasmusau pob un o Dri Pherson y Drindod. Llai tebygol ydyw mai cyfeiriad sydd yma at anrhegion y Tri Gŵr Doeth.
- 29 **Uchedydd** Yr ystyr arferol yw 'ehedydd', e.e. G. Jones, 'Buchedd Fargred', B ix (1937–9), 326 (llau. 26–7) *llyma vi vegys sperwan neu vchedyd kyfrwg crauagheu hebauc*. Ar yr ystyr 'llywodraethwr, goruchelwr', cf. R 1337.39 *Lle byd uchedyd arychydic* (Hywel Ystorm).
- 44 **Coelydd** 'Credwr; dewin, daroganwr' yn ôl GPC 533, ond cf. yr ystyr-on a roddir, *ib.* 532(b), i *coel*—'argoel, arwydd, sicrwydd neu warant o rywbeth i ddyfod, darogan, dewiniaeth; perfedd'. Deellir *coelydd* yma yn 'un sy'n rhoi sicrwydd, gwarantwr' gan y rhydd well ystyr.
- 45 **gwellt a gwŷdd** Cyfuniad cyffredin yn y canu crefyddol, cf. I. Williams, 'Naw Englyn y Juvencus', B vi (1931–3), 206 (2b) *cet treidin guel haguid*; T 24.4 ('Cad goddau'); R 1235.38 (Casnodyn); GCBM ii, 18.7 (Duw) ... *A wnaeth gwellt a gwydd*.
- 49 **pell fynydd** Mynydd yr Olewydd.
- 50 **ymgerydd** Yr ystyr arferol yw 'ceryddu, beio, edliw' (cf. GDG³ 605, Bren Saes 108 (ll. 20)), ond nid cwbl briodol ydyw yma ar ôl *camgaru*. Gan y golygai *cerydd* 'bai, pechod, cam, euogrwydd' (GPC 469) hefyd, cynigir, yn hytrach, mai'r ystyr honno sydd flaenaf yma.

6

Yn y farwnad hon dechreuir trwy foli Duw ac erfyn arno i gynorthwyo gwrthrych y gerdd, Goronwy (llau. 1–5). Yna molir Goronwy a'i amryfal rinweddau (llau. 6–11), gan droi, yn olaf, at Dduw drachefn a gofyn iddo dderbyn Goronwy i'w deyrnas (llau. 12–15).

Oherwydd byrder eithriadol yr awdl hon, dichon mai dryll ydyw, ond os felly, ni wyddys ai'r dechrau ai'r diwedd ai hyd yn oed ddarn a oedd rywle rhwng y ddau sydd yma. Os dryll ydyw, gallai'r ffaith ei fod, ar un olwg, yn ffurfio uned gyflawn (h.y., moli Duw, moli Goronwy, a gofyn am ffafr Duw i Oronwy) fod wedi symbylu rhywun, am ryw reswm, i'w hysgaru oddi wrth y cyfanwaith gwreiddiol.

Tybiai Lloyd-Jones mai Goronwy Fychan ap Tudur ap Goronwy ap Tudur Hen ap Goronwy ab Ednyfed Fychan o Fôn a fu farw yn 1382 yw gwrthrych y gerdd,¹ a sylwodd fod naw o gerddi i'r gŵr hwnnw i'w cael yn Llyfr Coch Hergest gan Sefnyn, Rhisieryd, Gruffudd ap Maredudd a Llywelyn Goch, yn awdlau moliant neu farwnad ac eithrio cyfres o englynion marwnad gan Ruffudd ap Maredudd.² Fodd bynnag, nid Trecastell, eithr Penmynydd, oedd cartref Goronwy y cerddi hyn, ac eiddo ei frawd, Ednyfed, oedd Trecastell.³ Nid gwiw tybio ychwaith i Oronwy feddiannu Trecastell pan fu farw Ednyfed ychydig o'i flaen,⁴ oherwydd etifeddwyd yr eiddo gan ferch Ednyfed, Angharad, a briododd Ieuan ab Adda o Bengwern yn Nanheudwy, un o hynafiaid teulu Mostyn.⁵ Yr unig Oronwy arall o Drecastell o fewn cyfnod Bleddyn Ddu a allai fod yn wrthrych y farwnad yw Goronwy ap Tudur Hen a fu farw yn 1331. Gwyddys bod Trecastell yn eiddo i Ednyfed Fychan a darfod ei etifeddu gan ei fab, Goronwy,⁶ ac er na wyddys pa rai yn union o amrywiol drefgorddau teulu Ednyfed Fychan a'i ddisgynyddion a oedd ym meddiant Tudur Hen ap Goronwy ab Ednyfed a Goronwy ap Tudur Hen, mae'n berffaith bosibl fod Trecastell yn eiddo i'r olaf, er ei gysylltu hefyd â Phenmynydd.⁷ Os Goronwy ap Tudur Hen sydd yma, yna dyma'r unig gerdd sydd ar glawr y gwyddys ei chanu iddo.⁸

Awdl un ganiad ar fesur rhupunt ydyw. Mae'r llinellau i gyd yn rheolaidd o ran hyd a cheir cynghanedd sain ym mhob un, rhydd y gyfatebiaeth seinegol gref rhwng yr ail a'r trydydd traean ynghanedd groes yn ddiethriad.

¹ G 571 d.g. *Goronwy*¹¹ ac ymhellach P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 13 ac AWH 198–201, 251; ceir rhagor o wybodaeth am y teulu hwn yn *ib.* 179–214, 240–74 a ByCy 167–8.

² G 571–2.

³ Gw. GIG 23 (V.48–53, 69–70).

⁴ *Ib.* 210.

⁵ MFE 56, MAng 204.

⁶ MFE 55.

⁷ MAng 202.

⁸ Cf. AWH 250.

- 2 **Agoriau** Ni cheir y ffurf yn G 15–16 na GPC 48. Digwydd y ffurf un. *egor* = ‘allwedd, agoriad’, gw. G 449, a chymerir mai ffurf amrywiol ar luosog hwn ydyw *agoriau* (cf. *agori/egori*, &c.). Deallir ef yma’n ffigurol am Dduw.
- 3 **llyfar** Derbynnir awgrym petrus GPC 2253 ynglŷn â’r ystyr.
- 4 **lleia** Dilynir GPC 2147 (d.g. *lleihaf*) a’i ddeall yn enghraifft bosibl o’r f. **lleiaf*: *lleia* yn hytrach nag o’r f. *lleihaf*: *lleihau*. Cf. y ffurfiau amrywiol *gwella* a *gwellhau*.
- 5 **Llachau** Cymeriad a gysylltir â’r chwedlau Arthuraidd, gw. ymhellach TYP² 416–18.
- 7 **cerddau** Cymerir mai ‘cerddi’ yw’r ystyr yma, ond dylid nodi hefyd y gallai *cerdd* olygu ‘prydydd, cerddor’ yn ogystal â ‘cerdd, crefft’, gw. J.E. Caerwyn Williams, ‘Cerdd a Phencerdd’, LICy xvi (1990–1), 205–11.
- 9 **Urien** Un o frenhinoedd yr Hen Ogledd a drigai yn y 6g. ac a anfarwolwyd gan y bardd Taliesin a’i mola ef yn bennaf am haelioni ei lys a’i ffyrnigrwydd ar faes y gad, gw. CT xxiii–xxxvi, TYP² 516–20.
- 11 **argannau** Yn ôl G 39, ll. *argant* = ‘cylch’ neu *argan(n)* = ‘cân’. Yn ôl GPC 197, daw’r ail elfen o *cant* = ‘lle wedi ei gau i mewn, cylch, caer’ ac awgrymir yn betrus mai ‘caer, dinas, llys’ yw ystyr *argant*. Ond ceir *cant* arall (ll. *cannau*) = ‘torf, llu, mintai’ (*ib.* 418), ac awgryma’r cyddestun mai ‘lluoedd’, yn hytrach, yw ystyr *argannau* yma.
- 13 **i’th wledd** Gwrthrych anuniongyrchol *dwg Oronwy*, ll. 14.
daswyn Ni cheir y gair yn G 301 na GPC 901; deallir ef yn gyfuniad o *das* = ‘pentwr, cruglwyth’ + *gwyn* = ‘sanctaidd, bendigaidd’.
- 14 **dwg Oronwy** Llsgr. B *d6 goron6y*. Camrannwyd y geiriau.
- 15 **Tre’r Castell** Trefgordd Trecastell yng nghyffiniau Llangoed (ym mhlwyf Dindaethwy), gw. WATU 205. Yr oedd trefgordd arall o’r un enw yng nghyffiniau Aberffraw (Llangwyfan), *l.c.*
Cadell Sef, yn ôl pob tebyg, Cadell ap Rhodri Mawr y dirwynai tywysogion Gwynedd eu hach iddo, gw. G 90, J.E. Lloyd: HW³ 326, EWGT 9.

7

Englyn unodl union rheolaidd yw hwn, yn dychanu person anhysbys. Sylwer bod y llinell gyntaf yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *cyhuddwr*.

- 1 **oriog** Ar yr ystyr ‘amserol’, gw. GPC 2655.
- 3 **Hoywddawn ... heddyw** Cf. GDG³ 353 (133.11–12) *Heddiw y cefais hoywddawn, / Hyr i ddoe, hwyр yw ei ddawn*.

- 4 **addolwch i** Ar y gystrawen, cf. WM 229.32–4 *estíng eu pennneu aorugant hýnteu ac adoli idab ef.*

Dduw Efallai y dylid adfer y ffurf amrywiol *Dyw* yma er mwyn yr odl, (ar *Duw/Dyw*, gw. G 398–9 a GPC 1101); gw. ymhellach J. Morris-Jones: CD 247 lle nodir bod ‘y gwahaniaeth rhwng *u* ac *y* i’w glywed hyd yr unfed ganrif ar bymtheg yn y deuseiniaid *uw* ac *yw* acennog a diacen.’

8

Englyn serch yw’r gân brydferth hon, yr unig un sydd ar gadw o waith Bleddyn. Ynddo gresyna’r bardd at ffallster ei gariad.

- 2 **mab Mathonwy** Sef Math, dewin a brenin Gwynedd ym Mhedwaredd Gainc y Mabinogi, gw. TYP² 448–50. Yma awgrymir bod hud y ferch cyn gryfed ag eiddo Math: cf. GDG³ 231 (84.35–6, 41–2) *Tri milwr, try ym olud, / A wyddyn’ cyn no hyn hud ... / Trydydd oedd, ger moroedd Môn, / Math, rhwy eurfath, rhi Arfon.*
- 3 **Creirwy** Creirwy ferch Ceridwen, merch a oedd yn ddjarhebol am ei phrydferthwch ac yr oedd Garwy Hir, yn ôl y bardd Hywel ab Einion Llygliw, yn garwr iddi, gw. TYP² 311.

9

Ar ddilysrwydd y gerdd hon, gweler uchod td. 9. Ar wenyn yn llenyddiaeth Cymraeg Canol ac yn y cyfreithiau, gw. DrOC 163–5 a T. Charles-Edwards & F. Kelly (ed.), *Bechbretha* (Dublin, 1983), 192–205. Englyn unodl union yw’r mesur.

- 1 **cwning** Fe’i deallir yn e.ll. yn golygu ‘cwingod’, gw. GPC 644 lle nodir dau air â’r ffurf hon, sef *cwning*¹ = ‘cwingod’ a *cwning*² sy’n fenthyciad o’r S. *cunning*, ond rhy ddiweddar yw’r ail. Cymerir bod y bardd yn cymharu’r gwenyn â chwingod—nodweddir y ddau gan eu prysurdeb a’r ffaith eu bod yn epilio mor sydyn. Gan fod y gymhariaeth yn taro braidd yn chwithig, efallai y dylid diwygio yn *cwying* a deall ‘ing griddfanllyd’.

dwsing Ffurf amrywiol ar *dwsin*, gw. GPC 1107 a WG 168 ar y newid seinegol *in* > *ing*. Ar y treigladd trwynol i *d-* ar ôl *can(t)*, gw. Treigladau 139, G 108 d.g. *cant*¹ (d).

- 2 **gafel** Fe’i deallir yn amrywiad ar *gafael*, gyda’r ffurf yn dangos nodwedd dafodieithol, o bosibl. Ar *ae* > *e*, cf. *adwaen* > *adwen*,

chwarae > *chware*, a gw. WG 32.

- 3 **cnawd Abel** Nid yw'n eglur pam yn union y cysylltir gwenyn yma â chnawd Abel, ond gellir nodi dau beth: fod Abel, fel mab i Adda ac Efa ac fel dyn rhinweddol a ystyrid mewn oesoedd diweddarach yn rhagflaenydd i Grist, ond un cam, megis, o'r baradwys goll; a bod cred mai ym mharadwys yr oedd cartref gwenyn yn wreiddiol, cf. WML 81 (llau. 1–4) *Bonhed gbenyn o paradbys pan yb. ac o achab's pecha6t dyn y doethant odyo. ac ydodes du6 y rat arnunt. ac 6rth hynny ny ellir canu efferen heb y c6yr*; ac ymhellach ar y cysylltiad rhwng gwenyn a pharadwys, cf. Dafydd H. Evans, 'Bywyd a Gwaith "Gyles ap Siôn" o Radur Ucha', SC xxvi/xxvii (1991–2), 114 (nodyn 54). Nid annaturiol, felly, fyddai i'r bardd gysylltu'r creaduriaid ag Abel, gan fod y naill yn gysegredig a'r llall yn dduwiol a'r ddau â chysylltiad agos â pharadwys. Efallai hefyd fod yma awgrym fod Abel, ac yntau'n fugail, yn ymwneud â gwenyn.

10

Englyn yw hwn sy'n dychanu rhyw anifail trwy gyfeirio ato wrth ei groen. Yn ôl teitl llawysgrif C a choloffon llawysgrif D (gw. y darlleniadau uchod), englyn i arth ydyw, a byddai hynny'n cyfateb i'r disgrifiad. Yr oedd yr arth brown wedi ei ddifa o'r tir ym Mhrydain erbyn tua'r unfed ganrif ar ddeg (gw. W.P. Pycraft ed., *The Standard Natural History from Amoeba to Man* (London, 1931)), ond mae'n deg tybio ar sail y gair *cadwyndrom* (ll. 4) mai'r hyn a welodd y bardd oedd arth mewn caethiwed ac un a fyddai, felly, wedi cael ei ddwyn i'r wlad.

Englyn proest dalgron yw hwn. Ceir cynghanedd sain yn llinellau 1, 3 a 4, a chynghanedd groes yn llinell 2, ond bod yr g yn y gair cyntaf heb ei hateb.

- 1 **gwae** Ebychiad o dosturi coeglyd, efallai, oherwydd caethiwo'r anifail.
gwylltred Derbynnir yr ystyr 'yn rhedeg neu'n llifo'n wyllt (am afon, &c.), chwyrn, buan' a roddir i'r ffurf fel a. yn GPC 1769, er bod yr enghraifft gynharaf yno o'r gair o eiriadur Walters (1783); ond nid oes dim rheswm i'r gair beidio â bod yn gynharach, cf., e.e., R 1027.25 *retua6r* (anh.).
gwalltrosgl Ar *trwsgl* = 'garw', gw. I. Williams, 'Nodiadau Cymysg', B xi (1944), 141, I. Williams: EL1 18–19. Defnyddir y ffurf f. am fod y gair yn goleddfu'r eb. *siaced*, gw. Treigladau 21, a cf. isod ll. 4 *cedendrwsgl*.
- 3 **tonrhefr** Ar *ton* = 'croen', gw. P. Mac Cana yn 'Nodiadau Amrywiol', B xix (1960–2), 114.

- 4 **cedendrwsgl** Sylwer mai'r ffurf wr., nid b. (*trosgl*), a ddefnyddir, a hynny er bod *siaced* yn eb. Dichon fod y bardd yn meddwl mwy am yr arth na'r siaced erbyn hyn, a hynny fel eg., ond eto *cedendrwsgl* a ddis-gwylid, nid *gedendrwsgl*. Efallai fod y bardd yn dymuno osgoi ailadrodd *-osgl* ll. 1, ond os felly, bu'n ddiofal.

11

Englyn lleddfbroest yn dychanu rhywun o'r enw Adda yw hwn, a dichon mai'r un person ydyw â gwrthrych cerdd 12. Daw'r dyddiad A.D. 1090 a briodolir i'r bardd yn y llawysgrif ar ôl yr englyn o'r adran yn niwedd D ar awduron Prydeinig a'u dyddiadau.

Cynganeddion braidd gyffwrdd a geir yn y ddwy linell gyntaf, a sylwer bod *m* ac *n* wreiddgol yn y drydedd linell, cf. GIG 76 (XVI.61) a gw. T. Parry, 'Pynciau Cynganedd', B x (1939-41), 1-5.

12

Englyn proest talgron yw hwn yn dychanu rhywun o'r enw Adda, yr un person, efallai, â gwrthrych yr englyn blaenorol. Nid yw'r cyffelybu yn glir o gwbl, ond diddorol yw'r ddelwedd o ast yn ceisio pasio asgwrn, gan fod yr ymadrodd 'fel ci yn cachu asgwrn' ar lafar yng ngorllewin Môn heddiw am rywun yn ymlafnio'n ofer i wneud rhywbeth,¹ yr hyn sy'n tueddu i awgrymu, megis y cyfeiriad at fawn Môn yn 'Ymryson Bleddyn Ddu a Chonyn Coch' (isod 14.4), mai gŵr o Fôn oedd Bleddyn. Yn llawysgrif D priodolir yr englyn i Fleddyn Fardd yn groes i dystiolaeth y llawysgrifau eraill, ac amlwg i rywun gymysgu enwau'r ddau fardd (cf. Atodiad cerdd i).

- 3 **amgarn** 'Cylch', gw. GPC 85; defnyddir ef yn ffigurol, fe ymddengys, am ffurf gylchog rhefr yr ast.

- 4 **duw Pasg** Nid yw'n eglur pam mai'r adeg hon y digwyddodd hyn.

13

Englyn dychan yw hwn i gymeriad o'r enw Gwion. Dichon mai tafarnwr ydoedd, er nad yw'n eglur, felly, pam y priodolir chwibanogll iddo oni bai ei fod yn ceisio difyrru ei gwsmeriaid ag un! Os ar lun englyn unodl union y lluniwyd y pennill hwn yn wreiddiol, mae'n amlwg fod cryn lygru wedi bod arno dros y canrifoedd. Pum sillaf yn unig a geir yn yr ail linell ac mae wyth sillaf yn y drydedd linell a naw yn y llinell olaf.

¹ Fel y'm sicrhawyd gan Mr Tomos Roberts, Prifysgol Cymru Bangor.

Ni cheir cynghanedd yn y llinell gyntaf na'r olaf.

- 1 **colofn** Ni roddir yr ystyr benodol 'simnai' yn GPC 544 ond gallai olygu hefyd, yn drosiadol, unrhyw beth ar lun piler, gw. *ib.* (c).
- 2 **hogl** Dilynir darlenniad llsgr. B *ythogl* gan ddeall yr ail elfen yn *hogl* = 'adeilad chwithig ei gynllun neu adfeiliedig ei gyflwr ...', gw. GPC 1888.
- 3 **chwynu** Fe'i deellir yn ffurf lafar ar *chwynnu*, er na restrir yr amrywiad yn GPC 862, yn hytrach nag yn enghraifft o'r ferf ddeheuol *cwnnu* = 'codi', &c., *ib.* 644.
- 4 **birhogl** Llsgrau. ABC *virogl*. Deellir ef yn gyfuniad o *bir* = 'cwrw' + *hogl* (gw. uchod ll. 2n) a'r *h-* heb ei dynodi yn y llsgrau., cf. *cyfrdy* a'r S. 'beerhouse'. Dyddir yr enghraifft gynharaf o *bir* yn 1450–80 yn GPC 278, ond ceir enghraifft ohono yng ngwaith Iolo Goch, sef yn y 14g., gw. GIG 83 (XIX.18).

14

Nid yw cefndir yr ymryson byr hwn yn eglur, ac ni rydd y rhaglithoedd a geir gyda'r englynion (gw. y darlenniadau) fawr o oleuni ar y mater. Gellir cynnig, fodd bynnag y dehongliad a ganlyn.

Tynnwyd sylw yn y Rhagymadrodd (td. 5) at awdl ddychan Hywel Ystorm a'r awgrym i Fleddyn golli nawdd ym Môn, gan gyfeirio'i sylw wedyn draw at Faelor yn y dwyrain. Onid cwyn gyffelyb a leisir yn ei erbyn gan Gony'n Coch, sef ei fod ef (ynghyd â chlerwyr eraill o'r gorllewin—y *Bleiddiau bell*, ll. 3—yn ymddwyn yn annheilwng wrth hawlio nawdd yn Iâl (sef, mae'n debyg, y *cwmwd* yn ll. 3; a bro Conyn) yn hytrach na'i geisio ym Môn, ei famwlad (cf. ll. 8)?

O dderbyn hyn, gellir mynd gam ymhellach, ac awgrymu mai taith yta oedd hon, o Fôn i Iâl, gan Fleddyn a'i gyd-glerwyr. Cyfeirir at achlysur cyffelyb gan Ieuan Du'r Bilwg, c. 1471, pan ddisgrifir wyth neu naw o brydyddion yn chwilota am yd ym Mro Morgannwg. Cynigir, felly, mai erchi yd i lenwi'r cwd a gludir ganddo a wneir yn llinell 4, ... *Bleddyn yn gofyn ei gwd*.¹ Os gwir y ddamcaniaeth hon, yna dwrddio llwyddiant Bleddyn yn hel yd a wna Conyn yn llinell 8 gyda'i sôn am *sach had lawn*, gan ofyn yn watwarus wedyn a oedd tir Môn (gwlad a nodweddir gan ei ffrwythlondeb) wedi mynd yn ddigynnyrch. Fodd bynnag, mae'r cyfeiriad at Fôn yn bwysig o ran gwybod o b'le yr oedd Bleddyn yn hanfod (gw. uchod td. 2).

Etyb Bleddyn trwy bortreadu Conyn fel oen ofnus a gofyn iddo a gafodd

¹ Cf. disgrifiadau Ieuan Du'r Bilwg o'i gyfaill Llywelyn Goch y Dant yn yta: *ag ar i warr, garrai warth, / liaingwd o lywangarth... / elor goch, a'ü law ar gwd*, Dafydd H. Evans, 'Ieuan Du'r Bilwg (fl. c. 1471)', B xxxiii (1986), 110.

dâl gan gŵn Iâl am ei dad. Yn ôl y rhaglithoedd a choloffonau a geir gyda llawysgrifau ABC¹C², cyfeiriad yw hwn at ddigwyddiad pan laddwyd tad Conyn gan gŵn Iâl, er na ellir gwybod ai'r ymryson yn unig neu ryw ffynhonnell arall oedd eu sail. Ond os ydynt yn gywir yn hyn o beth, gellir dehongli geiriau Bleddyn fel ffordd wawdlyd o ddweud wrth Gonyn na ddylai edliw iddo ef, Bleddyn, am ofyn nawdd os ydoedd wedi cael iawndal pan laddwyd ei dad gan y cŵn. Posibilrwydd arall yw mai cyfeiriad dilornus yw cŵn at noddwyr Iâl ac awgrym eu bod yn rhy grintachlyd hyd yn oed i roi tâl (neu dâl teilwng) i Gonyn Coch am ei dad. Os felly, yr ergyd fyddai na ddylai Conyn ddwrddio Bleddyn am ofyn nawdd ar ei diriogaeth a'r noddwyr yno'n fath gybyddion. Yn niffyg gwybodaeth ddigonol, ni ellir ond dyfalu.

Ni wyddom nemor fwy am Gonyn Coch na'r hyn y gellir ei gasglu amdano o'r ymryson hwn. Cesglir o linell 12 mai un o Iâl ydoedd a dyna a ddywedir yn rhaglithoedd llawysgrifau C¹C²E, er y dichon mai ar yr ymryson yn unig y seiliwyd hwy. Yn ôl rhaglithoedd llawysgrifau AB, un o Degeingl ydoedd, a chan nad oes sôn am Degeingl yn yr ymryson, dichon eu bod yn tarddu o draddodiad dilys am Gonyn Coch. Ond gan fod cwmwd Iâl yn ffinio â rhan ddeheuol Tegeingl,² dichon hefyd i rywun gymysgu bro enedigol y bardd gan agosed y cantref a'r cwmwd at ei gilydd. Fodd bynnag, gellir casglu bod y bardd yn hanfod o Degeingl neu Iâl yn y dwyrain, a theg tybio mai oddi yno y deuai ei dad hefyd.

Mae hefyd ar glawr englyn dychan maswedus gan Gonyn i ryw Fadog, a argreffir yn yr Atodiad isod (cerdd ii).

Englynion unodl union a geir yma. Sylwer bod llinell 1 yn rhy fyr o sillaf onid yngener *brwydr* yn air deusill, a bod llinellau 3 a 4 yn rhy hir o sillaf oni chywesgir yn â'r gair blaenorol.

Ceir yr ymryson yn gyflawn yn llawysgrifau AB, yn C¹C²D ceir yr ail a'r trydydd englyn, ac yn D yr englyn olaf yn unig.

- 2 **llamysgwd** Cyfuniad o *llam* + *ysgwd*; ni chynhwysir y ffurf yn GPC 2094. Ar *ysgwd* = 'gwth, ergyd', gw. GDG³ 483, 606. Mae'n bosibl mai cyfeirio a wneir at gampau rhywiol Bleddyn (cf. un o ystyron y f. *llamu* = 'neidio mewn cytgnawd ... ymrain, cnuchio', *ib.* 2092 (b)) ond y tebyg yw mai disgrifiad sydd yma o Fleddyn yn llamu'n ymwithgar gyda'i gyd-glerwyr i hawlio nawdd mewn cwmwd pell (ll. 3): gw. y nodyn ar y cefndir uchod.
- 3 **bleiddiau bell** Deellir hwn yn gyfansoddair llac 'pell [ei] fleiddiau', gan ddeall *bleiddiau* yn gyfeiriad ffigurol at y clerwyr a deithiai gyda Bleddyn i hawlio nawdd yn bell o Fôn i Iâl yn y dwyrain: gw. ymhellach y nodyn ar y cefndir uchod.

² Gw. HAW, map 28.

cymell Am yr ystyr ‘hawlio, mynnu (tâl, &c.)’, gw. GPC 763.

- 6 **tuswgron** Deellir hwn yn a. ac ynddo’r elfennau *tusw* + *cron* (bôn y f. *cronni*), sef yn llawn ‘yn perthyn i dusw a [had] wedi cronni iddo’. Ar y math hwn o a., gw. J. Morris-Jones: WS 31–2. Rhydd D i *tusw* yr ystyr ‘*fasciculus*’ (= ‘seldrem, dyrnaid, lloewth, dylwŵf, tusw, twysg, twysgen’, *ib.*) a ‘*penicillum*’ (= ‘puntr, tusw, cadach llestri neu’r cyffelyb, goreth a roer mewn briw’, *ib.*). Yr oedd Bleddyn yn gorlifo gan ŷd.
- 7 **heb wreiddion** Cyfeiriad, mae’n debyg, at grwydriadau clerwrol di-derfyn Bleddyn, gw. ymhellach uchod td. 4.
- 8 **sach had lawn** Gw. y nodyn ar y cefndir uchod.
- mawn Môn** Ar fawnogydd Môn, gw. MAng 19, 23. Ar arwyddocâd y cyfeiriad yn y gerdd, gw. y nodyn ar y cefndir uchod.
- 11 **gên** Cyfeiriad at ran gam neu fachog pen ffon y bugail a ddefnyddid i fachu coes ôl y ddafad, S. ‘*crook*’.

Atodiad

i

Ar annylsyrwydd awduriaeth yr englyn hwn, gw. y rhagymadrodd uchod, tt. 11–12. Ynddi coffeir William II a goronwyd yn frenin Lloegr yn Sain Steffan ar 26 Medi 1087 (bu f. 1100) ac a adwaenid fel ‘William Rufus’ (‘Gwilym Goch’) oherwydd rhuddgochni ei wedd. Yn llawysgrif B fe’i priodolir i Fledwyn Fardd, ond i Fledwyn Ddu ym mhob un o’r lleill, a diau mai cymysgu enwau’r ddau fardd a barodd hynny (cf. uchod cerdd 12).

- 1 **molen’** Deellir hwn yn ffurf 3 ll.grch. *moli*, gyda’r *t* wedi ei cholli, yn hytrach na’r ffurf 3 ll. amhff.myn. Ar golli’r *-t*, cf. GDG lxxxiii.
- 3 **llen** Ar ystyron *llen* = ‘cyrtlen, croglen’, &c. gw. GPC 2151(a). Fe’i deellir yma’n ffigurol, cf. GLIL1 10.61 *Trallwng Llewelyn, llen brid—i’w berchen lle golyga ‘amddiffynfa’*.
- 4 **Parchus ... berchen** Cyfosodir y ddwy elfen hyn yn aml yng nghanu’r Gogynfeirdd, e.e., GCBM i, 21.64 *Un perchen parchus ar ei deithi*.

ii

Ar Gonyng Coch, gw. uchod cerdd 14. Dyma’r unig enghraifft arall o’i waith sydd ar glawr. Ni wyddys pwy oedd y Madog a enwir fel gwrthrych y gerdd. (Diddorol nodi i’r Ustus Llwyd ddychanu rhyw glerigwr o fardd o’r enw Madog tua diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg; gw. ymhellach Dafydd H. Evans yn YB XVII (1990), 73–4.)

Englyn proest talgron yw hwn; mae llinellau 1 a 2 yn fyr o sillaf onid yngenor y gair olaf yn ddwy sillaf, ac odl yn unig a geir yn llinellau 1 a 3.

2 **eirchwyn** Deellir yr elfen gyntaf yn ll. *arch* = 'cais, deisyfiad', &c., gw. GPC 179.

chwys'gl Sef *chwysigl* = 'chwysigen' (gw. GPC 865) am *chwiscl* y llsg.

3 **celwrn llawnllwyth** Cf. uchod 14.8 *sach had lawn*.

pwyth Cymerir *pwyth* = S. 'stitch' sydd yma ond mewn ystyr ffigurol. Trewir neu dreiddio yn y ddau achos.

Llawysgrifau

Llawysgrifau yng nghasgliad Prifysgol Cymru Bangor

Bangor 1: llaw anh., c. 1450, gw. GP xiv.

Bangor (Mos) 3: llaw anh., 16g., gw. CBMC i.

Bangor (Mos) 6, Rhan II: llaw anh. (*ex inf.* Tomos Roberts, Prifysgol Cymru Bangor), diwedd yr 16g. (?) ac yn gynnar yn yr 17g., gw. *ib.*

Llawysgrifau Ychwanegol yn y Llyfrgell Brydeinig.

BL Add 9817: llaw anh., 1580–1600, gw. CMRWBM iv, 934–48.

BL Add 14892: llaw anh., diwedd yr 17g., gw. CAMBM, 1844, 25–6.

BL Add 14934: Lewis Morris (1701–65), gw. *ib.* 36–7.

BL Add 14979: llaw anh., 16g./17g., gw. *ib.* 53–4.

BL Add 14990: Hugh Maurice, 18g., gw. *ib.* 57.

BL Add 14994: Owen Jones, (1741–1814) (*ex inf.* Graham Thomas, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth), gw. *ib.* 58–9.

BL Add 15001: John Walters, a. 1792, gw. *ib.* 61–2.

BL Add 15003: Edward Williams ‘Iolo Morganwg’, ail hanner y 18g., gw. *ib.* 62–3.

BL Add 15046: Roger Morris, 1593, gw. *ib.* 78, GP xiv.

BL Add 31055 [= RWM 32]: Thomas Wiliems, 1594–6, gw. RWM ii, 1053–65.

Llawysgrifau yn Llyfrgell Sir De Morgannwg

Card 2.145: W.J. Rees, Casgob, 1832, gw. GP xv.

Card 2.634 [= Hafod 24]: John Jones, Gellilyfdy, 1605, gw. RWM ii, 334–5, GP xiv.

Card 4.156: Margaret Davies, 1736–7, gw. RWM ii, 272–85.

Llawysgrifau yng nghasgliad Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

CM 25: llaw anh., c. 1655, gw. RWM ii, 924–5.

CM 233: Lewis Richards, Darowen, 1821, gw. GP xv, CCM 269.

CM 250: David Richards ‘Dewi Silin’, yn gynnar yn y 19g., gw. GP xv, CCM 228.

Llawysgrif yng nghasgliad Gwyneddon Davies ym Mhrifysgol Cymru Bangor

Gwyn 19: David Ellis (1736–95), gw. GSCMB 31.

Llawysgrifau yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen

J 88: llaw anh., 18g., gw. RWM ii, 86–90.

J 111, ‘Llyfr Coch Hergest’: Hywel Fychan, *c.* 1400, gw. *ib.* 1–29; G. Charles-Edwards, ‘The Scribes of the Red Book of Hergest’, *Cylchg LlGC xxi* (1979–80), 246–56.

Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru

LIGC 1553A: Thomas Evans (*ex inf.* Graham Thomas, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth), 16–17g., gw. HMNLW i, 128–9.

LIGC 1849B: W.J. Rees, Casgob, *c.* 1832, gw. *ib.* 163, GP xv.

LIGC 3029B [= Mos 110]: Thomas Wiliems, ?*c.* 1575, gw. RWM i, 23–6, GP xiv.

LIGC 3039B [= Mos 131]: John Jones, Gellilyfdy, rhwng 1605 a 1618, gw. RWM i, 87–97.

LIGC 3049D [= Mos 146]: llaw anh., yn gynnar yn yr 17g., gw. *ib.* i, 168–79 eithr gthg. y dyddiad a roddir yno.

LIGC 4973B: John Davies, Mallwyd, *c.* 1631, gw. HMNLW ii, 59.

LIGC 5474A [= Aberdâr 1]: Benjamin Simon, Abergwili, *c.* 1745–51, gw. *ib.* 395–408, GP xv.

LIGC 9048E [= Rhydychen Coleg Balliol 353]: Syr Siôn Prys, ail chwarter yr 16g., gw. *ib.* cx, HMNLW iii, 106, E.D. Jones, ‘Llyfr Amrywiaeth Syr Siôn Prys’, *Brycheiniog*, viii (1962), 97–104; R.A.B. Mynors, *Catalogue of the Manuscripts of Balliol College Oxford* (Oxford, 1963), 349–51.

LIGC 11990A: rhyw Rees Roberts, efallai, o Lanrwst neu Drefriw, 17–18g., gw. HMNLW iv, 103.

LIGC 13096B [= Llanofor C 9]: Edward Williams, ‘Iolo Morganwg’, *c.* 1800, gw. GP xv, HMNLW iv, 376–7.

LIGC 21700D [= Llawysgrif o Goleg Heythrop]: llaw anh., ail chwarter yr 17g., gw. ABLIGC, 1980–1, 60–1.

Llawysgrifau yng nghasgliad Llanstephan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Llst 3: llaw anh., c. 1400–25, gw. RWM ii, 422–4, GP xiii.

Llst 133: Samuel Williams, yn gynnar yn y 18g., gw. RWM ii, 664–94; G.H. Hughes, *Iaco ab Dewi* (Caerdydd, 1953), 37–40.

Llst 145: Moses Williams, yn gynnar yn y 18g., gw. RWM ii, 721–5; G.H. Hughes, *op.cit.* 22, 53.

Llst 147: David Parry, c. 1700, gw. RWM ii, 726, GP xv.

Llawysgrifau yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Pen 20: llaw anh., c. 1330, gw. RWM i, 342–7, D. Huws, ‘Llyfrau Cymraeg 1250–1400’, *Cylchg LIGC* xxvii (1993–4), 20.

Pen 56: llaw anh., c. 1500, gw. GP xv–xvi.

Pen 77: Thomas Wiliems, rywbyrd rhwng 1576 a’i farw (1622), gw. RWM i, 509–18.

Pen 96: Lewis Dwnn 1565–1616, gw. *ib.* 592–603.

Pen 99: William Salesbury (?1520–?1584), gw. *ib.* 613–24.

Pen 118: Siôn Dafydd Rhys a’i gylch, c.1600, gw. *ib.* 718–25.

Pen 197: David Ellis (1736–95), gw. *ib.* 1026.

Pen 271: Thomas Wiliems, trydydd chwarter yr 16g., gw. *ib.* 1095–6, GP xiv.

Pen 313: John Jones, Gellilyfdy (c. 1578–83–?1658), gw. *ib.* 1118–19.

Mynegai

- a**¹ 2.1n, 13n
a² 3.4n, 4.37n, 5.45n
achluddbwll 1.36
adrodd: edrydd 5.27
addawd 2.23, 4.1
addef: rhyaddef 4.34n
addoed 1.31, 2.23
addoli: addolwch 7.4n
aelawd 4.48n
aelfedd 4.48
aerbair 6.7
afrad 5.23
agor: Agoriau 6.2n
amgarn 12.3n
amharawd 2.18
amnawd 4.31n
anafgern 12.2
anamser 2.19
anhunawd 2.33
annefawd 4.9n
ar: arnaw 2.31n
araf 1.36
arawd 1.36, 2.10
Ardelydd 5.5
arddelw 3.13, 4.21n
***argant: argannau** 6.11n
Argleidradd 3.35
arwain 5.31 **arweddfaf** 1.45
arwydd 2.10, 35, 3.33n
asgell: esgyll 4.45
ave 5.12n
awr 3.33n
ban 2.35n
bâr: baroedd 3.22
bawd 4.52n
bedydd 1.28, 3.12
bedysiawd 4.17
berw 2.25
birhogl 13.4n
blaidd 14.7 **bleiddiau** 14.3n
blys 4.11n
bod 3.34 **wyf** 4.20n **wyd** 3.4n **ys** 2.28n, 4.53n **yw** 12.1n **byddaf** 1.15n **bu** 2.22n, 3.3n, 5.7n
bodd-daith 2.37
brad 1.23, 2.9, 4.66n
bradw 1.17n
brawgwyn 2.26
bro 3.6
budrdlawd 4.27
buddol 2.28n
buddran 5.6
bustl 2.25
byd 4.60 **bydau** 5.7n
bydlwydd 3.34
cablawd 4.32
cadwyndrom 10.4
caead 1.23
cael: cafas 5.9 **caffwyf** 4.41n
caeth: caith 1.16n
cafnaid 4.46
caliog Atodiad ii.1
camgaru 5.50
cannerth 3.15
cardawd 4.42
carddair 6.7
caul Atodiad ii.4
cedendrwsgl 10.4n
ceinwiw 5.47
celfyddawd 4.57
celwrn Atodiad ii.3n
cerdd: cerddau 6.7n
cerennydd 5.48
cethern 1.24
ceudawd 2.27
cnawd 4.6n, 9.3n

- Coelydd** 5.44n
colofn 13.1n
craft 9.2
crair 3.1, 11, 4.67
Cred 4.65
creifiaint 5.8n
creiglwyn 11.3
crogles 11.4
crygleidr 11.4
cuddygl 2.17n
curn Atodiad ii.2
cwning 9.1n
cyfarch: cyfeirch 5.26
cyfnawd 4.46n
cyfraith 1.15n
cyfundawd 2.40n, 4.44
cyhoedd 2.31
cyhoeddog 7.2
cylchnawd 4.50
cymar 3.31
cymell 14.3n
cymen 5.2
cymhendawd 4.15
cyn 4.46n
cynnelw 5.11
cynnydd 1.3, 5.6
chweingasgl 10.2
chweiris 2.25n
chwnnu 13.3n
chwynnogl 13.3
chwsy'gl Atodiad ii.2n
daear 2.13n, 3.31n
daearawd 4.47n
daearen 4.47n
daioni 3.2n
daswyn 6.13n
Dau 3.3n
dawn 1.18, 4.43, 59, 5.12 **doniau**
 1.26
dawngof 2.36
deddf 3.15
deddfawl 3.1
deheuwlad 5.46
deon 4.3n
deudda 3.10
deurudd Atodiad ii.4
Dewin 5.17, 6.12
dewiniaeth 5.30
diau 3.4
dibla 3.9
didramgwydd 2.10
didrawd 2.6n
diddan: diddanaf 3.2n
difalch 4.50
Difarner 4.16n
difrad 3.12
difrawd 2.36 (gw. hefyd **difrodi**)
difrodi: difrawd 4.68
difudd 4.49
difuledd 3.24n
diffael 3.27n
digaeth 1.42, 3.16
digawdd 1.43
digerydd 1.4, 5.7
digrif 3.5
digwym 2.7
dilesg 6.9
dilid 3.8
dinas 6.10
dirdanc 2.11n
dirwydd Atodiad ii.4
dirwyn 6.6
disalw 3.9
disarrug 5.7n
diwan 6.12
diwared 2.19
diwraidd 6.15
diwyll 4.45
dlyed 5.49
doeth: doethaf 3.2n
doniog 6.10
dremrodd 3.17
dremynt 1.43
drych 13.3
du 13.3
dubwll 4.46

- duhundawd** 4.37
duw 12.4n
dwfn: dofn 3.31n
dwsing 9.1n
dwyn 4.52n **dwg** 6.14n
dwys 6.13
dwywes 3.7
dy 3.2n
dydd 3.27n
dyddatgor: dyddetgyr 2.34
dyfod 4.54n **doddwyd** 3.6 **dyfu**
 2.1n **doeth** 3.10n **rhyddoeth**
 1.25
dyfydd 4.54n
dygymodi: dygymydd 5.2
dyrnawd 4.63n
dywedud: dywawd 2.39, 5.12
efylltawd 4.14n
ei 1.40n, 2.28n, 4.6n
Eglwys 1.22n
eiddun 5.2
eiliad 14.11
ein 2.42n, 4.25n
eirchwyrn Atodiad ii.2n
eirglod 3.34
eisyddyn 2.4
enw 1.40n
erbyn 2.42n
erchwyniog 4.62
erchyll 4.58
Eurben 2.41
Eurdalaith 5.5
Eurddelw 4.21n
Eurglawr 3.33
Eurnen 1.6
ffaglaur 1.10n
ffawd 2.2
ffrwythlawn 3.16
gadael: gad 3.35n
gafel 9.2n
galanas 5.22
gên 14.11n
Glandad 1.1
gleindid 1.2n
globair 3.30
gloywdoeth 3.36
gloywlym At i.3
glwth: glytha' 4.6n
gnawd 4.53n
gobryn 4.7n
goddef 4.34
golau 1.14n
golygwefr 10.3
gorchudd 1.47n
gorllwyn 5.37
gormodd-der 2.20
grasryw 3.27n
gwae 10.1n
gwaedryal 4.58
gwael 3.28
gwaelawd 4.7n
gwaethaf 1.31n
gwalltrosgl 10.1n
gwâr 5.45
gwaredu: gwarawd 4.56
gwaredd 2.38n
gwastawd 2.13, 4.13n, 64
gwawr 4.38n
gwdenbwys 11.2n
gwedd-dawd 4.19
gweingofl 10.2
gwellt 5.45n
Gwenergwaith 5.21
gwg 3.19
gwinllad 6.10
gwir 1.1, 5.8 **gwiraf** 1.25
gwirair 5.18
Gwirdad 2.46, 4.61
gwirdaith 1.4
Gwirionnaf 1.33n
gwirawd 4.38
gwiwdal 4.58
gwledd 6.13n
gwneuthur: gwnaeth 2.13n
gwraidd: gwreiddion 14.7n
gwrys 4.53n

- gwthgasgl** Atodiad ii.3
gwych 1.16n
gwydn 1.29
gwydd 5.45n **gwyddion** 4.19n
gwyddoch 13.1
gwygoch 10.2
gwylltred 10.1n
gwynfydig 4.40
gwynfydu: **gwynfydwyf** 4.41
gwynfydus 4.39
gwyrdawd 4.61
had 14.8n
Haeddawdr 3.23
hanbwyll 2.8
hawl: **holion** 1.33
heb 1.47n, 14.7n
heddyw 7.3n
hoffawd 4.29
hogl 13.2n
holi: **hawl** 1.14n
hoywddawn 7.3n
huenydd 5.33
hyd nas 1.8n
hyfaeth: **hyfaethaf** 1.13n
Hynaf 5.36n
hynafiaeth 5.4n
Hynefydd 5.4n
hynod 2.33
hyrddawd 2.38n
hywlydd 5.46
i¹ 7.4n **in** 4.53n **ith** 6.13n
i²: **o'i** 2.11n
'i: **o'i** 2.11n, 4.35n, 36n
iawn: **iawna**f 1.40
ifanc: **ifanc** 9.2n
irwydd 5.21
llamysgwd 14.2n
llariaidd 6.1
llariedd 3.24
llawn 3.25n, 14.8n
llawnllwyth Atodiad ii.3n
llawr¹ 3.28n
llawr² 3.31n
llawrgwydd 4.49
llawrydd 6.1
llednais 6.5
***lleia**: **lleia** 6.4n
lleidr: **lladron** 1.31n
llen Atodiad i.3n
lleufer: **lleuferau** 5.41
llew 6.4
llewenydd 5.9n
llewni: **llewnid** 3.8n
Llewychfab 5.18
llidnaws 6.5
llin 4.35n
llogawd 4.54
lludd 1.47n
lluddias: **lludd** 3.25n
llunieth 1.41
Lluydd 3.27n
llwybrawd 4.41
llwyddedig 6.2
llwyddfaint 3.21
llwyr: **llwyr**af 3.21
llwyrgudd 4.49n
llyfar 6.3n
llygad 12.2
llys 5.39
mab 8.2n
maddau 3.17n
magu: **maeth** 2.13n
maint 3.21
mant: **mantoedd** 3.21
mawl 3.1n
mawn 14.8n
mawrfaint 5.8
Medridydd 5.39
meddrawd 4.49
meddwl: **meddyliau** 3.18n
meidrol 2.28
moli: **molaf** 3.1n **molen'** Atodiad
i.1n
mynydd 5.49n
na: **n'** 3.35n

- neb** 4.35n
o¹: o'i 4.35n, 36n
o² gw. i²
odid 3.5
oestawn 3.25n
oeswedd 2.3n
onnen 6.9
oriog 7.1n
Pader 1.21n, 5.36
pâl 4.10
pall 4.14n, 8.1n
pân 3.35n
parawd 2.15, 4.2, 40
parch 2.41n
parchus Atodiad i.4n
Pasg 12.4n
pechu: pechawdd 3.20n
pell 5.49n, 14.3n
Perchen (p-) 5.2, Atodiad i.4n
piau: pieufydd 5.3n
pla 2.21, 4.17n
plannawd 4.3n
poenboeth 3.35
pothan 11.1
prifardd 4.20n
priod 2.41n
profadwy 4.21n
prudd 4.9n
pum 2.38n, 5.9n
pyyll 3.25, 8.1
pywll 4.14
pwyth Atodiad ii.3
pymffrwd 4.22
pymffrwyth 4.22
'r gw. yr
rhai 1.17n
rhandawn 2.30n
rhed 2.19n
***rhewinio: rhewiniodd** 4.31n
rhinwedd: rhinweddau 1.21n
Rhoddlyw 3.33
rhwyddbwyll 1.20
rhwym 4.57
rhyaddef gw. addef
rhyddoeth gw. dyfod
sach 14.8n
somi: somes 4.8
swrth 2.18n
tân 3.35n
terra 2.6n
tinllaes 11.1
tinrhisgl 10.3
tonrhefr 10.3n
traethair 4.39n
traethawd 2.35n, 4.39n
tranhedig 4.30
trawd 4.62n
tridawn 5.16n
tro: troau 3.18n
tuswgron 14.6n
tyrfu: tyrfawd 2.32n
'th: i'th 6.13n
Uchedydd 5.29n
ufydd: ufyddaf 1.39
uffern 3.28n
Un 3.4n
urddawd 4.21n
urddedig 5.14
urddo: urddwyd 3.6
wrth 1.15n
wybrydd 5.11n
wynebawd 4.33
yn 2.22n
yr 3.27n 'r 1.21n, 3.3n
yng: yngaf 1.34
ymgerydd 5.50n
ysbyddawd 2.28n
ysgellwrych 14.6
ysgrublaidd 14.6
Ystywll 3.25
ystyllawd 4.25n

Enwau personau

- Abel** 9.3n
Adda 1.38, 11.2
Addaf^l 1.38, 4.1, 9
Adda 11.2n **Addaf** 12.2n
Anna 5.19
Cadell Cadell ap Rhodri Mawr
 6.15n
Creirwy 8.3n
Crist 1.1, 25, 2.1, 3.1, 23, 4.23
Dofydd 5.15, 6.13
Duw, Dyw 1.4, 3.10, 4.20, 26,
 44, 5.1, 13, 17, 32, 7.4n
Efa 4.12, 17
Gabriel 5.11
Goronwy Goronwy (ap Tudur
 Hen) 6.14
Iesu 1.35, 2.1, 21, Atodiad 1.1
Iuddas Jwdas 5.22
Lwsiffer 4.28, 29
Llachau 6.5n
Mair 1.10, 27, 2.3, 29, 3.11, 29,
 4.11, 29, 4.39, 67, 5.8, 18, 30,
 33
Mathonwy 8.2n
Pilad 5.23
Trindawd 1.11, 2.30, 4.55
Urien 6.9n

Enwau lleoedd

- Glyn Ebron** 4.7n
Iâl 14.12
Israel, yr 3.27n
Môn 14.8
Suddea Jwdea 5.19
Tre'r Castell 6.15n

Mynegai i'r llinellau cyntaf

	tud.
Caliog Fadog both drosgl.....	47
Cwning can nwsing cywion, isel—cainc	38
Deddfawl mawl molaf, didrist Grist, grair Naf.....	21
Glandad gwir gelwir, ar Grist galwaf.....	13
Gwae'r siaced wylltred walltrosgl	39
Gwion gwyddoch chwibanogl—du'r golofn	42
Hoffa' peth, pothan tinllaes.....	40
I Dduw uchaf y cyfarchaf, wyf cyferchydd	30
Iesu a ddyfu o ddefawd—gwarder.....	17
Llyw Gorllewin, llawrydd Frenin llariaidd freiniau.....	34
O llas (wi o'r gras oriog ryw!)—cyhuddwr	36
Pa sôn sy yma, pa siffrwd—brwydr.....	43
Preswylodd gyntaf Addaf addawd.....	25
Tebyg yw (rhyw rhefr utgym)	41
Un dwyll wyt o bwyll o ball dramwy—hoed.....	37
Un mil oedd oed Iesu, molen'—is haul	46